# Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

## Adroddiad Cwmpasu

Cyngor Bro Morgannwg

Mehefin 2022

Delivering a better world

## Ansawdd gwybodaeth

| Paratowyd gan | Gwiriwyd gan | Dilyswyd gan | Cymeradwywyd gan |
|---|---|---|---|
| Rosie Cox<br>Uwch Gynllunydd Amgylcheddol<br><br>Laurie Marriot<br>Cynllunydd Amgylcheddol Graddedig | Alastair Peattie<br>Cyfarwyddwr Cyswllt | Nick Chisholm-Batten<br>Cyfarwyddwr Cyswllt | Nick Chisholm-Batten<br>Cyfarwyddwr Cyswllt |

## Hanes Diwygio

| Diwygiad | Dyddiad Adolygu | Manylion | Enw | Swydd |
|---|---|---|---|---|
| F1 | 30.03.22 | Drafft ar gyfer adolygiad mewnol | Rosie Cox | Uwch Gynllunydd Amgylcheddol |
| F2 | 06.04.22 | Drafft cyntaf i'w adolygu gan y cleient | Rosie Cox | Uwch Gynllunydd Amgylcheddol |
| F3 | 08.06.22 | Fersiwn ymgynghori | Rosie Cox | Uwch Gynllunydd Amgylcheddol |

Paratowyd ar gyfer:

Cyngor Bro Morgannwg

Paratowyd gan:

AECOM Limited
3ydd Llawr, Portwall Place
Portwall Lane
Bryste BS1 6NA
Y Deyrnas Unedig

Ff: +44 117 901 7000
aecom.com

Hawlfraint 2022 AECOM Limited. Cedwir Pob Hawl.

Paratowyd y ddogfen hon gan AECOM Limited ("AECOM") er defnydd ein cleient (y "Cleient") yn unig, yn unol ag egwyddorion ymgynghorol a dderbynnir yn gyffredinol, y gyllideb ar gyfer ffioedd a'r cylch gorchwyl a gytunwyd rhwng AECOM a'r Cleient. Nid yw AECOM wedi gwirio unrhyw wybodaeth a ddarperir gan drydydd parti ac y cyfeirir ati yma, oni nodir yn wahanol yn y ddogfen. Ni all unrhyw drydydd parti

ddibynnu ar y ddogfen hon heb gytundeb ysgrifenedig a datganedig AECOM ymlaen llaw.

## Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad ... 1

2. Economi a chyflogaeth ... 7

3. Poblogaeth a chymundeau ... 30

4. Iechyd a lles ... 50

5. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ... 65

6. Newid yn yr hinsawdd (lliniaru ac addasu) ... 79

7. Trafnidiaeth ... 97

8. Adnoddau naturiol (aer, tir, mwynau a gwastraff) ... 111

9. Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth ... 131

10. Amygylchedd hanesyddol ... 143

11. Y Dirwedd ... 154

12. Y camau nesaf ... 173

Appendix A Fframwaith ACI ... 174

# 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynir AECOM i arwain yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd Cyngor Bro Morgannwg. Mae'r ACI yn cyflawni'r gofynion a'r dyletswyddau ar gyfer Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG), Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI), Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (AEYG) a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD).

1.2 Mae'r ACI yn fecanwaith ar gyfer ystyried a chyfleu effeithiau tebygol cynllun sy'n datblygu, a dewisiadau amgen o ran materion cynaliadwyedd allweddol. Nod yr ACI yw llywio a dylanwadu ar y broses creu cynlluniau gyda'r nod o osgoi a lliniaru effeithiau negyddol a sicrhau'r effeithiau mwyaf cadarnhaol posib. Trwy'r dull hwn, mae'r ACI ar gyfer y CDLl newydd yn ceisio gwneud y mwyaf o gyfraniad y cynllun sy'n datblygu at ddatblygu cynaliadwy.

## Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg

1.3 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 - 2026 (CDLl) ar 28 Mehefin 2017 ac mae'n nodi fframwaith cynllunio'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir ym Mro Morgannwg o'r dyddiad hwnnw, hyd nes y caiff ei ddisodli. Yn unol â gofynion statudol, mae'r CDLl wedi'i fonitro'n flynyddol, a hyd yma cyhoeddwyd pum Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).[1]


1.4 Er mwyn sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) yn cael eu diweddaru, mae Adran 69 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cynllunio Lleol gynnal adolygiad llawn o CDLl o leiaf unwaith bob pedair blynedd ar ôl mabwysiadu'r cynllun.

1.5 Yn unol â hynny, ym mis Mehefin 2021 dechreuodd Cyngor Bro Morgannwg ar ei adolygiad ffurfiol o'r CDLl mabwysiedig, gyda'r Adroddiad Adolygu drafft ar gael i ymgynghori arno rhwng 5 Tachwedd 2021 a 31 Ionawr 2022. Roedd yr Adroddiad Adolygu'n ystyried effeithiolrwydd y CDLl mabwysiedig ac argymhellodd y dylid cynnal adolygiad llawn o'r CDLl.

1.6 Dechreuodd CDLlN Bro Morgannwg yn ffurfiol ar 4 Mai 2022 ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo Cytundeb Cyflawni'r CDLlN, sy'n cynnwys yr amserlen a Chynllun Cynnwys y Gymuned. Bydd y CDLl newydd yn nodi amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir o fewn yr awdurdod ar gyfer y cyfnod 2021 - 2036. Dangosir yr ardal a gwmpesir gan y CDLl newydd yn **Ffigur 1.1** drosodd.

[1] 3ydd Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026 Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (2021)

## Ffigur 1.1 Ardal weinyddol Cyngor Bro Morgannwg



# Eglurhad ar yr ACI

1.7 Mae'r ACI yn fecanwaith ar gyfer ystyried a chyfleu effeithiau tebygol cynllun sy'n datblygu, a dewisiadau amgen o ran materion cynaliadwyedd allweddol. Nod yr ACI yw llywio a dylanwadu ar y broses creu cynlluniau gyda'r nod o osgoi a lliniaru effeithiau negyddol a sicrhau'r effeithiau mwyaf cadarnhaol posib. Trwy'r dull hwn, mae'r ACI ar gyfer y CDLlN yn ceisio gwneud y mwyaf o gyfraniad y cynllun sy'n datblygu at ddatblygu cynaliadwy.

1.8 Fel y nodwyd uchod, mae'r ACI yn ceisio bodloni'r gofynion a'r dyletswyddau ar gyfer AC, AAS, AEC, AEI, AEYG a LlCD. Y dull yw integreiddio'r cydrannau hyn yn llawn er mwyn darparu un broses asesu i lywio datblygiad y CDLlN. Ceir disgrifiad o bob un o'r gwahanol gydrannau a'u dibenion isod.

## Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)

1.9 Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn cael ei gynnal i fynd i'r afael â'r gweithdrefnau a ragnodir gan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (y Rheoliadau AAS). Mae AC yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol o dan Adran 39 (2) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

1.10 Yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb AAS, y ddau gam allweddol mewn AC yw:

- Wrth benderfynu ar 'gwmpas a lefel manylder yr wybodaeth' y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr Adroddiad AC, ymgynghorir ag awdurdodau a ddynodwyd yn genedlaethol sy'n ymwneud â materion amgylcheddol; a
- Chyhoeddir adroddiad ('Adroddiad yr AC') ar gyfer ymgynghori ochr yn ochr â'r Cynllun Drafft sy'n cyflwyno asesiad o'r Cynllun Drafft (h.y. yn trafod 'effeithiau sylweddol tebygol' a fyddai'n deillio o weithredu'r cynllun) a dewisiadau amgen rhesymol.

1.11 Mae Llawlyfr y CDLl, Argraffiad 3 (2020) yn nodi bod AC, sy'n ymgorffori AAS, yn chwarae rhan bwysig wrth ddangos bod y CDLl yn gadarn trwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy ac y dylai fod yn elfen annatod ar bob cam o'r broses o lunio cynlluniau.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

1.12 Fel sefydliad sector cyhoeddus, mae dyletswydd ar Gyngor Bro Morgannwg o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC) cysylltiedig i sicrhau bod yr amcanion a'r opsiynau polisi o fewn y CDLlN yn osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol ac anuniongyrchol), yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai â nodweddion gwarchodedig a phob un arall.

1.13 Ym mis Mawrth 2021 daeth y Ddeddf Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym, sy'n ategu'r Ddeddf Cydraddoldeb a'r DCSC trwy gyfrannu ymhellach at nodau lles hirdymor Cymru, yn arbennig "Cymru fwy cyfartal" a "Cymru o gymunedau cydlynus". Cryfhau trefniadau partneriaethau cymdeithasol ymhellach a hyrwyddo uchelgeisiau gwaith teg.[2]

[2] Llywodraeth Cymru (2020): 'Cymru fwy cyfartal: papur gwyn cryfhau partneriaeth gymdeithasol', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy'r ddolen hon

1.14 Defnyddir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) yn aml gan sefydliadau'r sector cyhoeddus i ddangos sut mae'r ddyletswydd hon wedi'i chyflawni.

## Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI)

1.15 Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn cynnwys darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) i asesu effaith debygol y cynllun datblygu arfaethedig ar iechyd a lles meddyliol ac anghydraddoldeb. Mae'r broses AEI yn darparu fframwaith systematig ond hyblyg ac ymarferol y gellir ei ddefnyddio i ystyried effeithiau ehangach polisïau CDLl a sut y gallant hwy, yn eu tro, effeithio ar iechyd pobl.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (AEYG)

1.16 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r Gymraeg fel y gall ffynnu a thyfu ledled Cymru. Ym mhroses y cynllun datblygu mae'n rhaid ystyried y Gymraeg o'r dechrau'n deg. Mae'n ofyniad deddfwriaethol i'r AoG gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg (Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Adran 11).

1.17 Mae Polisi Cynllunio Cymru Fersiwn 11 (Chwefror 2021) yn pennu'r gofynion polisi ar gyfer y Gymraeg. Mae Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg yn rhoi arweiniad ar ystyried y Gymraeg fel rhan o broses y cynllun datblygu. Mae'r NCT yn rhoi cyngor ar ymgorffori'r Gymraeg mewn cynlluniau datblygu trwy'r AoG a'r ymagwedd bolisi at hap-ddatblygiadau a ragwelir. I grynhoi, rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried effeithiau tebygol eu cynlluniau datblygu fel rhan o broses yr AoG a chynnwys datganiad yn y Cynllun Adneuo am sut y cafodd hyn ei ystyried a/neu yr eir i'r afael ag ef yn y cynllun datblygu. Proses yr AoG yw'r mecanwaith ar gyfer ystyried sut mae maint a lleoliad twf, y weledigaeth, yr amcanion, y polisïau a'r cynigion yn unigol ac ar y cyd, yn effeithio ar y Gymraeg. Lle mae tystiolaeth yn dangos effaith andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg, gall yr ACLl asesu a ddylid diwygio'r strategaeth neu a ddylid nodi mesurau lliniaru.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.18 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru, gan adlewyrchu'r diffiniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLlCD).

1.19 "Mae datblygu cynaliadwy yn golygu'r broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau lles."

1.20 Mae DLlCD yn gosod saith nod lles y mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus eu cyflawni:

- Cymru lewyrchus.
- Cymru gydnerth.
- Cymru iachach.
- Cymru fwy cyfartal.

- Cymru o gymunedau cydlynus.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

1.21 Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi pum dull o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi'u cyflawni wrth ymgymryd â'u dyletswydd i sicrhau datblygu cynaliadwy. Y pum dull o weithio yw cyfranogiad, cydweithio, integreiddio, atal a ffactorau hirdymor. Gellir defnyddio'r nodau lles a'r pum ffordd o weithio i lywio a strwythuro fframwaith yr ACI (gweler Atodiad A).

1.22 Gan ychwanegu at hyn, mae Pennod 2.9 o Bolisi Cynllunio Cymru yn nodi mai'r *"ffordd fwyaf priodol o weithredu'r gofynion hyn drwy'r system gynllunio yw mabwysiadu dull creu lleoedd o lunio cynlluniau, polisi cynllunio a gwneud penderfyniadau"*.

1.23 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r egwyddorion cynllunio allweddol canlynol, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy a chreu lleoedd:

- Tyfu ein heconomi mewn modd cynaliadwy.
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau.
- Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach.
- Creu a chynnal cymunedau.
- Sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu cymaint â phosibl a chyfyngu ar effaith amgylcheddol.

## Ymagwedd at gwmpasu ar gyfer yr ACI

1.24 Mae datblygu'r cwmpas drafft wedi golygu'r camau canlynol:

- Archwilio'r cyd-destun polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer yr ACI, h.y. adolygu negeseuon lefel uchel (e.e. gan adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth yn benodol) gyda'r nod o gael dealltwriaeth o'r hyn y mae angen i'r ACI ganolbwyntio arno'n fras. Ystyrir bod dogfennau polisi cenedlaethol yn ymdrin yn ddigonol â chyd-destun polisi lefel uwch (rhyngwladol).
- Pennu'r llinell sylfaen ar gyfer yr ACI, h.y. y sefyllfa bresennol a'r sefyllfa bosibl yn yr ardal yn absenoldeb y CDLl newydd, er mwyn helpu i nodi effeithiau sylweddol tebygol y cynllun.
- Nodi problemau neu gyfleoedd penodol ('materion') a ddylai fod yn ffocws penodol i'r ACI; a
- Datblygu Fframwaith ACI sy'n cynnwys amcanion a chwestiynau asesu ar sail y materion hyn y gellir wedyn eu defnyddio i asesu'r CDLlN ac ystyried dewisiadau amgen.

## Strwythur yr adroddiad hwn

1.25 Mae canlyniadau'r elfennau cwmpasu a nodwyd uchod wedi'u cyflwyno dan gyfres o themâu ACI, fel a ganlyn:

- Economi a chyflogaeth.
- Poblogaeth a chymunedau.

- Iechyd a lles.
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Newid yn yr hinsawdd (lliniaru ac addasu).
- Cludiant a symudiad.
- Adnoddau naturiol (aer, tir, mwynau a dŵr).
- Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.
- Amgylchedd hanesyddol.
- Y dirwedd.

1.26 Mae'r themâu ACI a ddewiswyd yn ymgorffori'r 'pynciau AAS' a awgrymir gan Atodlen 2 i'r Rheoliadau AAS[3] yn ogystal ag integreiddio ystyriaethau AEG, AEI ac ystyriaethau'r Gymraeg yn llawn (gan gynnwys polisïau a strategaethau perthnasol y Cyngor), ac adlewyrchu'r saith nod lles a grybwyllir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1.27 Bwriedir cyflwyno'r wybodaeth gwmpasu o dan y themâu hyn er mwyn helpu i alluogi'r darllenwyr ddod o hyd i'r wybodaeth sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt yn hawdd. Unwaith y cytunir arno (h.y. yn dilyn yr ymgynghoriad presennol), bydd y cwmpas awgrymedig a gyflwynir o dan ddeg thema yn rhoi 'fframwaith' methodolegol ar gyfer asesu'r CDLl newydd drafft a dewisiadau amgen. Cyflwynir y drafodaeth am yr wybodaeth gwmpasu o dan bob thema ISA ym **Mhenodau 2 i 11**.

[3] Mae'r Rheoliadau AAS 'o natur weithdrefnol' (paragraff 9 o ragymadrodd y Gyfarwyddeb) ac nid ydynt yn bwriadu rhagnodi materion penodol a ddylai fod yn ffocws ac na ddylent fod yn ffocws, y tu hwnt i ofyn am ffocws ar *'yr amgylchedd, **gan gynnwys ar faterion fel** bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd pobl, planhigion, anifeiliaid, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol, tirwedd a'r gydberthynas rhwng y ffactorau uchod'* [ein pwyslais ni]

# 2. Economi a chyflogaeth

2.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar fusnesau lleol, mynediad i gyflogaeth, twristiaeth, addysg, a lefel sgiliau.

## Cyd-destun polisi

2.2 Mae **Tabl 2.1** yn cyflwyno'r dogfennau mwyaf perthnasol a nodwyd yn yr adolygiad polisi at ddibenion y CDLIN a'r ACI.


**Tabl2.1 Cynlluniau, polisïau a strategaethau a adolygir mewn perthynas â'r economi a chyflogaeth**

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn cyhoeddi |
|---|---|
| Deddf Cynllunio Cymru | 2015 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 2015 |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) | 2016 |
| Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol) | 2021 |
| Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) | 2021 |
| Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru | 2014 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 4: Manwerthu a Datblygu Masnachol | 2016 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 13: Twristiaeth | 1997 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 23: Datblygu Economaidd | 2014 |
| Adeiladu Lleoedd Gwell Llywodraeth Cymru | 2020 |
| Llywodraeth Cymru: Gweithio'n ddoethach: strategaeth gweithio o bell i Gymru. | 2022 |
| Creu Lleoedd: Canllaw i Greu Lleoedd Cymru 2020 | 2020 |
| Cynllun Strategaeth Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan 2018 tan 2021 | 2018 |
| Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Fargen Ddinesig | 2016 |
| Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd | 2017 |
| Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg | 2017 |

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn cyhoeddi |
|---|---|
| CCA Maes Awyr Caerdydd a Pharth Datblygu'r Porth | 2019 |
| Strategaeth Adfer yn sgil Coronafeirws Bro Morgannwg | 2020 |
| Strategaeth Twristiaeth Bro Morgannwg 2018 - 2020 | 2018 |
| Adroddiad STEAM Bro Morgannwg | 2021 |
| Asesiad Lles 2021 Bro Morgannwg - Adroddiad Addysg a'r Economi | 2021 |
| Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg | 2020 |

2.3 Crynhoir isod y negeseuon allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad:

- Bydd yn ofynnol i'r CDLlN gydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol, sy'n rhan o hierarchaeth y cynllun datblygu ac yn nodi'r fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir, gan ddarparu cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith/twf newydd.
- Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi 3 Ardal Dwf Genedlaethol lle nodir blaenoriaethau o ran tai, datblygu economaidd a buddsoddiadau. Mae'r ardaloedd twf hyn yn cwmpasu Wrecsam a Glannau Dyfrdwy (Gogledd Cymru), Bae Abertawe a Llanelli (Canolbarth a De-orllewin Cymru) a Chaerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd (De-ddwyrain Cymru). Yn ogystal â'r ardaloedd twf hyn, mae Cymru'r Dyfodol yn nodi polisïau datblygu cenedlaethol ar gyfer Cymru gyfan.
- Mae Bro Morgannwg yn dod o fewn Ardal Twf De-ddwyrain Cymru (gweler **Ffigur 2.1** isod) lle nodir bod Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd yn ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer twf. O fewn yr ardal dwf ehangach, mae'r ffocws ar dwf economaidd a thai strategol; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; trafnidiaeth a seilwaith digidol. Bydd penderfyniadau buddsoddi allweddol yn ceisio cefnogi lleoedd yn yr Ardal Dwf Genedlaethol a'r rhanbarth ehangach. Mae Polisi 36 (Metro De Cymru) yn nodi y dylai CDSau a CDLlau "*gynllunio twf ac adfywiad er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n deillio o gysylltedd rhanbarthol gwell, gan gynnwys nodi cyfleoedd ar gyfer dwysedd uwch, defnydd cymysg a datblygiadau di-geir o amgylch gorsafoedd metro newydd a gwell*".




**Ffigur 2.1 Cymru'r Dyfodol – Diagram Strategol Rhanbarth De-ddwyrain Cymru**

- Yn fwy penodol i Fro Morgannwg mae rôl Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan, heddiw ac yfory, ynghyd â Phorthladd y Barri, sydd i gyd wedi'u nodi yn Cymru'r Dyfodol: "*Mae Maes Awyr Caerdydd yn rhan hanfodol o seilwaith trafnidiaeth strategol Cymru. Mae'n borth rhyngwladol sy'n cysylltu Cymru â'r byd ac mae'n sbardun pwysig o fewn economi Cymru. Mae Maes Awyr Caerdydd wedi'i leoli yn Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan sy'n cynnig cyfleoedd i fuddsoddi yn y safle a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r Ardal Fenter yn cynnig amrywiaeth ehangach o safleoedd datblygu ac adeiladau busnes, gan gynnig cyfleoedd i ddatblygu cyfleusterau pwrpasol neu i fuddsoddi yn yr adeiladau cyfredol."* (Tudalen 82)
- "*Gwasanaethir y rhanbarth gan borthladdoedd yng Nghasnewydd, Caerdydd a'r Barri. Mae pob un yn chwarae rôl economaidd bwysig ac ar y cyd maent yn seilwaith allweddol yn y rhanbarth. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried rôl y porthladdoedd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol a sefydlu fframweithiau i gefnogi eu gweithrediad a'u hehangiad posibl.*" (Tudalen 173).
- Mae Cymru'r Dyfodol yn tynnu sylw at bwysigrwydd cysylltiad y rhanbarth â rhanbarthau Canolbarth Cymru a De-orllewin Lloegr a rhanbarth Gorllewin Lloegr. Bydd hybu hygyrchedd a chysylltiadau rhwng yr ardaloedd hyn, ar sail dealltwriaeth o'u rolau a'u swyddogaethau, yn sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn gweithredu fel cyfanwaith cydlynus ac nad ydynt yn cystadlu yn erbyn ei gilydd nac yn gwneud penderfyniadau strategol ar wahân.
- Mae polisi cynllunio cenedlaethol wedi'i nodi yn PCC, sy'n ceisio sicrhau bod penderfyniadau cynllunio yn cefnogi twf economaidd a chyflogaeth ynghyd ag ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol o fewn cyd-destun datblygu cynaliadwy.

- Ategir PCC gan NCTau ac NCTMau, sy'n troi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy i'r system gynllunio, fel y gall chwarae rhan briodol wrth symud tuag at gynaliadwyedd. Dylai'r CDLlN geisio:
  - Cydlynu datblygiad gyda darpariaeth seilwaith a chefnogi polisïau a strategaethau economaidd cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol;
  - Alinio swyddi a gwasanaethau gyda thai, lle bynnag y bo modd, i leihau'r angen am deithio, yn enwedig mewn car; a
  - Hyrwyddo'r defnydd o dir gwag heb ei ddefnyddio a ddatblygwyd yn y gorffennol.
- Mae Gweithio'n Ddoethach: Strategaeth Gweithio o Bell i Gymru gan Llywodraeth Cymru yn gosod ei chynlluniau i weithio gyda busnesau, undebau llafur a rhanddeiliaid allweddol i helpu mwy o gyflogwyr i fabwysiadu dull mwy ystwyth a hyblyg yn eu gweithle. Mae'r strategaeth yn gosod targed i 30 y cant o weithlu Cymru fod yn gweithio gartref neu'n agos ato erbyn 2026 ac yn esbonio sut mae'r llywodraeth yn bwriadu gwreiddio gweithio o bell ar gyfer y tymor hir yng ngweithleoedd Cymru. Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at gyfleoedd economaidd a buddion gweithio gartref ac o bell, gan gynnwys cynyddu cyfleoedd cyflogaeth yn enwedig mewn cymunedau gwledig a lled-wledig, gan ddarparu mynediad i gyflogwyr at weithlu ehangach a mwy amrywiol a'r potensial i gynyddu cynhyrchiant a lleihau absenoldebau oherwydd salwch.
- Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC) yn ceisio hyrwyddo twf cryf, cynaliadwy, a chytbwys trwy'r rhanbarth, 'Sbarduno Economi Cymru'. Nod y fargen yw annog buddsoddiad a chreu amgylchedd cyfle cyfartal o fewn y deg awdurdod lleol a phartneriaid allweddol eraill o fewn ei ffiniau. Dylai'r CDLlN nodi polisïau a chynigion ar gyfer hyrwyddo twf cynaliadwy o fewn yr ardal er budd ei phoblogaeth breswyl.
- Bydd BDdPRC yn helpu i roi hwb i dwf economaidd trwy wella cysylltiadau trafnidiaeth, gwella sgiliau, helpu pobl i gael swyddi a rhoi cymorth i fusnesau y mae ei angen arnynt i dyfu. Bydd hefyd yn sefydlu llywodraethu cryf ar draws y rhanbarth.
- Nod cyffredinol Strategaeth Dwristiaeth 2018-20 yw nodi amcanion twristiaeth strategol, ac wedyn nodi pob cam gweithredu wrth dargedu'r amcanion allweddol hynny, i wneud gwelliannau sylweddol i brofiad ymwelwyr ym Mro Morgannwg. Mabwysiadodd y Cyngor Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer Ardal Datblygu Maes Awyr a Phorth Caerdydd yn 2019 a fydd yn llywio datblygiadau ar y safle yn y dyfodol, yn unol ag amcanion twristiaeth (ac economaidd ehangach) strategol.
- Ym mis Medi 2020, cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Adfer yn sgil y Coronafeirws[4], sy'n nodi effeithiau cymdeithasol, economaidd a lles y pandemig ar gymunedau ac yn nodi ei flaenoriaethau a'i amcanion allweddol. O bwys i'r CDLlN, ac yn benodol i'r thema ACI hon, yw'r ffocws ar dwf economaidd, cyflogaeth a seilwaith gwyrdd. Mae hyn yn cefnogi Cynllun Corfforaethol y Fro 2020-2025; yn benodol bod amcanion yn cynnwys cefnogi 'poblogaeth fedrus sydd wedi cael addysg dda' a 'sicrhau bod unigolion a chymunedau yn gallu ffynnu a chyflawni eu gorau'.

[4]Cyngor Bro Morgannwg (2020): 'Strategaeth Adfer yn sgil y Coronafeirws' ar gael [ar-lein] i'w gweld trwy'r ddolen hon

# Crynodeb llinell sylfaen

## Y Cyd-destun rhanbarthol

2.4 Mae rhanbarth De-ddwyrain Lloegr yn cynnwys Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg, a dyma'r rhanbarth fwyaf poblog yng Nghymru, gyda dros 1.5 miliwn o drigolion. Y rhanbarth yw'r lleiaf o'r pedwar rhanbarth yn ôl arwynebedd ac mae'n cynnwys dinasoedd arfordirol Caerdydd a Chasnewydd a chyn gadarnleoedd diwydiannol cymoedd De Cymru.[5] Nodir bod Bro Morgannwg o fewn yr ardal dwf ehangach i'r rhanbarth er bod Caerdydd, Casnewydd, a'r Cymoedd wedi eu nodi'n ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer twf yn Cymru'r Dyfodol (Polisi 1).

2.5 Ystyrir bod Bro Morgannwg yn ardal gefnog a deniadol i fyw a gweithio ynddi. Gan elwa o'i hagosrwydd i Gaerdydd a'r rhanbarth ehangach, mae'r ardal yn gartref i 14,320 o fusnesau a diwydiannau. Mae gan y Fro hefyd gysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd da â gweddill Cymru a'r DU, fel y dangosir yn **Ffigur 8.1** drosodd, ac yr ymdrinnir â nhw ymhellach ym **Mhennod 7**.[6]

2.6 Rhaglen £1.2 biliwn a gytunwyd yn 2016 rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r deg awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru yw Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Ei nod yw creu twf economaidd sylweddol yn y rhanbarth trwy fuddsoddi, gwella sgiliau a chreu cysylltedd digidol a ffisegol gwell.[7] Yn benodol, bydd y system Metro newydd yn trawsnewid y ffordd mae pobl yn teithio o gwmpas Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Bydd yn creu gwasanaeth cyflymach, amlach a mwy cydlynol ar draws y rhanbarth trwy ddefnyddio trenau, bysus a rheilffyrdd bach.

2.7 Mae dadansoddiad o farchnad lafur Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a dynnwyd o adroddiad Gwybodaeth am y Farchnad Lafur gan Goleg Caerdydd a'r Fro yn rhagweld y ceir y twf mwyaf o ran swyddi yn y diwydiant Gwybodaeth a Chyfathrebu, gyda thwf o 25% yn 2018, ac yna Gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol ac Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota gyda thwf o 13% yr un.[8]

---

[5] Llywodraeth Cymru (2021): 'Diweddariad i Gymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy'r ddolen hon
[6] Cyngor Bro Morgannwg (2020): 'Buddsoddi ym Mro Morgannwg'
[7] Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru (2016) 'Bargen Ddinesig: Prifddinas-Ranbarth Caerdydd' ar gael [ar-lein] i'w weld trwy'r ddolen hon
[8] BGC Bro Morgannwg (2021): 'Asesiad Lles 2021 – Addysg a Chyflogaeth'

### Ffigur 2.2 Cysylltiadau economaidd Bro Morgannwg[9]




## Cyflogaeth bresennol (ardaloedd menter)

2.8 Mae gan Fro Morgannwg gynnig cyflogaeth sylweddol, gyda 900ha o safleoedd cyflogaeth presennol. Cyflogir y gyfran fwyaf o weithwyr ym Mro Morgannwg, sef 20% (8,000 o swyddi), yn y diwydiant Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol. Dilynir hyn gan Fasnach Cyfanwerthu a Manwerthu ar 12% (5,000 o swyddi), a gweithgareddau Gwasanaethau Addysg, Llety a Bwyd ar 10% (4,000 o swyddi) yr un.[10] Mae nifer y swyddi sydd ar gael ym Mro Morgannwg wedi aros yn gyson i raddau helaeth dros y 12 mlynedd diwethaf.

2.9 Mae **Ffigur 2.2** drosodd yn dangos lleoliad safleoedd cyflogaeth presennol yn y Fro, gan dynnu sylw'n benodol at '**Ardal Fenter**' y Fro.Dynodwyd Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan gan Lywodraeth Cymru yn 2013. Mae'n cynnwys tri pharth penodol: Maes Awyr Caerdydd, Parc Busnes Awyrofod Bro Tathan (Dwyrain a Gorllewin) a'r Tir i'r de o Heol y Porthladd a elwir yn Ardal Datblygu'r Porth. Nod yr ardal fenter yw datblygu ac ehangu'r sector awyrofod a chynnal a chadw sydd wedi datblygu yn y maes awyr a chanolfan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan a'r cyffiniau.

### Parc Busnes Awyrofod Bro Tathan

2.10 Mae gan Barc Busnes Awyrofod Bro Tathan y potensial datblygu ar gyfer hyd at 3 miliwn troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr cyflogaeth. Mae ganddo fynediad ar ochr yr awyr i gefnogi amrywiaeth o ddefnyddiau sifil neu filwrol gan gynnwys Cynnal a Chadw, Atgyweirio ac Ailwampio (CChAA), gweithgynhyrchu, ailwampio peiriannau, Profion Anninistriol (PA) ac Ymchwil a Datblygu. Mae'r

[9] Cyngor Bro Morgannwg (2020): 'Buddsoddi ym Mro Morgannwg'
[10] Cyngor Bro Morgannwg (2021): Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol 2011-2026

Parc Busnes Awyrofod eisoes yn gartref i brif feddiannwyr, gan gynnwys Aston Martin Lagonda, eCube Solutions a Caerdav.

2.11 Mae Ffordd Fynediad y Gogledd (FfFG) wedi'i chwblhau ac mae'n darparu mynediad uniongyrchol o ansawdd uchel i fusnesau newydd a phresennol ar y safle. Yn ogystal, er mwyn cefnogi'r datblygiad parhaus yn y Parc Busnes Awyrofod, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n paratoi brîff datblygu i lywio cynigion datblygu ar safle'r Porth.[11]

2.12 O ran cyfleoedd addysg, mae cysylltiadau hirsefydlog â phrifysgolion Cymru a darparwyr hyfforddiant awyrofod o'r radd flaenaf sy'n gweithredu'n gyfagos â'r maes awyr yn y Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Hyfforddiant Awyrofod (CRHA).

2.13 Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn archwilio gweithgareddau amgen a chyflenwol ar hyn o bryd yn y farchnad awyrennau ehangach ym maes cynnal a chadw, atgyweirio ac ailwampio (CChAA).

### Maes Awyr Caerdydd

2.14 Mae Maes Awyr Caerdydd, ym Mro Morgannwg, yn chwarae rhan bwysig fel porth rhyngwladol ac fel sbardun pwysig o fewn economi Cymru. Ers iddo gael ei gaffael gan Lywodraeth Cymru yn 2013, mae'r maes awyr wedi cynyddu nifer y teithwyr dros 65%.[12] Fodd bynnag, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn arbennig o heriol i Faes Awyr Caerdydd gyda 2 weithredwr yn gorffen masnachu, ynghyd â goblygiadau'r cyfyngiadau ar deithio oherwydd COVID-19. Roedd nifer y teithwyr yn 2020 ychydig o dan 220,000, gostyngiad o 87% ar 2019.[13] Dywedodd yr Awdurdod Hedfan Sifil mai dyma'r gostyngiad mwyaf mewn unrhyw faes awyr yn y DU. Mae cynlluniau uchelgeisiol ar y gweill i ddatblygu'r maes awyr dros yr 20 mlynedd nesaf, gydag uwchgynllunio dangosol yn cynnig terfynfa newydd.[14] Cyflwynir rhagor o wybodaeth ynglŷn â Maes Awyr Caerdydd ym **Mhennod 7**.

2.15 Mabwysiadodd y Cyngor Ganllaw Cynllunio Atodol (CCA) Maes Awyr Caerdydd ac Ardal Datblygu'r Porth yn 2019 a fydd yn llywio datblygiadau ar y safle yn y dyfodol.

### Tir i'r de o Heol y Porthladd (Ardal Datblygu'r Porth)

2.16 Mae'r safle hwn yn safle strategol o ran cyflogaeth a thrafnidiaeth, gyda seilwaith trafnidiaeth newydd a chyfleoedd cyflogaeth wedi'u nodi, gan fanteisio ar bwysigrwydd strategol a rhanbarthol y Maes Awyr o ran denu mewnfuddsoddiad a chreu swyddi.

2.17 Dilëwyd cais cynllunio amlinellol (2019/00871/OUT) mewn perthynas â'r tir cyflogaeth a ddyrannwyd i'r de o Heol y Porthladd sy'n cwmpasu 44.75 hectar o faes busnes B1, B2 a B8, lle parcio cysylltiedig, seilwaith draenio, darpariaeth bioamrywiaeth a gwaith ategol ynghyd ag estyniad i'r parc gwledig yn yr Uchel Lys ym mis Hydref 2021. Mae cais wedi'i ailgyflwyno yn cael ei ystyried gan y cyngor ar hyn o bryd o dan yr un rhif cais.

2.18 Ar hyn o bryd, mae 'cyfarwyddyd dal' gan Lywodraeth Cymru ar Fferm Model sy'n atal y Cyngor rhag cyhoeddi penderfyniad ar y safle. Fodd bynnag, ar ôl i'r

---

[11] Llywodraeth Cymru (2020): 'Brîff Datblygu Bro Tathan', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy'r ddolen hon
[12] Cyngor Bro Morgannwg (2021): 3ydd Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol 2011-2026
[13] Ibid.
[14] Maes Awyr Caerdydd (2021): 'Ein Maes Awyr 2040 - Uwchgynllun' ar gael [ar-lein] i'w weld trwy'r ddolen hon

Cyngor orffen ei broses asesu, bydd y Llywodraeth yn gwneud penderfyniad o ran a ddylid galw'r safle i mewn ai peidio.

## Safleoedd cyflogaeth presennol

2.19 Mae **Tabl 2.2** drosodd yn rhestru'r safleoedd cyflogaeth presennol ym Mro Morgannwg, sydd hefyd i'w gweld yn ofodol ar **Ffigur 2.2** drosodd. Y tu allan i'r ardaloedd menter, y Cyfadeilad Cemegol yw'r lleoliad cyflogaeth mwyaf (o ran ha), gyda Dociau'r Barri yn ail.

2.20 Mae Maes Cyflogaeth Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn dangos, er bod cyfleoedd cyflogaeth fel arfer yn gryf ym Mro Morgannwg, fod rhai ardaloedd – yn fwyaf nodedig yn Nwyrain y Barri – lle nad yw'r cyfleoedd cyflogaeth hyn mor gryf neu lle mae pobl yn ei chael hi'n anodd manteisio ar y cyfleoedd cyflogaeth hyn.[15]


### Tabl 2.2 Safleoedd cyflogaeth Bro Morgannwg

| Safle cyflogaeth | Maint (ha) |
|---|---|
| Y Weinyddiaeth Amddiffyn, Sain Tathan | 331.0 |
| Maes Awyr Caerdydd, Y Rhws | 209.9 |
| Y Cyfadeilad Cemegol, Y Barri | 119.4 |
| Dociau’r Barri, Y Barri, | 76.2 |
| Gorsaf Bŵer Aberddawan, Gorllewin Aberddawan | 44.6 |
| Parc Busnes Cyffordd y Fro, Llandŵ | 23.6 |
| Gwaith Sment Aberddawan, Dwyrain Aberddawan | 16.5 |
| Ystâd Fasnachu’r Iwerydd, Y Barri | 14.8 |
| Renishaw, Tir i'r de o Gyffordd 34, M4 | 11.9 |
| Ystâd Fasnachu Llandŵ, Llandŵ | 11.5 |
| Uned 6, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Verlon, Y Barri | 11.4 |
| Parc Busnes Dyffryn, Llandŵ | 6.7 |
| Ystâd Fasnachu Llandochau, Llandochau (Penarth) | 5.3 |
| Ystâd Ddiwydiannol West Point, Llandochau (Penarth) | 5.2 |
| Ystâd Fasnachu Llandŵ (De), Llandŵ | 4.3 |
| Parc Busnes Heol Caerdydd, Y Barri | 3.3 |
| Ystâd Ddiwydiannol Sully Moors, Y Barri | 3.1 |

[15]Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (2021): 3ydd Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol 2011-2026

| Safle cyflogaeth | Maint (ha) |
|---|---|
| Ystâd Fasnachu Palmerston, Y Barri | 2.2 |
| Canolfan Fenter y Fro, Y Barri | 1.8 |
| Parc Busnes Treftadaeth, Llanilltud Fawr | 1.7 |
| Parc Busnes Saint Hilari, Croes Cwrlwys | 1.2 |
| Parc Busnes y Maes Awyr, Y Rhws | 1.1 |
| Ystâd Ddiwydiannol West Winds, Fferm Goch | 0.5 |

## Ffigur 2.3 Safleoedd cyflogaeth ac ardaloedd menter Bro Morgannwg




## Cyfraddau cyflogaeth:

2.21 Caiff prif amcangyfrifon y Trosolwg o'r Farchnad Lafur (TFL) eu cyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Fel y dangosir yn **Ffigur 2.3** isod, mae'r TFL diweddaraf yn dangos mai'r gyfradd cyflogaeth yng Nghymru oedd 74.1% o'r rhai rhwng 16-64 oed rhwng Ionawr a Mawrth 2022. O gymharu â hyn, cyfradd cyflogaeth y DU oedd 75.7% yn ystod yr un cyfnod.

2.22 Mae **Ffigur 2.3** yn dangos bod cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru wedi gostwng ers 2018, gyda gostyngiad sylweddol yn 2020, sy'n debygol o fod o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Fodd bynnag, mae ffigurau ar gyfer 2022 yn dangos cynnydd ers 2020, sy'n cyfateb i'r duedd gyffredinol a welwyd ar gyfer y DU yn gyffredinol.

**Ffigur 2.4 Cyfradd Cyflogaeth (canran y boblogaeth 16-64 oed)[16]**





2.23 Er nad oes modd cymharu data economaidd cyfunol yr SYG a baratowyd gan 'nomis' yn uniongyrchol â data'r Arolwg Llafurlu yn y bwletinau ystadegol, mae'r data diweddaraf ar gyfer Bro Morgannwg (Ionawr 2020 – Rhagfyr 2020) yn dangos gostyngiad graddol mewn cyfraddau cyflogaeth gyda 77% (60,900) o boblogaeth Bro Morgannwg yn cael ei nodi'n economaidd weithgar sy'n cymharu'n ffafriol â ffigur Cymru gyfan, sef 75.7%.[17]

2.24 O ran diweithdra, mae **Ffigur 2.4** drosodd yn dangos cyfradd diweithdra fesul rhanbarth economaidd o'i gymharu â'r gyfradd gyffredinol ar gyfer Cymru. Cyn diwedd 2019, roedd y gyfradd diweithdra yn parhau'n gyson uwch yn Ne-ddwyrain Cymru na'r rhanbarthau eraill. Yn 2021, bu cynnydd yn y gyfradd diweithdra ym mhob un o'r tri rhanbarth economaidd yng Nghymru o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol, er mai De-ddwyrain Cymru oedd â'r cynnydd lleiaf, gan godi 7.4%. Hefyd yn 2021, roedd gan Ganolbarth a De-orllewin Cymru gyfradd diweithdra uwch na De-ddwyrain Cymru, ac mae Gogledd Cymru'n cynnal y gyfradd diweithdra isaf. Y duedd gyffredinol ar gyfer Cymru a'r tri rhanbarth economaidd yw gostyngiad mewn diweithdra dros y pedair blynedd diwethaf.

[16] Llywodraeth Cymru (2022): 'Trosolwg o'r Farchnad Lafur: Mai 2022', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy'r ddolen hon
[17] 3ydd Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol 2011-2026 Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (2021)

**Ffigur 2.5 Cyfradd diweithdra fesul Rhanbarth Economaidd (canran y boblogaeth economaidd anweithgar)[18]**




2.25 Fel gyda chyfraddau cyflogaeth, mae canran y bobl sy'n economaidd anweithgar ym Mro Morgannwg yn adlewyrchu'r sefyllfa genedlaethol ddirywiol. Mae data Nomis yn dangos bod 5.4% ym mis Mawrth 2021 (4,310 o bobl) ym Mro Morgannwg yn ddi-waith, o'i chymharu â chyfartaledd Cymru, sef 5.9%, a chyfartaledd y DU, sef 6.5%.[19]

2.26 Mae canran y bobl sy'n hunangyflogedig ym Mro Morgannwg wedi amrywio dros y 15 mlynedd diwethaf, gyda chwympiadau sylweddol yn dilyn y dirwasgiad a ddechreuodd yn 2007. Ym mis Rhagfyr 2020, roedd canran y bobl a oedd yn hunangyflogedig ym Mro Morgannwg yn 8.4%, yn is na chyfartaledd Cymru, sef 9.3%, a chyfartaledd gwledydd Prydain, sef 9.9%.[20]

### Covid-19

2.27 Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod pandemig Covid-19 wedi effeithio ar 42% o economi'r DU. Er bod effaith economaidd y pandemig wedi taro pobl ar draws y DU, mae ymchwil wedi dangos bod y sioc yn y farchnad lafur sy'n gysylltiedig â'r pandemig wedi cael eu teimlo'n fwy gan bobl ifanc a'r rhai â'r cyflogau isaf. Mae pum ACEHI yn y Fro yn y 10% o'r ACEHI mwyaf difreintiedig (sgôr o 191 neu lai) yng Nghymru yn ôl Maes Incwm; mae pob un yn y Barri.[21] Ymdrinnir â lefelau amddifadedd ar draws y Fro ymhellach ym **Mhennod 5**.

2.28 Yn ystod y pandemig, bu gostyngiad o 1.8% yn y gyfradd cyflogaeth o fewn tri mis ym Mro Morgannwg (mis Mawrth 2020 o fis Rhagfyr 2019). Er bod y pandemig wedi effeithio ar bob sector diwydiant, mae'r Sector Gwasanaeth, yn enwedig gwasanaethau 'sy'n wynebu cwsmeriaid' fel gweithgareddau Gwasanaethau Llety a Bwyd, wedi dioddef yn benodol.[22]

2.29 Yn ôl StatsCymru, bu cynnydd mawr yn y gyfradd sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru ers Chwefror 2020. Er na fydd pawb sy'n hawlio'r budd-daliadau

[18]Llywodraeth Cymru (2022): 'Trosolwg o'r Farchnad Lafur: Mai 2022', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy'r ddolen hon
[19] Ibid.
[20] Ibid.
[21] BGC Bro Morgannwg (2021): 'Asesiad Lles 2021 – Addysg a Chyflogaeth'
[22] Ibid.

hyn yn ddi-waith, cafwyd cynnydd o 87.7% yn nifer y bobl a oedd yn hawlio Credyd Cynhwysol ddechrau mis Mawrth 2021 o'i chymharu â mis Chwefror 2020.[23]

### Band eang

2.30 Fel y gwelwyd gan brofiadau yn ystod y pandemig, mae argaeledd a mynediad i ddarpariaeth dda ar y rhyngrwyd wedi dod yn fwyfwy pwysig i'n bywydau pob dydd. Y defnydd ar seilwaith band eang cyflym ym Mro Morgannwg yw'r uchaf yng Nghymru.[24]

2.31 Ar anterth y pandemig, amcangyfrifwyd bod cymaint â 40% o bobl yn gweithio gartref.[25] Mae data o MALIC 2019 yn rhoi cipolwg ar ansawdd argaeledd band eang ledled Bro Morgannwg. Mae ACEHI mewn trefi fel y Barri, Penarth a'r Bont-faen yn dangos argaeledd uchel i fand eang ar 30mbs ac mae ACEHI mewn ardaloedd mwy gwledig yn dangos argaeledd gwaeth. Amcangyfrifir na all 27% o gartrefi yn y Rhws, sef 3 yng ngorllewin y Fro, dderbyn band eang ar 30mbs, ac amcangyfrifir na all 25% o gartrefi yn Sili, 2 yn nwyrain y Fro, gael band eang ar y cyflymderau hyn. Mae cyngor Bro Morgannwg yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru trwy'r ‘Gronfa Band Eang Lleol’ i wella mynediad i'r rhyngrwyd mewn rhai ardaloedd lle mae seilwaith yn fwy anodd ei osod.

## Addysg

2.32 Mae'r Fro yn cynnig mynediad i amrywiaeth o gyfleusterau addysg, gan adlewyrchu natur amrywiol yr awdurdod. Gwelir ysgolion Cynradd mynediad deuol mwy mewn ardaloedd mwy trefol ac mae ysgolion cymharol fach yn aml wedi'u lleoli mewn ardaloedd mwy gwledig (gweler **Ffigur 2.5** drosodd). Yn bennaf mae ysgolion uwchradd mewn trefi mawr, ac mae un ysgol ganol cyfrwng Cymraeg (3-19 oed) yn y Barri. Mae un Ysgol Arbennig a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol sydd ym Mhenarth.

2.33 Mae 3 ysgol Annibynnol ym Mro Morgannwg, gan gynnwys Coleg Iwerydd yr UWC yn Sain Dunwyd. Mae un sefydliad addysg bellach yn y sir, sef Coleg Caerdydd a'r Fro, gyda champysau yn y Barri ac Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan.

2.34 Mae lleoliad ysgolion yn y Fro a'r cyffiniau yn cael eu dangos drosodd yn **Ffigur 2.5**. Mae ysgolion wedi’u lleoli ger canolfannau trefol y Fro, gyda llai o ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Mae gan drigolion Bro Morgannwg fynediad rhesymol i ysgolion hefyd yn ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos. Mae **Ffigur 2.5** yn dangos toreth o ysgolion ym Mhen-y-bont i orllewin y Fro, a Chaerdydd i'r dwyrain. O gymharu â hyn, ychydig iawn o ysgolion sydd yn Rhondda Cynon Taf i'r gogledd.


2.35 Yn benodol, yn y Fro, mae darpariaeth ysgolion yn cynnwys:

- 2 Ysgol Feithrin a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol
- 44 o Ysgolion Cynradd a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol (38 Cyfrwng Saesneg / 6 Cyfrwng Cymraeg)

[23] 3ydd Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol 2011-2026 Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (2021)
[24] 3ydd Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol 2011-2026 Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (2021)
[25] Ibid.

- 1 Ysgol ganol Gymraeg a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol (3-19 oed)
- 7 Ysgol Uwchradd a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol; a
- 1 Ysgol Arbennig a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol

## Ffigur 2.6 Ysgolion o fewn Bro Morgannwg a'r cyffiniau



2.36 O ran addysg bellach, mae sawl sefydliad o fewn awr o yrru i'r Fro fel a ganlyn:

- Prifysgolion:
  - Prifysgol Caerdydd
  - Prifysgol Metropolitan Caerdydd
  - Prifysgol Abertawe
  - Prifysgol De Cymru
- Colegau:
  - Coleg Pen-y-bont
  - Coleg Caerdydd a’r Fro
  - Coleg y Cymoedd
  - Coleg Gwyr Abertawe
  - Coleg Castell-nedd Port Talbot
  - Coleg yr Iwerydd, Sain Dunwyd

2.37 Mae prif ganfyddiadau perthnasol yn Asesiad Lles Bro Morgannwg (2021) yn cynnwys:

- Mae gan Fro Morgannwg un o'r lefelau uchaf o bobl sydd â chymwysterau NVQ lefel 4 ac uwch yng Nghymru; er bod gwahaniaethau'n bodoli ar draws Bro Morgannwg gydag ACEHI yn y Barri yn cofnodi cyfran uwch o bobl 16-64 oed heb unrhyw gymwysterau na’r ACEHI yn Nwyrain a Gorllewin y Fro.
- Ar draws pob blwyddyn o brentisiaethau a ddechreuwyd, mae'r rhan fwyaf o brentisiaethau wedi bod yn y Sector Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus, gydag Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Rheolaeth a Phroffesiynol y sectorau mwyaf eu maint nesaf.
- Mae rhaniad amlwg mewn prentisiaethau a ddechreuwyd yn ôl rhyw a sector. Menywod sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o Brentisiaethau Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol a ddechreuwyd ym Mro Morgannwg. Ar gyfer gwrywod, mae'r sectorau sydd â'r nifer mwyaf o brentisiaethau a ddechreuwyd yn cynnwys sectorau Peirianneg, Adeiladu, Rheoli a Phroffesiynol.
- Roedd gan 17% o gyflogwyr yn Ne-ddwyrain Cymru brentisiaethau neu roeddent yn cynnig prentisiaethau. O'r cyflogwyr hyn a oedd yn cynnig prentisiaethau, roedd 72% a oedd wedi recriwtio pobl yn benodol fel prentisiaid yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi cadw o leiaf un o'u prentisiaid ar ôl i'w prentisiaeth ddod i ben.

## Manwerthu

2.38 Mae'r sector manwerthu cenedlaethol yn parhau i brofi cyfnod anodd. Mae llawer o fanwerthwyr adnabyddus ar y stryd fawr wedi mynd i ddwylo gweinyddwyr ac mae llawer o rai eraill wedi lleihau eu presenoldeb ar y stryd fawr a newid eu pwyslais i ffafrio llwyfannau gwerthu digidol. Wedi hynny, bu gostyngiad parhaus mewn arwynebedd llawr manwerthu o fewn canol trefi ac ardaloedd yr awdurdod sy'n ostyngiad o 5.05% ers 2017.

2.39 Mae **Tabl 2.3** drosodd yn dangos y duedd gyffredinol a welwyd o gyfraddau unedau gwag cynyddol, yn enwedig yng nghanol trefi'r Fro. Yn benodol, mae cyfraddau unedau gwag yn y Barri a Llanilltud Fawr wedi gostwng ers 2011, ond mae cyfraddau ym Mhenarth a'r Bont-faen wedi cynyddu. Mae **Tabl 2.3** yn dangos y cofnodwyd y gyfradd unedau gwag gyfartalog uchaf ym Mro Morgannwg yn 2020. Cynhaliwyd yr arolwg ar gyfer y cyfnod hwn ym mis Awst 2020 yn ystod cyfnod clo Covid-19 a gafodd effaith andwyol ar fywiogrwydd ac apêl canolfannau manwerthu. Fodd bynnag, yn yr arolwg manwerthu diweddaraf a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2021, mae cyfraddau unedau gwag ym mhob canolfan wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol gan leihau'r gyfradd unedau gwag gyfartalog i 6.96%.

2.40 Mae cyfraddau unedau gwag cyffredinol ar gyfer y Fro wedi gostwng rhywfaint ers 2011, er bod cyfraddau unedau gwag cyffredinol yng Nghymru a'r DU wedi cynyddu.

2.41 Yn ogystal, mae **Tabl 2.3** yn dangos bod cyfradd unedau gwag y DU wedi codi i 14.1% yn 2021, gyda'r gyfradd unedau gwag yng Nghymru yn 19.2% (1 o bob 7 siop yn wag yng Nghymru). O gymharu â hyn, mae data unedau gwag Bro Morgannwg yn dangos bod y canolfannau manwerthu ym Mro Morgannwg wedi dechrau gwella o effaith y cyfyngiadau cyfnod clo yng Nghymru.

2.42 Fodd bynnag, bu cynnydd mewn arwynebedd llawr masnachol arall megis hamdden a swyddfeydd, gyda chanolfannau manwerthu tref ac ardal yn arallgyfeirio o'r defnyddiau manwerthu A1 traddodiadol, yn rhannol fel ymateb i newid mewn arferion siopa. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i bolisi cynllunio cenedlaethol sydd hefyd yn hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol fel hybiau ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd a'r canolbwynt ar gyfer ystod amrywiol o wasanaethau sy'n cefnogi anghenion cymunedau lleol.

### Tabl 2.3 Cyfraddau unedau gwag ym Mro Morgannwg[26]

| Blwyddyn | Cyfraddau unedau gwag cyfartalog: Y Stryd Fawr, Y Barri | Heol Holltwn, Y Barri | Canol Tref y Bont-faen | Canol Tref Llanilltud Fawr | Canol Tref Penarth | **Canol Trefi Bro Morgannwg** | **Cymru** | **DU** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2012 | 12.3% | 15.8% | 3% | 5% | 1% | **7.4%** | **18%** | **14.6%** |
| 2013 | 17.5% | 8.7% | 2.8% | 4.9% | 1.6% | **7.1%** | **17%** | **11.9%** |
| 2014 | 10.3% | 12.5% | 8.3% | 9.2% | 5.8% | **9.2%** | **17.9%** | **10.3%** |
| 2015 | 10.9% | 7.6% | 7.8% | 3.9% | 5.3% | **7.1%** | **15.5%** | **13.3%** |
| 2016 | 9.7% | 8% | 10.8% | 5.8% | 3.5% | **7.6%** | **12.1%** | **9.5%** |
| 2017 | 8.8% | 14% | 8.3% | 9% | 4% | **8.8%** | **12.5%** | **9.4%** |
| 2018 | 10.4% | 13.9% | 12.90% | 4% | 5.17% | **9.27%** | **15.4%** | **8.9%** |
| 2019 | 4.8% | 17.65% | 11.96% | 7.92% | 5.14% | **9.49%** | **13.4%** | **10.3%** |
| 2020 | 7.3% | 16.04% | 17.3% | 3.96% | 3.43% | **9.61%** | **15.9%** | **12.2%** |
| 2021 | 4% | 13.98% | 11.6% | 2.97% | 2.25% | **6.96%** | **19.2%** | **14.1%** |

[26] Data monitro manwerthu Bro Morgannwg 2011 - 2021

## Twristiaeth

2.43 Wedi'i leoli yn ardal fwyaf poblog Cymru ac yn agos at Gaerdydd, mae Bro Morgannwg mewn lle da o ran ei dalgylch i ymwelwyr dydd ac yn ganolbwynt i ymwelwyr sydd am grwydro De Cymru.

2.44 Mae gan y Fro amrywiaeth o atyniadau i dwristiaid sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol i wella lles economaidd yr ardal. Mae hyn yn cynnwys Arfordir Treftadaeth Morgannwg, Llwybr Arfordir Cymru a chyrchfannau glan môr hirsefydlog; cefn gwlad a pharciau gwledig deniadol; nodweddion hanesyddol unigryw; nifer o weithgareddau awyr agored; a rhwydwaith llwybrau cerdded hirsefydlog.

2.45 Cydnabyddir glan môr Ynys y Barri a Bae Whitmore fel un o'r prif gyrchfannau i dwristiaid ym Mro Morgannwg. Mae'r gyrchfan yn adnabyddus ledled Cymoedd De Cymru, De-orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr y mae cyfran uchel o ymwelwyr wedi dod ohonynt yn y gorffennol. Mae prif atyniadau'r gyrchfan yn cynnwys y traeth, Parc Pleser Ynys y Barri, atyniadau llai eraill a nifer o beiriannau chwarae, caffis a bariau. Er ei bod wedi gorfod wynebu newidiadau mawr yn y farchnad a galwadau bythol gynyddol, mae'r ardal yn dal i ddenu amcangyfrif o 424,000 o ymwelwyr sydd â gwerth o £17m i'r economi.[27]

2.46 Mae cyfraniad economaidd y sector twristiaeth wedi bod yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ym Mro Morgannwg; fodd bynnag, yn 2020 mae data'n awgrymu bod effaith economaidd y sector wedi gostwng 45.1% (gweler **Ffigur 2.6**). Amcangyfrifir bod hyn wedi arwain at ostyngiad o 45.3% yn nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gyflogir yn y sector. Mae hefyd yn dangos bod cyfanswm yr ymwelwyr dydd wedi gostwng 68% rhwng 2019 a 2020 (colled fras o 1.89 miliwn o ymwelwyr).[28] Mae'r duedd negyddol sylweddol eang hon a welwyd yn 2020 o 2019 wedi'i phriodoli i bandemig y coronafeirws a chau busnesau a chyfnodau clo ysbeidiol wedyn.[29]

2.47 Fel y dangosir yn **Ffigur 2.6**, ar gyfer yr holl ddangosyddion, nid yw data ar gyfer 2020 yn adlewyrchu tueddiadau o'r blynyddoedd blaenorol, a oedd yn dangos cynnydd parhaus yn nifer yr ymwelwyr, diwrnodau ymwelwyr, cyflogaeth ac effaith economaidd gyffredinol o 2013 tan 2019. Wrth i'r Fro adfer ar ôl y pandemig, ystyrir y bydd tueddiadau'n cynyddu i'r pwynt lle maent yn cyfateb i'r twf a gafwyd cyn y pandemig ac yn rhagori arno.

[27] STEAM (2019)
[28] Cathy James (2021) Global Tourism Solutions (DU) Ltd Tueddiadau STEAM Bro Morgannwg
[29] Cathy James (2021) Global Tourism Solutions (DU) Ltd Tueddiadau STEAM Bro Morgannwg

### Ffigur 2. 7 dangosyddion twristiaeth Bro Morgannwg (newid canran 2009 i 2020) [30]

| Newid % ers 2009 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Effaith Economaidd – Prisiau Hanesyddol | | 6.7% | 0.0% | 1.1% | 15.6% | 22.4% | 29.6% | 30.7% | 42.1% | 52.2% | 62.2% | -45.1% |
| Nifer yr Ymwelwyr | | 2.3% | -13.0% | -15.1% | -2.6% | -0.3% | 5.3% | 5.5% | 10.8% | 13.6% | 15.1% | -63.5% |
| Diwrnodau Ymweld | | 2.1% | -9.2% | -10.6% | -1.3% | 0.8% | 5.8% | 5.8% | 10.9% | 13.7% | 15.8% | -63.0% |
| Cyfanswm mewn Cyflogaeth | | 2.3% | -8.6% | -8.8% | -0.7% | -5.8% | -0.4% | -0.4% | 2.2% | 2.3% | 7.9% | -45.3% |

### Adfywio'r Barri

2.48 Mae tref y Barri'n parhau i gael ei thrawsnewid trwy brosiectau adnewyddu mawr mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg. Mae adeiladau hanesyddol pwysig yn cael eu hadnewyddu at ddefnydd masnachol llwyddiannus, ynghyd â buddsoddiad newydd yn ardaloedd glan môr a glan dŵr y dref.[31]

2.49 Mae'r gwaith cynhwysfawr o adfywio'r safle 100 erw ar y glannau wedi creu cyswllt ffordd newydd ag Ynys y Barri, gan gysylltu'r lle twristiaeth poblogaidd hwn â'r datblygiad. Hyd yma, mae adfywio'r glannau wedi cynnwys datblygu tua 1600 o gartrefi newydd ynghyd â buddsoddiad preifat mewn gwesty newydd a mentrau hamdden manwerthu a masnachol.[32] Amaethyddiaeth

2.50 Yn ogystal â bod o bwys economaidd yng Nghymru, mae'r sector Amaethyddiaeth a Bwyd hefyd o bwys diwylliannol; mae hyn yn arbennig o wir ym Mro Morgannwg. Rhagwelir y gallai ffermio defaid, sydd ynghyd â ffermio gwartheg yn brif ddull ffermio ym Mro Morgannwg, ddod yn llai hyfyw yn economaidd oherwydd y newidiadau o ran mynediad i'r farchnad a chyfyngiadau ar gyllid cyhoeddus.[33]

2.51 Yn 2019, roedd 700 o bobl ym Mro Morgannwg wedi'u cyflogi yn y sector amaeth, coedwigaeth a physgota. Dim ond 1.6% o'r boblogaeth waith (42,800 o bobl) yw hyn[34].

## Llinell sylfaen y dyfodol

2.52 Mae rhai sectorau yn fwy agored i effeithiau diweithdra yn y Fro, gan gynnwys y sectorau gweithgynhyrchu a gwasanaethu. Mae rhagfynegiadau cyffredinol ar gyfer 2040 yn dangos y bydd cyfraddau cyflogaeth yn yr awdurdod yn gostwng tua 6%. Mae gan hyn y potensial i gael ei waethygu gan seilwaith sydd wedi'i gysylltu'n wael â chanolfannau gwasanaethau allweddol ac sy'n methu â chynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth yn gyffredinol.

[30] Cathy James (2021): 'Global Tourism Solutions (UK) Ltd Tueddiadau STEAM Bro Morgannwg'
[31] Cyngor Bro Morgannwg (2020): 'Buddsoddi ym Mro Morgannwg'
[32] Ibid.
[33] BGC Bro Morgannwg (2021): 'Asesiad Lles 2021 – Addysg a Chyflogaeth'
[34] Llywodraeth Cymru (2019): 'Cyflogaeth yn y gweithle gan ardaloedd lleol Cymru a diwydiant eang', [ar-lein] ar gael i'w weld trwy'r ddolen hon

2.53 Er bod nifer y swyddi sydd ar gael ym Mro Morgannwg wedi aros yn gyson i raddau helaeth dros y degawd diwethaf, mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar yr angen am dir a safleoedd cyflogaeth. Mae canolfannau manwerthu tref ac ardal yn arallgyfeirio o'r defnyddiau manwerthu A1 traddodiadol, yn rhannol fel ymateb i newid mewn arferion siopa. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i bolisi cynllunio cenedlaethol sydd hefyd yn hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol fel hybiau ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd a'r canolbwynt ar gyfer ystod amrywiol o wasanaethau sy'n cefnogi anghenion cymunedau lleol. Mae'r cynnydd mewn defnydd nad yw’n ymwneud â manwerthu ym mhob canolfan fanwerthu yn adlewyrchu eu rôl sy'n newid yn genedlaethol ac yn debygol o fod yn duedd barhaus.

2.54 Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru ar gyfer annog parhau i weithio gartref a gweithio o bell ar ôl y pandemig yn rhoi cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth mewn lleoliadau gwledig a lled-wledig a'r galw cynyddol posibl am fannau gwaith hyblyg mewn aneddiadau trefol.

2.55 Yn strategol, bydd Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan yn helpu i sicrhau twf economaidd sylweddol sy'n gysylltiedig â’r diwydiant hedfanaeth, nid yn unig ym Mro Morgannwg ond hefyd ym Mhrifddinas-Ranbarth ehangach Caerdydd. Mae Bargen Ddinesig yn creu cyfleoedd sylweddol i wella lles economaidd ar draws y rhanbarth. Mae gan ddatblygiad Metro De Cymru yn benodol (yr ymdrinnir ag ef ym **Mhennod 6**) y potensial i ddod â newidiadau eang i'r economi leol a rhanbarthol y gellid eu gwireddu dros amserlen gymharol fyr. Asedau’r rhanbarth yw ei gysylltiadau â rhanbarthau Canolbarth Cymru a De-orllewin Lloegr a rhanbarth Gorllewin Lloegr.

## Prif faterion

2.56 Roedd yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth sylfaenol yn llywio’r broses o nodi sawl mater allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Mae lleoliad y Fro ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ei alluogi i fanteisio ar raglen fuddsoddi o £1.2 biliwn, gan gynnwys darparu Metro De Cymru a fydd yn gwella cysylltedd ledled y rhanbarth.
- Mae Bro Morgannwg wedi'i nodi yn Ardal Dwf De-ddwyrain Cymru, a bydd angen i dwf yn y dyfodol ystyried sut mae anghenion y gymuned yn cyd-fynd ag amcanion datblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd.
- Mae'r gyfradd gyflogaeth ym Mro Morgannwg wedi bod yn gyson uwch na chyfradd cyflogaeth Cymru, ac yn gyffredinol yn unol â chyfradd cyflogaeth gwledydd Prydain. Fodd bynnag, ceir lefelau uchel o ddiweithdra yn y fwrdeistref sirol, yn ogystal â lefelau isel o incwm ac amddifadedd addysgol, yn enwedig mewn rhai ardaloedd yn y Barri.
- Mae Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan yn cynnwys 550 ha o le cyflogaeth.  Bydd datblygu / ehangu'r ardaloedd hyn yn y dyfodol yn sicrhau twf economaidd sylweddol mewn perthynas â’r diwydiant hedfanaeth ledled y rhanbarth, ac yn cefnogi swyddi o ansawdd uchel a hyfforddiant / addysg i drigolion y Fro.

- Bydd angen i batrymau gweithio hyblyg sy'n cael eu sbarduno gan ddigideiddio ac effeithiau pandemig COVID-19 gael eu hadlewyrchu mewn polisi cynllunio lleol.
- Cynnydd parhaus mewn arwynebedd llawr hamdden a swyddfeydd, gyda chanolfannau manwerthu tref ac ardal yn arallgyfeirio o'r defnyddiau manwerthu A1 traddodiadol, yn rhannol fel ymateb i newid mewn arferion siopa. Bydd angen i'r CDLlN ystyried sut y gall polisi gynnwys tueddiadau mewn arferion siopa a natur newidiol manwerthu a rôl ddatblygol ein trefi, ein hardaloedd a'n canolfannau lleol.
- Mae mynediad i fand eang yn amrywio ledled y Fro; fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru trwy'r 'Gronfa Band Eang Lleol' i wella mynediad i'r rhyngrwyd mewn rhai ardaloedd lle mae seilwaith yn anos ei osod. Bydd hyn yn bwysig os yw Bro Morgannwg yn dymuno manteisio ar y cyfleoedd economaidd a grëir trwy weithio gartref ac o bell.
- Mae gan y Fro amrywiaeth o atyniadau i dwristiaid sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol i wella lles economaidd yr ardal. Bydd yn bwysig i'r Fro ddefnyddio ei hasedau mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau bod lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn y dyfodol ledled cymunedau yn cael ei wella a bod cyfanrwydd yr asedau'n cael ei gynnal a'i wella.

# Amcanion ACI

2.57 O ystyried y materion allweddol a drafodir uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau gwrthrychol ac asesu canlynol:

| **Amcanion ACI** | **Cwestiynau asesu –** a fydd y cynllun / polisi yn helpu i: |
|---|---|
| Cefnogi economi gref, amrywiol, gynaliadwy a gwydn, gydag ymatebion arloesol i amodau newidiol a chymorth i weithlu cryf yn y dyfodol. | • Darparu digon o dir i fusnesau dyfu a sicrhau cysondeb â thai / seilwaith?<br>• Cefnogi'r gwaith o greu swyddi newydd hygyrch a hwyluso gweithio o gartref a gweithio o bell?<br>• Cefnogi Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan, gan adlewyrchu ei phwysigrwydd rhanbarthol o ran denu mewnfuddsoddiad?<br>• Sicrhau bod canol trefi yn cael eu hystyried yn gyntaf ar gyfer cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd?<br>• Sicrhau bod cyfleusterau addysgol yn gyson â thwf y boblogaeth?<br>• Gwella bywiogrwydd a gwydnwch canol trefi a chanolfannau manwerthu, gan gefnogi arallgyfeirio yn unol ag anghenion sy'n newid?<br>• Diogelu ardaloedd cyflogaeth presennol?<br>• Creu cyrchfan ddeniadol i dwristiaid?<br>• Annog datblygu cynaliadwy a chyfleusterau o safon i gyfoethogi'r profiad i ymwelwyr a thrigolion?<br>• Hyrwyddo economi werdd a datgarboneiddio? |

- Sicrhau bod yr economi'n tyfu mewn modd cynaliadwy?
- Hyrwyddo Cymru lewyrchus?

# 3. Poblogaeth a chymunedau

3.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar ddemograffeg ac aelwydydd y boblogaeth ym Mro Morgannwg, yn ogystal ag amddifadedd, mynediad i wasanaethau a chyfleusterau.

## Cyd-destun polisi

3.2 Mae **Tabl 3.1** yn cyflwyno'r dogfennau mwyaf perthnasol a nodwyd yn yr adolygiad polisi at ddibenion y CDLIN a'r ACI.

**Tabl 3.1 Cynlluniau, polisïau a strategaethau a adolygir mewn perthynas â phoblogaeth a chymunedau**

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn cyhoeddi |
|---|---|
| Deddf Cynllunio Cymru | 2015 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 2015 |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) | 2016 |
| Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol) | 2021 |
| Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) | 2021 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 5: Cynllunio a Thai Fforddiadwy | 2006 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 6: Cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy | 2010 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 12: Dylunio | 2016 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 20: Cynllunio a'r Gymraeg | 2017 |
| Siarter Creu Lleoedd Cymru | 2020 |
| Strategaeth y Gymraeg | 2017 |
| Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cadarn a Disgleiriach | 2020 |
| Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg | 2017 |
| Asesiad Lles Bro Morgannwg - Adroddiad Demograffig | 2021 |

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn cyhoeddi |
|---|---|
| Strategaeth Adfer Coronafeirws Bro Morgannwg | 2020 |
| Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg | 2020 |
| Asesiad o Farchnad Dai Leol Bro Morgannwg | 2022 |
| Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Bro Morgannwg Mai | 2016 |
| Rhaglen Twf y Barri | 2022 |
| Adeiladu Lleoedd Gwell Llywodraeth Cymru | 2020 |
| Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Bro Morgannwg | 2016 |

3.3 Crynhoir isod y negeseuon allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad:

- Bydd yn ofynnol i'r CDLlN gydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol, sy'n gosod y fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir, gan roi cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith/twf newydd. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod Bro Morgannwg o fewn rhanbarth De-ddwyrain Cymru, y lleiaf o'r pedwar rhanbarth yn ôl arwynebedd, sy'n cynnwys dinasoedd arfordirol Caerdydd a Chasnewydd a chyn-gadarnleoedd diwydiannol cymoedd De Cymru. Mae Cymru'r Dyfodol yn tynnu sylw at bwysigrwydd cysylltiadau'r rhanbarth â rhanbarthau Canolbarth Cymru a De-orllewin Lloegr a rhanbarth Gorllewin Lloegr. Bydd hybu hygyrchedd a chysylltiadau rhwng yr ardaloedd hyn, ar sail dealltwriaeth o'u rolau a'u swyddogaethau, yn sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn gweithredu fel cyfanwaith cydlynus ac nad ydynt yn cystadlu yn erbyn ei gilydd nac yn gwneud penderfyniadau strategol ar wahân. Bydd cefnogi Bro Morgannwg fel ardal gyda gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol ynghyd â seilwaith digidol yn cael effaith fuddiol ar y gymuned leol.
- Mae polisi cynllunio cenedlaethol wedi'i nodi mewn PCC, sy'n ceisio sicrhau bod penderfyniadau cynllunio yn cefnogi pob agwedd ar les a chyflawni datblygiad newydd sy'n gynaliadwy ac yn darparu ar gyfer anghenion pob person a chymunedau
- Mae PCC 11 yn cynnwys yr egwyddorion a'r polisïau sydd â pherthnasedd uniongyrchol i gynorthwyo cymunedau i adfer o bandemig Covid-19 mewn modd cadarnhaol, gan roi lleoedd wrth wraidd datblygu yn y dyfodol. Mae'r canllaw 'Adeiladu Lleoedd Gwell' yn nodi'r blaenoriaethau polisi a'r camau gweithredu mwyaf perthnasol i helpu yn yr adferiad, gan gynnwys "creu lleoedd gweithredol iach, ffyniannus gyda ffocws ar ddyfodol cadarnhaol, cynaliadwy i'n cymunedau".
- Ategir PCC gan NCTau, sy'n gwireddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy o fewn y system gynllunio, fel y gall chwarae rhan briodol wrth symud tuag at gynaliadwyedd. Prif amcan Polisi Cynllunio Cymru yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu at ddarparu datblygu cynaliadwy, ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella lles cymdeithasol,

economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol Cymru. Mae hyn yn unol â gofynion Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol eraill ac yn arwain at ddyletswyddau megis y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

- Mae Safonau'r Gymraeg yn gosod gofyniad ar awdurdodau lleol yng Nghymru i lunio Strategaeth Iaith Gymraeg leol sy'n amlinellu sut y byddant yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hardal. Wedi'i seilio ar y chwe thema a nodwyd yn genedlaethol yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru: 'Iaith Fyw: Iaith Byw', mae Strategaeth y Gymraeg (2017) yn defnyddio meini prawf cenedlaethol sefydledig ond yn lleoleiddio'r wybodaeth a'r targedau i gefnogi llwyddiant parhaus y Gymraeg ym Mro Morgannwg.
- Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru yn datblygu’r ffocws cynyddol ar greu lleoedd mewn polisïau ac arferion yng Nghymru a'r nod yw rhoi dealltwriaeth gyffredin o'r amrywiaeth o ystyriaethau a wneir wrth greu lleoedd. Mae gwneud lleoedd yn ymwneud â chreu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n gwella cymunedau ac yn creu lleoedd iach.
- Mae'r siarter yn amlinellu'r chwe egwyddor creu lleoedd canlynol sy'n ymdrin â'r amrywiaeth o ystyriaethau sy'n cyfrannu at sefydlu a chynnal lleoedd da:
  - **Pobl a’r gymuned:** Cynnwys y gymuned leol wrth ddatblygu cynigion. Ystyried anghenion, iechyd a lles pawb o’r cychwyn cyntaf. Caiff cynigion eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio, amddiffyn a/neu wella ymdeimlad o gymuned a hyrwyddo cydraddoldeb.
  - **Symud:** Caiff cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus eu blaenoriaethu i ddarparu dewis o ddulliau trafnidiaeth ac osgoi dibyniaeth ar gerbydau modur preifat. Mae llwybrau teithio llesol sydd wedi'u dylunio'n dda ac yn ddiogel yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ehangach ac mae gorsafoedd ac arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u hintegreiddio'n gadarnhaol.
  - **Lleoliad:** Mae lleoedd yn tyfu ac yn datblygu mewn ffordd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi ac yn gwella lleoedd presennol ac wedi'u cysylltu'n dda. Y bwriad yw y bydd lleoliad tai, cyflogaeth a hamdden a chyfleusterau eraill yn helpu i leihau'r angen i deithio.
  - **Tir cyhoeddus** Mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol gyda hunaniaeth benodol. Maent wedi'u dylunio i fod yn gadarn ac yn addasadwy gydag ardaloedd wedi’u tirlunio, seilwaith gwyrdd a systemau draenio cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Maent wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac amrywiaeth o weithgareddau i bawb.
  - **Defnydd cymysg:** Mae gan leoedd amrywiaeth o ddibenion sy'n rhoi cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a chael mynediad i swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau trwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a chymysgedd o

ddefnyddiau a deiliadaethau yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol a thir cyhoeddus bywiog.

- **Hunaniaeth:** Mae rhinweddau a hunaniaeth unigryw gadarnhaol lleoedd sydd eisoes yn bodoli yn cael eu gwerthfawrtogi a'u parchu. Nodir nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad gan gynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith a phriodoleddau adeiledig a ffisegol naturiol, ac ymatebir iddynt.

- Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ceisio hyrwyddo twf cryf, cynaliadwy a chytbwys ledled y rhanbarth, gan ymrwymo i ddull partneriaeth o ymdrin â thai ac adfywio. Nod y fargen yw annog buddsoddiad a chreu amgylchedd cyfle cyfartal o fewn y deg awdurdod lleol a phartneriaid allweddol eraill o fewn ei ffiniau. Dylai'r CDLlN nodi polisïau a chynigion ar gyfer hyrwyddo twf cynaliadwy o fewn yr ardal er budd ei phoblogaeth breswyl.
- Yn benodol, mae rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yn un o brif raglenni buddsoddi cyfalaf strategol, hirdymor, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.
- Mae CDLl mabwysiedig Bro Morgannwg a pholisïau a chynlluniau lleol eraill ynglŷn â materion economaidd-gymdeithasol yn mynd i'r afael yn fras â'r amcanion a ganlyn:
  - Rhoi cyfle i bobl ym Mro Morgannwg ddiwallu eu hanghenion tai.
  - Sicrhau bod datblygiad ym Mro Morgannwg yn defnyddio tir mewn modd effeithiol ac effeithlon.
  - Atgyfnerthu bywiogrwydd, hyfywedd ac apêl canolfannau siopa trefi, ardal, lleol a chymdogaethau Bro Morgannwg.
  - Lleihau'r angen i drigolion Bro Morgannwg deithio i fodloni eu hanghenion pob dydd a'u galluogi i ddefnyddio ffurfiau cynaliadwy ar drafnidiaeth yn fwy.
- Mae Rhaglen Twf y Barri (2022) yn nodi Uwchgynllun gofodol a chynllun buddsoddi 10 mlynedd ar gyfer y Barri. Nod y Rhaglen yw adnabod amrywiaeth o gyfleoedd adfywio, buddsoddi a datblygu cynaliadwy a allai gael eu cyflwyno'n realistig dros y degawd nesaf yn y Barri, ardal sy'n cynnwys canol y dref, glannau'r Barri, y dociau ac Ynys y Barri, ynghyd â thir cyflogaeth Ardal Fenter i gyfeiriad Maes Awyr Caerdydd – oll gyda ffocws ar wella cydraddoldeb, ffyniant a photensial twf economaidd i bob cymuned yn y Barri ac, yn awgrymedig, yn ei chyffiniau, ledled Bro Morgannwg a'r tu hwnt.
- Yn 2020, cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Adfer yn sgil y Coronafeirws[35], sy'n nodi effeithiau cymdeithasol, economaidd a lles y pandemig ar gymunedau ac yn gosod ei flaenoriaethau a'i amcanion allweddol. Mae hyn yn cefnogi Cynllun Corfforaethol y Fro 2020 i 2025 ac yn cyd-fynd â Rhaglen Twf y Barri. Yn benodol, mae amcanion yn cynnwys bod yn 'wydn, yn arloesol ac yn ymatebol i anghenion ein cymunedau' gan 'sicrhau bod pobl yn ddiogel gartref ac yn y gymuned'.

[35] Cyngor Bro Morgannwg (2020): 'Strategaeth Adfer yn sgil y Coronafeirws', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy'r ddolen hon

# Crynodeb sylfaenol

## Trosolwg o'r boblogaeth

3.4 Mae'r amcangyfrif canol blwyddyn diweddaraf ar gyfer Bro Morgannwg yn ymwneud â 2020 ac fe'i rhyddhawyd ym mis Mehefin 2021. Amcangyfrifwyd poblogaeth o 135,295 o bobl. Mae hyn yn arwain at ddwysedd poblogaeth o 408.6 o bobl fesul km.sg o gymharu â 383 o bobl fesul km.sg ar ddechrau cyfnod y cynllun yn 2011. Mae hyn yn gwneud Bro Morgannwg yr 11eg awdurdod lleol mwyaf poblog, a'r ardal awdurdod lleol 9fed fwyaf dwys ei phoblogaeth yng Nghymru.[36]

3.5 Bu twf cadarnhaol ym mhoblogaeth Bro Morgannwg bob blwyddyn ers 2002, ar wahân i 2017. Yn y pum mlynedd diwethaf, mae'r boblogaeth wedi tyfu 5.4%, sef 7,315 yn fwy o bobl; cyfradd twf uwch na'r newid ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru yn y cyfnod hwn.[37]

3.6 Mae cyfansoddiad poblogaeth Bro Morgannwg yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol (Cymru):

- Ym Mro Morgannwg, yn 2020 amcangyfrifwyd bod y rhan fwyaf o'r boblogaeth – 60% (81,540) – yn 16-64 oed. Mae hyn yn cymharu â 61% ar gyfer Cymru gyfan.
- Amcangyfrifwyd bod 19% (24,917) o boblogaeth Bro Morgannwg yn 0-15 oed. Mae hyn yn cymharu â 18% ar gyfer Cymru gyfan.
- Amcangyfrifwyd bod 21% (28,838) o boblogaeth Bro Morgannwg yn 65 oed ac yn hŷn. Mae hyn yn cymharu â 21% ar gyfer Cymru gyfan.

3.7 Fel llawer o'r wlad, mae gan Fro Morgannwg boblogaeth sy'n heneiddio. Mae amcangyfrifon poblogaeth yn amcangyfrif y bydd y boblogaeth 0-15 oed a 16-64 oed yn lleihau erbyn 2036. Mae Strategaeth Pobl Hŷn Bro Morgannwg (2013)[38] yn cefnogi amcanion Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn, a bydd Cam 3 yn cynnwys y cyfnod rhwng 2013 a 2023.

3.8 Mae **Tabl 3.2** drosodd yn dangos twf y boblogaeth rhwng 2015 a 2020 fesul ystod oedran. Mae **Tabl 3.2** hefyd yn dangos y cynnydd sylweddol ym mhoblogaeth hŷn y Fro ers 2015.

[36] Asesiad Lles Cyngor Bro Morgannwg (2021) – Adroddiad Demograffig
[37] Asesiad Lles Cyngor Bro Morgannwg (2021) – Adroddiad Demograffig
[38] Cyngor Bro Morgannwg (2013): 'Strategaeth Pobl Hŷn', ar gael [ar-lein] i'w gweld trwy'r ddolen hon

### Tabl 3.2 Twf poblogaeth Bro Morgannwg 2015 - 2020[39]

| Ystod oedran | 2015 | 2020 | Canran cynnydd |
|---|---|---|---|
| **0-15** | 23,683 | 24,917 | 5.1% |
| **16-64** | 78,348 | 81,540 | 3.9% |
| **65+** | 25,994 | 28,838 | 9.8% |

3.9 O ran rhywedd a phroffil oedran y boblogaeth:[40]

- Yn 2020 amcangyfrifwyd bod ychydig yn fwy o fenywod (69,580 sy'n cyfateb i 51%) na dynion (65,715 sy'n cyfateb i 49%) yn byw ym Mro Morgannwg. Mae hyn yn cymharu â 51% o fenywod a 49% o ddynion ar gyfer Cymru gyfan.
- Gan adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol, mae'r rhaniad rhwng rhywiau ym Mro Morgannwg yn y grwpiau oedran 015 a 16-64 oed bron yn 50:50.
- Mae mwy o raniad rhwng y rhywiau ar gyfer y rhai sy'n 65 oed ac yn hŷn; er bod hyn hefyd yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol, mae'r gwahaniaeth ym Mro Morgannwg ychydig yn fwy amlwg gydag amcangyfrif o 15,931 (55%) o fenywod a 12,907 (45%) o ddynion, o gymharu â 54% o fenywod a 46% o ddynion ar gyfer Cymru gyfan.
- Mae twf y grŵp poblogaeth hŷn (65+ oed) wedi bod yn arbennig o gyffredin mewn ardaloedd yng Ngorllewin y Fro, gydag amcangyfrif bod 9,737 o bobl 65 oed a hŷn yn byw yno, sy’n boblogaeth fwy o bobl 65 oed a hŷn nag yn y Barri neu Ddwyrain y Fro.


## Newidiadau Poblogaeth y Dyfodol

3.10 Amcanestynnir y bydd y twf sylweddol a welwyd yn y boblogaeth 65 oed a hŷn yn parhau. Yn 2018 roedd pobl 65 oed a hŷn yn cynrychioli 21% o'r boblogaeth ym Mro Morgannwg, ac mae disgwyl i hyn godi i 27% erbyn 2043[41], gyda chynnydd nodedig ymhlith y rhai 85 oed a hŷn[42]. Mae amcanestyniadau poblogaeth sy'n seiliedig ar 2018 yn rhagweld y bydd Bro Morgannwg yn profi'r cynnydd mwyaf mewn poblogaeth 65 oed a hŷn o holl ardaloedd awdurdodau lleol Cymru.[43]

3.11 Mae **Ffigur 3.1** drosodd yn dangos rhagamcanion poblogaeth De-ddwyrain Cymru fesul awdurdod lleol a blwyddyn rhwng 2018 a 2030, ar sail ystadegau 2018. Roedd gan Fro Morgannwg y bumed boblogaeth breswyl arferol isaf yn 2018, y tu ôl i Ferthyr Tudful, Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy; a rhagwelir y bydd y duedd hon yn parhau i 2030 ar sail yr ystadegau hyn. Fodd bynnag, mae hyn yn bennaf oherwydd natur wledig a maint cymharol y Fro.

[39]Cyngor Bro Morgannwg (2021): 'Asesiad Lles 2021 – Adroddiad Demograffig'
[40] Ibid
[41]Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a’r Fro (2022): ‘Asesiad Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg 2022’
[42]Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro (2020): ‘Ailddychmygu Heneiddio tua’r Dyfodol’ Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd 2019’
[43] Ibid

## Ffigur 3.1 Rhagamcanion poblogaeth fesul awdurdod lleol a blwyddyn[44]




[44] StatsCymru (2018): 'Rhagamcanion poblogaeth fesul awdurdod lleol a blwyddyn', ar gael [ar-lein] i'w gweld trwy'r ddolen hon

3.12 Er bod ganddi'r bumed boblogaeth breswyl arferol isaf yn 2018, mae **Tabl 3.3** isod yn dangos y rhagwelir mai'r Fro fydd â'r ail boblogaeth sy'n tyfu gyflymaf yn y de-ddwyrain ar ôl Casnewydd. Mae hyn yn dangos bod y boblogaeth yn tyfu ar gyfradd gymharol uchel am ei maint, a allai fod oherwydd cyfuniad o boblogaeth sy'n heneiddio a mewnfudiad.

**Tabl 33: Amcangyfrifon poblogaeth[45]**

| Ardal | 2021 - 2026 | 2026 - 2031 |
|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1.73% | 1.73% |
| Bro Morgannwg | 2.94% | 2.26% |
| Caerdydd | 1.31% | 1.79% |
| Rhondda Cynon Taf | 1.22% | 1.01% |
| Merthyr Tudful | 1.22% | 0.92% |
| Caerffili | 0.43% | 0.25% |
| Blaenau Gwent | -0.34% | -0.35% |
| Torfaen | 1.17% | 0.94% |
| Sir Fynwy | 1.74% | 1.44% |
| Casnewydd | 3.52% | 2.79% |

### Patrymau ymfudo'r boblogaeth

3.13 Gellir priodoli rhan helaeth o'r newid ym mhoblogaeth Bro Morgannwg yn ystod y pum mlynedd diwethaf i batrymau mudo poblogaeth.[46] Mae mudo net yn cyfeirio at yr amcangyfrif o'r boblogaeth sy'n symud i mewn ac allan sy'n digwydd rhwng awdurdodau lleol yn y Deyrnas Unedig.

3.14 Ym Mro Morgannwg, bu mudo net cadarnhaol yn ystod y pum mlynedd diwethaf (ar ôl mudo net negyddol rhwng 2014 a 2015, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad yn y boblogaeth amcangyfrifedig rhwng canol 2014 a chanol 2015). Rhwng 2019 a 2020 amcangyfrifwyd mudo net cadarnhaol o 1,618 o bobl, gyda 5,506 o bobl yn symud i mewn i Fro Morgannwg a 3,888 yn symud allan o Fro Morgannwg.

## Prif aneddiadau

3.15 Bro Morgannwg yw Awdurdod Unedol mwyaf deheuol Cymru, i'r gorllewin o Gaerdydd rhwng yr M4 ac Aber Afon Hafren. Mae'n 33,097 hectar o faint, y mae tua 85% (28,132 hectar) ohono'n dir amaethyddol. (Ceir rhagor o fanylion ym **Mhennod 8**.)

3.16 Gan gynnwys cymysgedd o amgylcheddau gwledig a threfol, mae gan y Fro nifer o drefi a phentrefi gwahanol, wedi'u rhannu'n dair 'Ardal Gymunedol' - Y Barri, Dwyrain y Fro a Gorllewin y Fro.[47] Mae'r ardaloedd cymunedol hyn yn cynnwys pedwar canol tref gwahanol Bro Morgannwg: Y Barri, Penarth

[45] StatsCymru (2018): 'Elfennau newid rhagamcanion poblogaeth fesul awdurdod lleol a blwyddyn', ar gael [ar-lein] i'w gweld trwy'r ddolen hon
[46] Asesiad Lles Cyngor Bro Morgannwg (2021) – Adroddiad Demograffig
[47] Asesiad Lles Cyngor Bro Morgannwg 2021 – Adroddiad Demograffig

(Dwyrain y Fro), Llanilltud Fawr (Gorllewin y Fro) a'r Bont-faen (Gorllewin y Fro).

3.17 Yn 2020 amcangyfrifwyd bod 55,069 o bobl neu 41% o boblogaeth Bro Morgannwg yn byw yn y Barri, bod 41,747 neu 31% o boblogaeth Bro Morgannwg yn byw yng Ngorllewin y Fro a bod 38,479 neu 28% o boblogaeth Bro Morgannwg yn byw yn Nwyrain y Fro. Amcangyfrifir mai'r Barri sydd â'r gyfran uchaf o boblogaeth Bro Morgannwg rhwng 0-15 oed, sef 44% a'r gyfran uchaf o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed, sef 42%. Gorllewin y Fro sydd â'r gyfran uchaf o'r boblogaeth sy'n 65 oed ac yn hŷn, sef 34%.[48]

3.18 Y Barri yw canolfan weinyddol Bro Morgannwg ac fe'i nodwyd yn 'anheddiad allweddol' yng Nghynllun Gofodol Cymru (sydd bellach wedi'i ddisodli), gan gydnabod ei rôl yn llwyddiant Dinas-Ranbarth De-ddwyrain Cymru. Yn 2010, dynodwyd y Barri gan Lywodraeth Cymru yn Ardal Adfywio, gan gefnogi datblygu'r Barri i fod yn lle deniadol i fyw; a chefnogi datblygu Ynys y Barri yn gyrchfan ar gyfer teithiau dydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn bennaf.[49]

3.19 Er bod trefi hanesyddol 'y Bont-faen, Penarth a Llanilltud Fawr i gyd yn wahanol iawn o ran eu cymeriad, mae ganddynt rolau tebyg. Er enghraifft, mae gan bob un ohonynt boblogaethau preswyl sylweddol, darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus dda, cyfleoedd cyflogaeth lleol, canol trefi sefydledig ac amrywiaeth eang o wasanaethau a chyfleusterau diwylliannol, addysgol a chymunedol. Am y rhesymau hyn, mae'r CDLl mabwysiedig presennol yn nodi'r rhain fel 'Aneddiadau Canolfannau Gwasanaeth' i gydnabod eu rôl wrth wasanaethu anghenion dyddiol eu trigolion lleol a gweithredu fel canolfannau pwysig i'r rhai sy'n byw mewn aneddiadau cyfagos sy'n llai o faint.[50] Gellir gweld lleoliad y prif aneddiadau yng nghyd-destun ardal y CDLlN yn **Ffigur 3.4** yn ddiweddarach yn y Bennod hon. Fel y nodir yn y CDLl mabwysiedig, mae 'prif' aneddiadau'r Fro yn cynnwys: Dinas Powys, Llandochau (Penarth), Y Rhws, Sain Tathan, Sili a Gwenfô.[51]

3.20 Er gwaethaf rôl economaidd strategol Sain Tathan (gweler **Pennod 2** uchod), mae prif aneddiadau Dinas Powys, Llandochau (Penarth), Y Rhws, Sili, Sain Tathan a Gwenfô yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu lefel o dwf tai, yn ogystal â rhai gwasanaethau a chyfleusterau lleol allweddol. Mae'r prif aneddiadau'n ategu rôl aneddiadau'r canolfannau gwasanaeth gan eu bod yn darparu ar gyfer anghenion trigolion ac anghenion yr ardaloedd gwledig ehangach o'u cwmpas. Maent yn cynnig sawl gwasanaeth a chyfleuster allweddol, sy'n hanfodol i'w rôl fel cymunedau cynaliadwy, wrth iddynt leihau'r angen i deithio i'r Barri neu aneddiadau'r canolfannau gwasanaeth ar gyfer anghenion o ddydd i ddydd. Mae'r cyfleusterau hyn yn cynnwys ysgolion cynradd, siopau cyfleus bach, siopau bwyd a diod, rhywfaint o ddarpariaeth cyflogaeth ar raddfa fach a thrafnidiaeth gyhoeddus reolaidd.[52]

3.21 Mae'r CDLl mabwysiedig hefyd yn nodi 'Mân Aneddiadau Gwledig' gan gynnwys: Aberthin, Tresimwn, Tregolwyn, Corntwn, Croes Cwrlwys, Dwyrain Aberddawan, Ewenni, Fferm Goch, Craig Pen-llin, Llancarfan, Llandŵ, Llan-

[48]Asesiad Lles Cyngor Bro Morgannwg 2021 – Adroddiad Demograffig
[49]Cyngor Bro Morgannwg (2017): 'Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy'r ddolen hon
[50] Ibid
[51] Ibid
[52] Ibid

faes, Llyswyrni, Aberogwr, Pendeulwyn, Pen-llin, Llanbedr-y-Fro, Tresigin, Southerndown, Saint-y-brid, Sain Nicolas, Treoes, y Wig ac Ystradowen. Ar gyfer yr aneddiadau hyn, mae'r CDLl mabwysiedig wedi darparu ar gyfer twf cymedrol i helpu i ddiwallu angen tai lleol ac i gefnogi gwasanaethau lleol presennol.

## Tai

### Amcangyfrifon aelwydydd

3.22 Yn ôl amcangyfrifon aelwydydd ar gyfer Cymru, roedd 58,878 o aelwydydd ym Mro Morgannwg yn 2020. Dyma'r 12fed nifer uchaf o aelwydydd amcangyfrifedig fesul Awdurdod Lleol yng Nghymru.

3.23 Dengys data rhwng 1991 a 2020 y gellir gweld y twf mwyaf o ran maint aelwydydd ym Mro Morgannwg mewn aelwydydd '1 person'. Amcangyfrifwyd bod 18,467 o gartrefi '1 person' ym Mro Morgannwg yn 2020.

3.24 Mae'r twf mewn cartrefi '1 person' wedi cyd-fynd â thwf mewn cartrefi '2 berson (dim plant)' . Amcangyfrifwyd bod 18,157 o gartrefi '2 berson (dim plant)' ym Mro Morgannwg yn 2020. Mae maint cartrefi eraill ym Mro Morgannwg wedi aros yn gyson.[53]


### Darpariaeth Tai

3.25 O ran darpariaeth tai, mae'r data monitro yn dangos bod y CDLl, rhwng 1 Ebrill 2011 a 1 Ebrill 2022, wedi darparu 5,688 o anheddau sy'n cyfateb i ddarpariaeth gyfartalog flynyddol o 517 o anheddau y flwyddyn yn hytrach na 630.66.[54] Mae hyn 18% yn is na tharged anheddau cronnol 2022, sef 6,937.

3.26 Mae **Ffigur 3.2** isod yn dangos y twf yn nifer y tai sydd wedi'u darparu ym Mro Morgannwg ers 2011, gan dynnu sylw at gynnydd blynyddol cyson o ran nifer y tai sy'n cael eu cwblhau yn yr awdurdod sy'n adlewyrchu'r adferiad economaidd cenedlaethol ynghyd â'r tir tai y gellir ei ddarparu o fewn yr awdurdod. Ar gyfer y blynyddoedd 2016-17, 2017-18, 2019-20 a 2020-21, mae'r tabl yn dangos bod anheddau tai a gwblhawyd wedi rhagori ar y gofyniad cyfartalog blynyddol.

[53]Cyngor Bro Morgannwg (2021): 'Asesiad Lles 2021 – Adroddiad Demograffig'
[54]Cyngor Bro Morgannwg (2021): 'Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026 – 3ydd Adroddiad Monitro Blynyddol'

### Ffigur 3.2 Darpariaeth tai ym Mro Morgannwg




3.27 Mae **Ffigur 3.2** hefyd yn dangos y rhagwelir y bydd nifer y tai a gwblheir yn is na'r gofyniad cyfartalog ym mlynyddoedd 2021 i 2023 cyn cynyddu'n uwch na'r gofyniad cyfartalog blynyddol yn ystod tair blynedd olaf y cynllun.

3.28 Ystyrir bod y CDLl mabwysiedig, er gwaethaf cyfraddau datblygu isel yn rhan gyntaf y Cynllun, wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r ddarpariaeth tai a nodwyd.

### Deiliadaeth

3.29 Rhwng Cyfrifiad 2001 a 2011, gan adlewyrchu newidiadau ar draws holl ardaloedd awdurdodau lleol ledled Cymru, cafwyd gostyngiad o ran deiliadaeth yng nghanran yr eiddo sydd â morgais a thwf yn yr eiddo rhent preifat.[55] Yn 2001, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, sef 44.9%, yn berchen ar eiddo â morgais, a oedd y ganran uchaf yng Nghymru hefyd. Yn 2011 roedd hyn wedi gostwng i 36.8%. Bu cynnydd yng nghanran yr ymatebwyr a oedd mewn eiddo rhent preifat o 6.4% yn 2001 i 14.6% yn 2011.

#### Tai fforddiadwy

Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) (2022) yn dangos bod angen tai fforddiadwy ar draws Bro Morgannwg, gyda 76% o lety rhent cymdeithasol, 18% o dai rhent canolradd, a 7% o berchentyaeth cost isel. Yr angen blynyddol am dai fforddiadwy ym Mro Morgannwg rhwng 2021 a 2026 yw 1205 o unedau'r flwyddyn, sy'n cynnwys:

- 915 o unedau llety rhent cymdeithasol.
- 211 o unedau tai rhent canolradd; a
- 79 o unedau perchentyaeth cost isel[56].

3.30 Mae'r angen am lety rhent cymdeithasol anghenion cyffredinol yn parhau ar ei uchaf yn ardaloedd marchnad dai'r Barri a Phenarth a Llandochau, yna aneddiadau dinesig ar hyd ochr ddeheuol ffin y sir. Ceir hefyd pocedi o angen cymedrol yn y gogledd gwledig; yn enwedig o amgylch y prif aneddiadau. Mae'r AFDL yn tynnu sylw pellach at y ffaith fod pob ardal yn dangos diffyg o ran tai cymdeithasol anghenion cyffredinol ar ryw lefel.[57]

3.31 Mae'r AFDL yn nodi mai'r angen mwyaf yw ar gyfer eiddo gydag un a dwy ystafell wely llai a llety ar gyfer pobl hŷn (dros 65 oed), gyda'r galw mwyaf ymhlith pobl sengl a chyplau heb blant.


### Prisiau tai

3.32 Mae data diweddaraf Cofrestrfa Tir EM (Ystadegau Gwladol Mynegai Prisiau Tai y DU ar gyfer Cymru: Mawrth 2021 (Cyhoeddwyd 19 Mai 2021) yn dangos bod prisiau tai yng Nghymru wedi cynyddu 3.1% ers mis Chwefror 2021, gyda phris cyfartalog tai yng Nghymru bellach yn £185,431 - sy'n newid blynyddol o 11%.

3.33 Ym Mro Morgannwg, ar gyfartaledd, cododd prisiau tai yn yr un modd o 3% yn y flwyddyn hyd at fis Chwefror 2021. Mae pris cyfartalog tŷ yn y Fro bellach yn £238,745 o'i gymharu â £231,874 ar gyfer mis Chwefror 2020. O'i gymharu ag awdurdodau eraill Cymru, fel y dangosir yn **Ffigur 3.3** drosodd, mae Bro Morgannwg yn un o'r ardaloedd mwy cyfoethog, ynghyd ag awdurdodau eraill y de-ddwyrain - Caerdydd, Casnewydd a Sir Fynwy. Mae Cwm Rhondda, Merthyr Tudful a Chastell-nedd Port Talbot wedi'u harlliwio'n las a nhw sydd â'r prisiau tai cyfartalog isaf yng Nghymru.

[55] Cyngor Bro Morgannwg (2021): 'Asesiad Lles 2021 – Adroddiad Demograffig'
[56] Cyngor Bro Morgannwg (2022): 'Asesiad o'r Farchnad Dai Leol'
[57] Ibid.

### Ffigur 3.3 Prisiau Tai Cyfartalog fesul Awdurdod Lleol yng Nghymru[58]




### Amcangyfrifon aelwydydd

3.34 Yn ôl tafluniadau cartrefi cenedlaethol Cymru yn 2018, bydd nifer yr aelwydydd ym Mro Morgannwg yn parhau i dyfu o flwyddyn i flwyddyn. Dros y deng mlynedd nesaf hyd at 2028, amcangyfrir y bydd nifer yr aelwydydd ym Mro Morgannwg yn tyfu o 57,230 i 61,030.[59] Erbyn 2043, amcangyfrir y bydd nifer yr aelwydydd ym Mro Morgannwg yn tyfu i 62,832.

3.35 Mae rhagamcanion aelwydydd yn amrywio ar gyfer gwahanol fathau o aelwydydd. Mae'r rhan fwyaf o fathau o aelwydydd yn dangos twf o flwyddyn i flwyddyn yn nifer yr aelwydydd.

3.36 Er bod rhagamcanion aelwydydd yn dangos twf o flwyddyn i flwyddyn yn nifer yr aelwydydd, mae rhagamcanion ar gyfer maint cyfartalog aelwydydd yn dangos gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn. Dros y deng mlynedd nesaf hyd at 2028, rhagwelir y bydd maint cyfartalog aelwydydd yn gostwng o 2.27 i 2.21.[60]

## Troseddu

3.37 Mae'r gyfradd droseddu ym Mro Morgannwg wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf, fel y dangosir yn **Nhabl 3.4** drosodd.[61] Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cofnodwyd cynnydd mawr mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyda chydberthynas rhwng cynnydd a chyflwyno cyfyngiadau'r coronafeirws. Testun pryder yw'r cynnydd mewn cynadleddau cam-drin domestig ac Asesiadau Risg Amlasiantaethol (CARAA/MARAC) a gynhaliwyd gydol 2020 a 2021. Mae cydberthynas hefyd rhwng profiadau o droseddu a'r ardaloedd hynny ym Mro Morgannwg a fesurir fel y rhai â'r amddifadedd mwyaf yn ôl Maes Diogelwch Cymunedol MALIC 2019. (Gweler **Pennod 5** am ragor o fanylion).

[58] Mynegai Prisiau Tai Cymru National Statistics UK (2021)
[59] Asesiad Lles Cyngor Bro Morgannwg 2021 – Adroddiad Demograffig
[60] Ibid
[61] UK Crime Stats (2021): 'South Wales Police', ar gael [ar-lein] i'w gweld trwy'r ddolen hon

### Bro Morgannwg – Pob Trosedd 2015 - 2021 (Ebrill - Mawrth)[62]

| Blwyddyn | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Troseddau a Adroddwyd | 9,337 | 9,198 | 10,473 | 10,503 | 10,576 | 10,442 | 13,045 |

3.38 Er bod troseddu o unrhyw natur yn peri pryder, mae lefelau troseddu a brofir ym Mro Morgannwg yn gymharol isel ac mae Bro Morgannwg yn parhau i fod yn lle diogel ar y cyfan i fyw a gweithio ynddo. Mae 76% o bobl yn adrodd eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 73%.[63]

3.39 Yn ôl data o fis Mawrth 2022, yn Ne Cymru roedd y nifer mwyaf o droseddau'n rhai treisgar (3,751), ac yna ymddygiad gwrthgymdeithasol (1,779), trefn gyhoeddus (1,177) a difrod troseddol a llosgi bwriadol (1,021).

## Lletemau Glas

3.40 Mae tir ar gyrion trefol yn enwedig o amgylch y prif anheddau a'r anheddau allweddol a gwasanaethu, sef y Barri, Dinas Powys, Llandochau (Penarth), Penarth a Sili, yn agored i hapddatblygu sy'n gallu gwneud y ffiniau rhwng ymylon aneddiadau a chefn gwlad agored yn annelwig. Os na chaiff ei atal, gallai datblygu o'r fath arwain at golli tir agored yn raddol ac, yn y pen draw, at aneddiadau'n ymdoddi i'w gilydd gan effeithio'n andwyol ar amaethyddiaeth, y dirwedd a gwerth amwynder y tir.[64]


3.41 Dull o gyfyngu trefol yw Lletemau Las a fwriedir i gyfyngu ar ledaeniad datblygiad adeiledig y tu hwnt i ffiniau aneddiadau dynodedig ac i gadw cyfanrwydd aneddiadau penodol. Maen nhw hefyd yn cyfrannu at seilwaith gwyrdd, bioamrywiaeth a mynediad i fannau gwyrdd. Yn hyn o beth, mae'r CDLl mabwysiedig yn nodi saith lletem las yn ardal y cynllun:[65]

- Rhwng Dinas Powys, Penarth a Llandochau
- I'r gogledd-orllewin o Sili.
- I'r gogledd o Wenfô.
- I'r de o Ben-y-bont ar Ogwr.
- Rhwng y Barri a'r Rhws.
- De Penarth i Sili.
- Rhwng y Rhws ac Aberddawan.

3.42 Fel a welir yn **Ffigur 3.4** drosodd, mae'r rhain yn gyffredinol rhwng aneddiadau gwahanol a nodir uchod, yn benodol i'r dwyrain a'r de o ardal y cynllun.

[62] UK Crime Stats (2021): 'South Wales Police', ar gael [ar-lein] i'w gweld trwy'r ddolen hon
[63] Asesiad Lles Bro Morgannwg 2021 – Adroddiad Iechyd a Chymunedau
[64] Cyngor Bro Morgannwg (2017): 'Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy'r ddolen hon
[65] Ibid.

## Ffigur 3.4 Ffiniau Lletemau Glas ac Aneddiadau



## Mynediad i wasanaethau


3.43 Mae problemau i rai ardaloedd ym Mro Morgannwg o ran cael mynediad i wasanaethau, gydag ardaloedd yng Ngorllewin y Fro yn cofnodi amserau teithio dychwelyd hir i wasanaethau allweddol a chysylltiadau rhyngrwyd gwael.[66] Ymdrinnir â hygyrchedd, gan gynnwys mynediad i wasanaethau iechyd, ymhellach ym **Mhennod 4**.

3.44 O ran cyfleusterau cymunedol, mae Cyngor Bro Morgannwg yn berchen ar 22 Canolfan Gymunedol (sy'n cael ei ddangos yn **Ffigur 3.5** drosodd), a reolir yn arbenigol o ddydd i ddydd gan wirfoddolwyr trwy Gymdeithas Gymunedol[67]. Mae'r Fro hefyd yn gartref i sawl cyfleuster arall, sy'n dod o dan y categorïau canlynol:

- Arfordir a Chefn Gwlad.
- Llyfrgelloedd.
- Parciau a Gerddi.
- Diwylliant a’r Celfyddydau.
- Chwarae a Chwaraeon.

[66]BGC Bro Morgannwg (2021): 'Asesiad Lles Bro Morgannwg – Adroddiad Iechyd a Chymunedau'
[67]Cyngor Bro Morgannwg (dim dyddiad): 'Canolfan Gymunedol', ar gael [ar-lein] i'w defnyddio trwy y ddolen hon

## Ffigur 3.5 Cyfleusterau Cymunedol a Reolir gan y Cyngor ym Mro Morgannwg



## Llinell sylfaen y dyfodol

3.45 Rhagwelir mai'r Fro yw'r ail boblogaeth sy'n tyfu gyflymaf yn Ne-ddwyrain Cymru, a disgwylir y gallai'r cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth roi pwysau ar gymunedau, gwasanaethau a chyfleusterau presennol. Yn ogystal, efallai y bydd gan ddatblygiad sydd heb ei gynllunio oblygiadau ehangach o ran darparu'r cymysgedd cywir o fathau o dai, deiliadaethau a meintiau mewn mannau sydd wedi'u cysylltu'n addas, yn enwedig o ystyried y boblogaeth gymharol hŷn a heneiddio a geir. Gall datblygiad parhaus o fathau o dai a deiliadaethau a ffefrir gan y farchnad gyflwyno neu waethygu anghydbwysedd tai a methu â diwallu unrhyw anghenion lleol ar gyfer cartrefi llai i symud iddynt, neu fwy o gartrefi fforddiadwy i wasanaethu anghenion trigolion iau. Mae'r angen hwn yn cael ei adlewyrchu trwy'r AFDL diweddaraf (2022).

3.46 Mae'r CDLlN yn cynnig cyfle i hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol, gan gynnwys cyfleoedd i gyfarfodydd rhwng pobl na fyddai efallai'n dod ar draws ei gilydd fel arall - er enghraifft trwy ddatblygiadau defnydd cymysg, canolfannau cymdogaeth gref, gosodiadau stryd sy'n galluogi cysylltiadau hawdd i gerddwyr a beiciau o fewn a rhwng cymdogaethau, a ffryntiau stryd gweithredol.

3.47 Yn ystod pandemig Covid-19, mae gweithio gartref wedi dod yn duedd fwy cyffredin, ac mae hyn yn debygol o newid patrymau cymudo a thueddiadau defnydd trigolion yn y dyfodol. Er bod ansicrwydd yn parhau, mae'r CDLlN yn rhoi cyfleoedd i arwain datblygiad sy'n darparu ar gyfer newid patrymau gwaith a ffyrdd o fyw, ac yn rhoi mwy o bwyslais ar fynediad i wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth lleol a chysylltedd strategol.

## Prif faterion

3.48 Roedd yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth sylfaenol yn llywio'r broses o nodi sawl mater allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Bu twf cadarnhaol yn y boblogaeth ym Mro Morgannwg bob blwyddyn ers 2002 (ac eithrio 2017), gyda'r grŵp oedran 65+ yn cynyddu 9.8% rhwng 2015 a 2020 a disgwylir iddo godi ymhellach erbyn 2030
- Rhagwelir twf nodedig ar gyfer y boblogaeth 65-84 oed ac 85 oed a hŷn. Rhwng 2019 a 2039 amcangyfrifir y bydd y boblogaeth 65-84 oed yn tyfu gan 5,266 o bobl a bydd y boblogaeth 85 oed a throsodd yn tyfu gan 2,904 o bobl. Mae hyn yn awgrymu bod gan y Fro boblogaeth sy'n heneiddio ac mae'n rhaid ystyried eu hanghenion penodol mewn meysydd fel tai, iechyd a darpariaeth gofal, ond hefyd i gydnabod cyfraniad cadarnhaol y bobl hŷn yn y gymuned.
- Mae prisiau eiddo uchel yn cyfrannu at gynnydd yn nifer y preswylwyr nad ydynt yn gallu prynu yn y farchnad eiddo preifat. Mae rhagamcanion aelwydydd yn dangos twf o flwyddyn i flwyddyn yn nifer yr aelwydydd, tra bod rhagamcanion ar gyfer maint cyfartalog aelwydydd yn dangos gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn. Gallai'r CDLlN geisio gwella darpariaethau polisi sy'n darparu'r cymysgedd cywir o fathau o dai, deiliadaethau a meintiau yn ôl anghenion lleol, mewn lleoedd sydd wedi'u cysylltu'n briodol, yn ogystal â thai fforddiadwy i drigolion y dyfodol.

- Mae'r Fro yn cynnwys aneddiadau gwledig a threfol penodol; trefi a phentrefi wedi'u rhannu'n dair ardal gymunedol - Y Barri, Dwyrain y Fro a Gorllewin y Fro. Y pedwar canol tref yn y Fro yw'r Barri, Penarth (Dwyrain y Fro), Llanilltud Fawr (Gorllewin y Fro) a'r Bont-faen (Gorllewin y Fro). Y Barri sydd â'r gyfran uchaf o boblogaeth Bro Morgannwg ac mae wedi'i dynodi'n ardal adfywio.
- Bu mudo net cadarnhaol yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gyda **Thabl 3.3** uchod yn dangos bod poblogaeth y Fro yn tyfu ar gyfradd gymharol uchel ar gyfer ei maint.
- Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) (2022) yn dangos bod angen tai fforddiadwy ar draws Bro Morgannwg, yn cynnwys 76% o lety rhent cymdeithasol, 18% o dai rhent canolradd, a 7% o dai rhent cost isel.[68] Mae'r angen am lety rhent cymdeithasol cyffredinol yn parhau i fod ar ei uchaf yn ardaloedd marchnad dai'r Barri a Phenarth a Llandochau, er bod lefelau amrywiol o angen am dai fforddiadwy ar draws yr awdurdod.
- Ar hyn o bryd, mae'r CDLl mabwysiedig yn nodi saith Lletem Las sy'n cadw cyfanrwydd a hunaniaeth aneddiadau allweddol. Mae'n bwysig bod y polisi hwn yn cael ei ddatblygu o fewn y CDLlN i gefnogi twf strategol a chynaliadwy ledled y Fro yn y tymor hir. Mae mynediad i wasanaethau yn fater allweddol, a bydd lleoliad cynaliadwy datblygiadau newydd yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall preswylwyr ddiwallu eu hanghenion o ddydd i ddydd trwy ddulliau teithio cynaliadwy.

[68] Cyngor Bro Morgannwg (2022); 'Asesiad o'r Farchnad Dai Leol'

# Amcanion ACI

3.49 O ystyried y materion allweddol a drafodir uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau gwrthrychol ac asesu canlynol:

| **Amcanion** | **Cwestiynau asesu –** a fydd yr opsiwn/cynnig yn helpu i: |
|---|---|
| Ddarparu digon o dai marchnad a thai fforddiadwy o ansawdd da, a seilwaith cymunedol, mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion a nodwyd? | • Diwallu'r anghenion tai a nodwyd, gan gynnwys anghenion tai fforddiadwy, pobl hŷn ac anghenion llety'r gymuned sipsiwn/teithwyr?<br>• Sicrhau cymysgedd priodol o feintiau, mathau a deiliadaethau anheddau i ddiwallu anghenion pob sector o'r gymuned, yn benodol y boblogaeth hŷn sy'n prysur cynyddu?<br>• Darparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n galluogi mynediad hawdd i amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau lleol?<br>• Hyrwyddo datblygiad sy'n canolbwyntio ar dramwyo fel y gymdogaeth 20 munud?<br>• Hyrwyddo datblygiad amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol hygyrch o ansawdd uchel, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol? |
| Gwella ansawdd dylunio er mwyn creu lleoedd prydferth naturiol i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaeth cymuned ac anheddiad. | • Gwella cysylltedd rhwng cymunedau a hwyluso rhyngweithio cymdeithasol?<br>• Hyrwyddo datblygiad amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol hygyrch o ansawdd uchel, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol?<br>• Diogelu a gwella hunaniaeth gymunedol a natur unigryw a chefnogi cyfleoedd ar gyfer hamdden a thwristiaeth?<br>• Atal aneddiadau rhag ymdoddi i'w gilydd a chadw natur agored tir, seilwaith gwyrdd a chysylltedd cynefinoedd? |

# 4. Iechyd a lles

4.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar iechyd cyffredinol y boblogaeth ym Mro Morgannwg, yn ogystal â mynediad i fannau agored a chyfleusterau chwarae, cyfleusterau gofal iechyd a theithio llesol. Mae hefyd yn cyfeirio at gelfyddyd gyhoeddus gan y profwyd bod y celfyddydau'n cyfrannu'n fawr at iechyd a lles pobl yn feddyliol ac yn gorfforol.

## Cyd-destun polisi

4.2 Mae **Tabl 4.1** yn cyflwyno'r dogfennau mwyaf perthnasol a nodwyd yn yr adolygiad polisi at ddibenion y CDLIN a'r ACI.

**Tabl 4.1 Cyd-destun polisi**

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn gyhoeddi |
|---|---|
| Deddf Cynllunio Cymru | 2015 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 2015 |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) | 2016 |
| Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol) | 2021 |
| Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) | 2021 |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) | 2017 |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | 2014 |
| Rheoliadau Ansawdd Aer Cymru | 2002 |
| Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach: Ymgorffori templed ar gyfer polisi cynllunio | 2021 |
| Siarter Creu Lleoedd Cymru | 2020 |
| Adeiladu Lleoedd Gwell | 2020 |
| Strategaeth Teithio Llesol Cymru | 2021 |
| Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR2020) | 2020 |
| Datganiad Ardal Canol De Cymru | 2017 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 11: Sŵn | 1997 |

| | |
|---|---|
| **Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 12:** Dylunio | 2016 |
| **Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 16: Chwaraeon, hamdden a mannau agored** | 2009 |
| **Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer ein cenhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol** | 2018 |
| **Asesiad Anghenion Poblogaeth Caerdydd a'r Fro** | 2017 |
| **Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda Caerdydd a'r Fro** | 2020 |
| **Cynllun Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro** | 2020 |
| **Asesiad Lles Drafft Bro Morgannwg** | 2021 |
| **Cynllun Lles Bro Morgannwg 2018 - 2021** | 2018 |
| **Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg** | 2017 |
| **CCA Celf Gyhoeddus mewn Datblygiadau Newydd** | 2018 |
| **Symud Ymlaen: Symud Mwy, Symud yn Amlach** | 2018 |
| **Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae** | 2019 |
| **Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd - Ail-ddychmygu Heneiddio i'r Dyfodol** | 2019 |

4.3 Crynhoir isod y negeseuon allweddol sy'n deillio o'r adolygiad:

- Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi'r fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir yng Nghymru, gan roi cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith / twf newydd. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod Bro Morgannwg o fewn rhanbarth De-ddwyrain Cymru, y lleiaf o'r pedwar rhanbarth yn ôl arwynebedd, sy'n cynnwys dinasoedd arfordirol Caerdydd a Chasnewydd a chyn-gadarnleoedd diwydiannol cymoedd De Cymru. Mae Cymru'r Dyfodol yn tynnu sylw at bwysigrwydd cysylltiadau'r rhanbarth â rhanbarthau Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru a rhanbarth Gorllewin Lloegr. Bydd hyrwyddo hygyrchedd a rhyng-gysylltiadau (h.y. trafnidiaeth gynaliadwy a chyflogaeth) ar draws y rhanbarthau, ynghyd â darparu'r seilwaith digidol angenrheidiol, o fudd i iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth. Yn ogystal, bydd cefnogi Bro Morgannwg fel ardal gyda gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol ynghyd â seilwaith digidol a gwyrdd yn cael effaith fuddiol ar les cyffredinol y trigolion.
- Bydd angen i'r CDLlN gydymffurfio'n gyffredinol â PCC sy'n ceisio sicrhau'n bennaf bod penderfyniadau cynllunio yn cefnogi pob agwedd ar les. Mae PCC yn gosod y cysyniad o wneud lleoedd wrth wraidd polisi cynllunio cenedlaethol i gyflwyno datblygiad newydd sy'n gynaliadwy ac yn darparu ar gyfer anghenion pob person.

- Ategir PCC gan NCTau, sy'n gwireddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy o fewn y system gynllunio a darparu polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas ag iechyd. Yn benodol bydd angen i'r CDLlN:
  - Gyfrannu at y gwaith o ddiogelu a, lle bo modd, wella iechyd a lles pobl fel elfen graidd cyflawni'r nodau lles ac ymateb i'r newid yn yr hinsawdd.
  - Bydd ystyried effeithiau posibl datblygu – y rhai cadarnhaol a/neu negyddol – ar iechyd pobl ar gam cynnar yn helpu i egluro perthnasedd iechyd a'r graddau y mae angen ei ystyried.
  - Dylid cynllunio polisïau cynlluniau datblygu i sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod datblygiadau sy'n sensitif i sŵn, fel ysbytai, ysgolion, a thai, sydd angen cael eu lleoli yn agos at y seilwaith trafnidiaeth presennol i hwyluso mynediad, wedi'u cynllunio mewn modd sy'n cyfyngu ar lefelau sŵn o fewn ac o amgylch y datblygiadau hynny; a
  - Dylai polisïau cynlluniau datblygu a phenderfyniadau o ran ceisiadau cynllunio ystyried amcanion ansawdd aer cenedlaethol, gan gydnabod eu bod yn cynrychioli trothwy pragmatig y mae'r llywodraeth, os yw'r lefel yn uwch na hwn, yn ystyried bod y risgiau i iechyd yn gysylltiedig â llygredd aer yn annerbyniol.
- Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn darparu canllawiau ar effeithiau iechyd sŵn a dangosyddion cenedlaethol a bennwyd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ynghyd â gwybodaeth o adroddiadau ansawdd aer blynyddol yr awdurdod lleol, mapiau sŵn cenedlaethol ac unrhyw ddatganiadau ardal a gyhoeddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Mae'r adroddiad Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach: Ymgorffori Templed ar gyfer Polisi Cynllunio yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol bras sy'n effeithio ar iechyd, lles ac anghydraddoldeb, ac yn rhoi canllawiau ar gyfer sut y gall polisïau a chynlluniau ymateb i'r materion hyn.
- Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru yn datblygu'r ffocws cynyddol ar greu lleoedd mewn polisïau ac arferion yng Nghymru a'r nod yw rhoi dealltwriaeth gyffredin o'r amrywiaeth o ystyriaethau a wneir wrth greu lleoedd. Mae'r siarter yn amlinellu'r chwe egwyddor creu lleoedd canlynol sy'n ymdrin â'r amrywiaeth o ystyriaethau sy'n cyfrannu at sefydlu a chynnal lleoedd da:
  - Pobl a'r gymuned.
  - Symudiad.
  - Lleoliad.
  - Tir cyhoeddus.
  - Cymysgedd o ddefnyddiau; a
  - Hunaniaeth.
- Mae Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[69] yn nodi 'Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol, artistig a hamdden eraill'.

[69] Unicef (dim dyddiad): 'Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy y ddolen hon

Roedd adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro, Symud Ymlaen: Symud Mwy, Symud yn Amlach (2018) yn pwysleisio pwysigrwydd chwarae'n actif i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant. Mae bod â lleoedd croesawgar, digon o amser a chwmni pobl eraill i chwarae bob dydd yn bwysig iawn i bob plentyn a'r rhai yn eu harddegau.

- Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd cynlluniau teithio llesol yn cael hwb ariannol o fwy na £53 miliwn fel rhan o ymdrechion y Llywodraeth i annog teithio iach. Yn ogystal, bydd disgyblion yn cael cymorth i gyrraedd yr ysgol trwy'r grant 'Llwybrau Diogel mewn Cymunedau', gan gefnogi cynlluniau ledled Cymru. Bydd hyn yn cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd ac a gytunwyd arnynt trwy'r gwahanol strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles a nodwyd yn **Nhabl 4.1** uchod.
- Yn 2020, cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Adfer yn sgil y Coronafeirws[70], sy'n nodi effeithiau cymdeithasol, economaidd a lles y pandemig ar gymunedau ac yn gosod ei flaenoriaethau allweddol. Mae hyn yn cefnogi Cynllun Corfforaethol y Fro 2020-2025. Yn benodol, mae amcanion yn cynnwys 'gweithio mewn partneriaeth i wneud y gorau o les corfforol a meddyliol pobl' a 'deall sut mae ein hamgylchedd yn cyfrannu at les unigol, cymunedol a byd-eang.'
- Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg wrthi'n gwneud cais am statws Sy'n Dda i Bobl Hŷn gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn y Fro. Bydd y statws hwn yn gydnabyddiaeth bod y Fro yn ardal lle mae pobl o bob oed yn gallu byw yn hapus ac yn iach, yn enwedig wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn. Roedd adroddiad 2019 Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro, Ail-ddychmygu Heneiddio i'r Dyfodol, yn pwysleisio effeithiau allweddol yr amgylchedd adeiledig a naturiol ar iechyd a lles pobl hŷn.

# Crynodeb sylfaenol

## Iechyd cyffredinol

4.4 Mae'r tueddiadau canlynol wedi'u nodi o ran iechyd cyffredinol ym Mro Morgannwg:[71,72]

- Mae oedolion ym Mro Morgannwg yn cofnodi iechyd da yn gyffredinol o'u cymharu â chyfoedion mewn rhannau eraill o Gymru.
- Ar gyfer menywod a dynion, mae Bro Morgannwg yn cofnodi un o'r disgwyliadau oes cyfartalog uchaf adeg eu geni.
- Mae cyfradd marwolaethau cynamserol o glefydau anhrosglwyddadwy ymhlith yr isaf yng Nghymru, a'r gyfradd marwolaethau y gellir eu hosgoi yw'r ail isaf yng Nghymru.
- Mae annhegwch clir o ran iechyd rhwng y rhai sy'n byw yn ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig Bro Morgannwg. Nid yn unig y disgwylir i'r rhai o ardaloedd mwy difreintiedig fyw am lai o flynyddoedd, ond yn ystod eu

[70]Cyngor Bro Morgannwg (2020): 'Strategaeth Adfer yn sgil y Coronafeirws', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy y ddolen hon
[71]Cyngor Bro Morgannwg (2020): 'Cynllun Corfforaethol'
[72]BGC Bro Morgannwg (2021): 'Asesiad Lles Bro Morgannwg – Adroddiad Iechyd a Chymunedau'

bywydau maent mewn mwy o berygl o ddioddef cyflyrau cronig, salwch hirdymor cyfyngol, cyflyrau iechyd meddwl ac, o ganlyniad, marwolaeth gynamserol.

- Yn gyffredinol, mae oedolion ym Mro Morgannwg yn cofnodi eu bod yn ymgymryd ag ymddygiadau iach uwchben cyfartaledd cenedlaethol Cymru. Ond mae yfed alcohol uwchben y canllawiau yn parhau'n bryder ym Mro Morgannwg, yn enwedig yng Ngorllewin y Fro.
- Mae gwahaniaethau o ran ymgymryd ag ymddygiad iach rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf a mwyaf, gyda'r rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn llai tebygol o ymgymryd ag ymddygiadau iach ac yn fwyaf tebygol o brofi canlyniadau iechyd gwael o ganlyniad.
- O ran lles, mae ychydig mwy o bobl ym Mro Morgannwg yn dweud eu bod yn fodlon ar le maent yn byw na chyfartaledd cenedlaethol Cymru.
- Erbyn 2035, amcangyfrifir y bydd dementia gan 3,311 o boblogaeth y Fro sy'n 65 oed ac yn hŷn.
- Bro Morgannwg sydd â'r raddfa isaf o ordewdra ymysg plant yng Nghymru, sef 7.1% yn ôl y Rhaglen Mesur Plentyndod. Mae'r cyfraddau uchaf yn yr ardaloedd â lefelau uwch o amddifadedd.
- Bro Morgannwg sydd â'r ganran uchaf o oedolion (16+) sy'n yfed dros y canllawiau cenedlaethol yng Nghymru. Credir bod 25.5% o oedolion yn y Fro yn yfed mwy na'r canllawiau cenedlaethol o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19.1%.

## Mannau agored a chyfleusterau chwarae

### Mannau agored

4.5 Gall mynediad i fannau agored fod â buddion sy'n feddyliol ac yn gorfforol. Felly, gall ardaloedd lle mae diffyg arwain at boblogaeth nad yw'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol anffurfiol, ynghyd ag effeithiau eraill sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb amgylcheddol. Yn hyn o beth, mae'r CDLl mabwysiedig yn dyrannu sawl man agored cyhoeddus gan gynnwys Glannau'r Barri, Parciau Gwledig dynodedig, caeau, a thir fferm. Dangosir mannau gwyrdd y Fro yn **Ffigur 4.1** drosodd, gyda Pharciau Gwledig a Thir Comin wedi'u nodi ar wahân.

4.6 Fel y dangosir yn **Ffigur 4.1**, mae mannau gwyrdd dynodedig yn gymharol ysbeidiol ar draws y Fro, gydag ardaloedd sylweddol o Dir Comin i'r dwyrain o'r Bont-faen ac o fewn Saint-y-brid yng ngogledd-orllewin y Fro.

4.7 Mae **Ffigur 4.1** yn dangos bod dau Barc Gwledig y Fro yn sylweddol o ran maint, sef Llynnoedd Cosmeston a Phorthceri, sydd yn ne-orllewin yr awdurdod.

4.8 Yn benodol, mae Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston, a ddynodwyd yn Barc Gwledig ym 1978, yn cwmpasu ardal o fwy na 100 hectar.[73] Mae'r Parc yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd hamdden anffurfiol yn agos i nifer fawr o drigolion Bro Morgannwg. O gwmpas dwy chwarel wedi'u boddi, mae'r parc

[73]Cyngor Bro Morgannwg (dim dyddiad): 'Parc Gwledig Llynoedd a Phentref Canoloesol Cosmeston', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy y ddolen hon

gwledig yn cynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac yn darparu amrywiaeth eang o gynefinoedd naturiol a rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid.


4.9 Mae 597 hectar o dir mynediad ar draws y Fro (lle gall pobl gerdded i unrhyw le, yn lle gorfod cadw at lwybrau llinellol), gyda 91 hectar o hyn yn goetir a reolir gan CNC. Mae cyfanswm o 2% o arwynebedd Bro Morgannwg yn dir mynediad.[74]

4.10 Mae gan y Fro hygyrchedd da i arfordir Cymru, gan gynnwys Arfordir Treftadaeth Morgannwg a Llwybr Arfordir Cymru Gyfan, y mae mynediad iddo'n cefnogi iechyd a lles.

4.11 Mae gan y celfyddydau nifer o fanteision sy'n cynnwys cyfrannu at iechyd a lles pobl yn feddyliol ac yn gorfforol. Gall celf gyhoeddus ychwanegu at ansawdd yr amgylchedd adeiledig gan wella ble a sut mae pobl yn byw. Gall mannau agored cyhoeddus ddarparu cyfleoedd i integreiddio celf gyhoeddus newydd ac mae nifer o enghreifftiau da o hyn yn y Fro.

[74] Cyfoeth Naturiol Cymru (dim dyddiad): 'Amgylchedd Bro Morgannwg, ar gael [ar-lein] i'w weld trwy **y ddolen hon**

## Ffigur 4.1 Mannau gwyrdd ac agored



### Cyfleusterau chwarae

4.12 Gall cael mynediad i fannau chwarae hamdden megis parciau a meysydd chwarae wella lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc a gall leihau'r risg o ordewdra. Gall mannau chwarae fod yn ffurfiol ac yn anffurfiol, a dylai fod yn hawdd cael mynediad iddynt.

4.13 Yn Asesiad a Chynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae Bro Morgannwg (2019) tynnwyd sylw at y ffaith fod rhai plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn cael trafferth cael mynediad i gyfleoedd chwarae oherwydd heriau fel teithio i'r cyfleuster. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod rhai plant a phobl ifanc o ardaloedd nad oeddent yng nghefn gwlad hefyd yn cael anawsterau wrth geisio manteisio ar gyfleoedd chwarae awyr agored ynglŷn â'u gallu i deithio i'r lleoliadau o'u dewis. Mae tynnu sylw at bwysigrwydd cael mynediad i wasanaethau trafnidiaeth dda yn gallu cael effaith uniongyrchol ar eu lles. Mae'r Asesiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith fod llawer o blant mewn aneddiadau gwledig a threfol o'r farn bod cyflwr offer chwarae yn wael.[75]

### Tyfu bwyd

4.14 Mae cael mynediad i amgylchedd bwyd sy'n hyrwyddo dewisiadau bwyd iach yn elfen hanfodol o fynd i'r afael â materion iechyd fel gordewdra, bod dros bwysau a chyflyrau cronig hirdymor. Gall amgylcheddau tyfu bwyd fod yn erddi preifat, yn rhandiroedd neu'n lleoedd tyfu bwyd y tu allan i adeiladau cymunedol.

4.15 Nodir bod y Cyngor hefyd yn cynnal deg safle rhandiroedd ledled y Fro. Mae wyth yn y Barri a dau yng Ngorllewin y Fro.


## Cyfleusterau gofal iechyd

4.16 Fel y dangosir yn **Ffigur 4.2** drosodd, mae cyfanswm o 28 fferyllfa, 21 meddygfa (13 practis ac 8 meddygfa gangen), 20 deintyddfa ac 20 siop optegydd yn y Fro. Mae cyfleusterau iechyd wedi'u lleoli'n bennaf o amgylch canol y Barri, y Bont-faen, Penarth a Llanilltud Fawr.

4.17 Mae **Ffigur 4.2** yn dangos bod dau ysbyty ym Mro Morgannwg hefyd, sef yn y Barri ac yn Llandochau.

[75] Ibid

## Ffigur 4.2 Cyfleusterau gofal iechyd



## Teithio llesol

4.18 Ystyr teithio llesol yw cerdded a beicio (gan gynnwys defnyddio sgwteri symudedd) ar gyfer teithiau pob dydd. Mae hyn yn cynnwys teithiau i'r ysgol, i'r gwaith, i'r siopau neu i gael mynediad i wasanaethau e.e. canolfannau iechyd neu hamdden.[76]

4.19 Mae darpariaeth seilwaith teithio llesol ym Mro Morgannwg ar gynnydd, ac yn gyffredinol mae lefelau perchnogaeth ceir yn gostwng. Fodd bynnag, defnydd ceir preifat yw'r dull pennaf o deithio yn yr awdurdod o hyd.[77] Gall gostyngiad yn y defnydd o geir a mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus ac opsiynau teithio llesol (cerdded a beicio) wella iechyd a lles, lleihau'r effeithiau negyddol ar yr amgylchedd y gall teithio mewn ceir eu hachosi, cynnig gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau a all, yn ei dro, gynnig cyfleoedd economaidd gwell a lleihau'r potensial ar gyfer damweiniau traffig.

4.20 Mae Cynllun Gweithredu Teithio Llesol Cymru Llywodraeth Cymru (2016)[78] yn nodi'r weledigaeth: *"I bobl yng Nghymru, rydyn ni eisiau i gerdded a beicio fod y ffordd a ffefrir o deithio pellterau byrrach."*

4.21 Mae **Ffigur 4.3** drosodd yn dangos helaethrwydd llwybrau cerdded a beicio ledled y Fro. Mae llwybrau teithio llesol yn seiliedig ar brif aneddiadau'r Fro, gan ddarparu opsiynau teithio cynaliadwy i gymunedau ar gyfer mynediad i ganolfannau lleol, gan hwyluso teithiau o ddydd i ddydd. Mae 544 cilometr o Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) yn ymestyn ar draws y Fro, gan gysylltu cymunedau a chefnogi lleoedd iach. Nodir bod 61 km o'r cyfanswm hwn yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru, a ddefnyddir yn arbennig ar gyfer hamdden a rhesymau cymdeithasol yn ogystal â theithio at ddibenion pob dydd.[79]

4.22 Fel y dangosir yn **Ffigur 4.3**, gyda 53 cilometr o arfordir, mae Bro Morgannwg yn ffurfio rhan annatod o Lwybr yr Arfordir sy'n ymestyn o Fae Caerdydd / Aber Elái yn y dwyrain i Afon Ogwr yn y gorllewin. Gan gydnabod y gwerth hamdden, ers 2007, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn gwella mynediad cyhoeddus i arfordir Cymru trwy ei Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir (RhGMA).[80] Agorwyd Llwybr Arfordir Cymru yn swyddogol ar 5 Mai 2012, ac ers hynny mae'r cynllun wedi parhau i wella hygyrchedd i gymunedau lleol ac ymwelwyr trwy wella llwybrau presennol a datblygu llwybrau newydd. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r rhaglen wedi creu llwybr cerdded a beicio o ansawdd uchel o amgylch arfordir Cymru.


4.23 Mae **Ffigur 4.3** hefyd yn dangos y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol sy'n ymestyn trwy orllewin a chanol y Fro, gan gysylltu â'r Barri yn y de, drwodd i Benarth. (Ymdrinnir ymhellach â hyn ym **Mhennod 7**.) Mae hyn yn cefnogi teithio llesol rhwng aneddiadau ymhellach. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gosod gorsafoedd E-feiciau ar draws Bro Morgannwg i annog y defnydd o deithio llesol.

[76] Cyngor Bro Morgannwg (dyddiad anhysbys) Hafan > Byw > Teithio Llesol ar gael [ar-lein] yn: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Transportation/Active-Travel.aspx
[77] 3ydd Adroddiad Monitro Blynyddol Cyngor Gorllewin Morgannwg (2021)
[78] Llywodraeth Cymru (2016): 'Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy y ddolen hon
[79] Cyfoeth Naturiol Cymru (dim dyddiad): 'Amgylchedd Bro Morgannwg, ar gael [ar-lein] i'w weld trwy **y ddolen hon**
[80] Cyngor Bro Morgannwg (2016); 'Cefndir a Diweddariad y Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy y ddolen hon


4.24 Mae'r **Ffigur 4.4** drosodd yn dangos mannau gwyrdd mewn perthynas â llwybrau teithio llesol, gan nodi hygyrchedd i'r mannau hyn trwy'r modd trafnidiaeth hwn.

4.25 Ymdrinnir ymhellach â seilwaith / darpariaeth trafnidiaeth gynaliadwy y Fro ym **Mhennod 7** yr adroddiad hwn.

## Ffigur 4.3 Darpariaeth teithio llesol bresennol (cerdded a beicio)



## Ffigur 4.4 Mannau gwyrdd a llwybrau teithio llesol



## Llinell sylfaen y dyfodol

4.26 Ceir anghydraddoldeb iechyd yn y Fro, nid dim ond o ran ffyrdd iach o fyw ond ar draws ystod eang o ddangosyddion sy’n cael effaith ar les unigolyn. Er enghraifft, mae sawl ardal yn rhan ddwyreiniol fwy difreintiedig y Barri lle mae cyrhaeddiad addysgol yn is, gan gysylltu â lefelau cyflogaeth is. Mae lefelau uchel o orboblogi ac mae niferoedd uchel o bobl â chyflyrau iechyd hirdymor. Mae mynediad i amgylcheddau iach, gan gynnwys seilwaith gwyrdd a mannau gwyrdd, yn dod yn fwyfwy pwysig, yn enwedig ers dechrau pandemig Covid-19, a arweiniodd at nifer uwch o bobl yn chwilio am fannau gwyrdd ar gyfer iechyd meddwl a chorfforol.

4.27 Felly, dylai'r CDLlN ganolbwyntio ar wella mynediad i fannau gwyrdd a chysylltedd â mannau gwyrdd sy'n cynnal a gwella rhwydweithiau teithio llesol a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd, a diwallu anghenion seilwaith cymunedol ac ati ledled y Fro. Mae hyn yn debygol o gefnogi gwelliannau hirdymor mewn pocedi o amddifadedd lle maen nhw'n bodoli, gan wella iechyd a lles cyffredinol y trigolion. Mae cydraddoldeb o ran mynediad i gyfleusterau, gwasanaethau, mannau gwyrdd, manwerthu a hamdden yn hanfodol i alluogi pobl i wella a chynnal iechyd a lles da.

4.28 Er yr ymddengys fod asedau gofal iechyd mewn lleoliadau cymharol dda yn ardal y cynllun, dylid ceisio galluogi mwy o hygyrchedd i'r rhai sydd yn y perygl mwyaf o ddioddef canlyniadau iechyd gwael, yn enwedig yn yr ardaloedd o amddifadedd uwch, fel yr ymdrinnir ag ef ym **Mhennod 5**.

## Prif faterion

4.29 Roedd yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth sylfaenol yn llywio’r broses o nodi sawl mater allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Mae iechyd cyffredinol trigolion Bro Morgannwg yn dda. Mae oedolion yn cofnodi iechyd da o gymharu â gwahanol ardaloedd yng Nghymru, ac ar gyfer merched a dynion, mae Bro Morgannwg yn cofnodi un o'r disgwyliadau oes cyfartalog uchaf adeg eu geni.
- Ceir mannau agored hygyrch i'r cyhoedd ledled y Fro gyda'r ddarpariaeth fwyaf yn y de-ddwyrain, oherwydd y ddau Barc Gwledig mawr sydd yno. Ond mae mannau agored yn yr ardaloedd trefol yn dameidiog gyda diffyg cysylltedd. Mae llawer o dir comin a mannau gwyrdd hefyd yng ngogledd-orllewin y Fro ger Saint-y-brid.
- Mae Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'r Cyngor yn tynnu sylw at y ffaith fod rhai plant a phobl ifanc mewn ardaloedd gwledig yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i gyfleoedd chwarae oherwydd eu gallu cyfyngedig i deithio i'r lleoliadau o’u dewis, a bod llawer o blant mewn aneddiadau gwledig a threfol o'r farn bod cyflwr yr offer chwarae yn wael.
- Mae rhwydweithiau teithio llesol yn dda, yn benodol mae'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn ymestyn ledled y Fro, gyda llwybrau teithio llesol lleol wedi’u seilio’n bennaf ar y prif aneddiadau. Mae'r ddarpariaeth hon yn cysylltu pobl a lleoedd, gan arwain at welliannau iechyd trwy newid moddol, yn enwedig ar gyfer teithiau byrrach. Mae'r Cyngor yn parhau i

ddatblygu rhwydwaith teithio llesol o fewn yr awdurdod trwy grant Llywodraeth Cymru a thrwy arian adran 106 a sicrhawyd gan y Cyngor fel rhan o ddatblygiadau newydd.

- Mae darpariaeth fawr o gyfleusterau gofal iechyd ym Mro Morgannwg. Mae cyfleusterau iechyd wedi'u lleoli'n bennaf o amgylch canol y Barri, y Bont-faen, Penarth a Llanilltud Fawr.

- Erbyn 2035, amcangyfrifir y bydd dementia gan 3,311 o boblogaeth y Fro sy'n 65 oed neu'n hŷn. Bydd y CDLl yn chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â'r mater hwn, yn enwedig trwy dai a chyfleusterau priodol i bobl sy'n perthyn i'r categori hwn.

# Amcanion ACI

4.30 O ystyried y materion allweddol a drafodir uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau gwrthrychol ac asesu canlynol:

| Amcanion ACI | Cwestiynau asesu – a fydd y cynllun / polisi yn helpu i: |
|---|---|
| Wella iechyd a lles trigolion Bro Morgannwg, trwy hyrwyddo lleoedd iach a chynaliadwy. | • Annog ffyrdd iach o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd trwy ddarparu mannau agored, mannau chwarae a mannau tyfu bwyd a chymunedol?<br>• Hyrwyddo mynediad da i gyfleusterau gofal iechyd, cymdeithasol a hamdden ar gyfer pob sector o'r gymuned?<br>• Gwella cysylltedd a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd amlswyddogaeth ledled ardal y cynllun?<br>• Darparu a gwella'r ddarpariaeth o ran mynediad cymunedol i fannau gwyrdd?<br>• Gwella mynediad i fannau agored, cefn gwlad a chyfleusterau hamdden?<br>• Cefnogi amgylcheddau iach/actif a chynhwysol?<br>• Cefnogi'r gwaith o greu cymunedau cydlynus, cysylltiedig?<br>• Darparu mannau chwarae ffurfiol ac anffurfiol a naturiol i blant sy'n ddiogel ac yn hawdd cael mynediad iddynt?<br>• Lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws y sir?<br>• Cefnogi teithio llesol a gwelliannau i ansawdd aer? |

# 5. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

5.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar ddemograffeg ac aelwydydd y boblogaeth ym Mro Morgannwg, yn ogystal ag amddifadedd, mynediad i wasanaethau a chyfleusterau.

## Cyd-destun polisi

5.2 Mae **Tabl 5.1** yn cyflwyno'r dogfennau mwyaf perthnasol a nodwyd yn yr adolygiad polisi at ddibenion y CDLIN a'r ACI.

**Tabl 5.1 Cynlluniau, polisïau a strategaethau a adolygwyd mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn gyhoeddi |
|---|---|
| Deddf Cynllunio Cymru | 2015 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 2015 |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) | 2016 |
| Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol) | 2021 |
| Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) | 2021 |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) | 2017 |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | 2014 |
| Rheoliadau Ansawdd Aer Cymru | 2002 |
| Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach: Ymgorffori templed ar gyfer polisi cynllunio | 2021 |
| Siarter Creu Lleoedd Cymru | 2020 |
| Adeiladu Lleoedd Gwell | 2020 |
| Strategaeth Teithio Llesol Cymru | 2021 |
| Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (AaSAN) | 2020 |
| Datganiad Ardal Canol De Cymru | 2017 |

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn gyhoeddi |
|---|---|
| **Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 12:** Dylunio | 2016 |
| **Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 16: Chwaraeon, hamdden a mannau agored** | 2009 |
| **Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022 - 2027** | 2022 |
| **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020** | 2017 |
| **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Bro Morgannwg 2016** | 2016 |
| **Asesiad Lles Drafft Bro Morgannwg 2021** | 2021 |
| **Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg** | 2017 |
| **Cynllun Lles Bro Morgannwg 2018-2023** | 2018 |
| **Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Bro Morgannwg** | 2016 |

5.3 Crynhoir isod y negeseuon allweddol sy'n deillio o'r adolygiad:

- Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi'r fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir yng Nghymru, gan roi cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith / twf newydd. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod gan Fro Morgannwg un o'r patrymau anheddu trefol mwyaf nodedig yn y DU, sydd ag anghenion cymdeithasol ac economaidd â phwyslais gwahanol, ac o'r herwydd dylai'r CDLlN nodi polisïau a chynigion sy'n adlewyrchu'r materion economaidd a chymdeithasol strwythurol sy'n effeithio ar ffyniant a lles trigolion. Mae'r CDS sy'n cael ei llunio ar gyfer De-ddwyrain Cymru hefyd yn ceisio mynd i'r afael â ffactorau rhanbarthol megis tai, cyflogaeth, a thrafnidiaeth ar draws y rhanbarth. Bydd cefnogi Bro Morgannwg fel ardal gyda gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol ynghyd â seilwaith digidol yn cael effaith fuddiol ar y gymuned leol.
- Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn amddiffyn pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu neu driniaeth annheg ar sail nodweddion personol penodol. Mae'r Ddeddf yn diffinio 'nodweddion gwarchodedig' y mae'n anghyfreithlon i wahaniaethu'n anuniongyrchol neu'n uniongyrchol yn eu herbyn, neu aflonyddu neu erlid mewn perthynas â nhw. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC) wedi'i nodi yn Adran 149 y Ddeddf, lle mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus geisio dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu. Mae'r Ddeddf yn esbonio bod 'sylw dyledus' ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys dileu neu leihau anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig, cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill, ac annog grwpiau gwarchodedig i gymryd

rhan mewn bywyd cyhoeddus a gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

- Nodir polisi cynllunio cenedlaethol yn PCC, y mae un o'i brif amcanion yn ymwneud â sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol Cymru. Mae hyn yn unol â gofynion Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol arall a dyletswyddau dilynol megis y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae PCC yn rhoi'r cysyniad o greu lleoedd wrth wraidd polisi cynllunio cenedlaethol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cynllunio yn ystyried pob agwedd ar les ac yn cyflawni datblygiadau newydd sy'n gynaliadwy ac sy'n darparu ar gyfer anghenion pawb.
- Ategir PCC gan NCTau, sy'n manylu ymhellach ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynllunio ar gyfer yr Iaith Gymraeg (NCT 20), ymhlith amcanion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cenedlaethol eraill.
- Mae Safonau'r Gymraeg yn gosod gofyniad ar awdurdodau lleol yng Nghymru i lunio Strategaeth Iaith Gymraeg leol sy'n amlinellu sut y byddant yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hardal. Mae Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Bro Morgannwg yn cynnwys cynllun gweithredu pum mlynedd sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd cymunedol a chyhoeddus a chodi ymwybyddiaeth o'i phwysigrwydd fel rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad yr ardal.
- Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ceisio hyrwyddo twf cryf, cynaliadwy a chytbwys ledled y rhanbarth, gan ymrwymo i ddull partneriaeth o ymdrin â thai ac adfywio. Nod y fargen yw annog buddsoddiad a chreu amgylchedd cyfle cyfartal yn y deg awdurdod lleol a phartneriaid allweddol eraill o fewn ei ffiniau. Dylai'r CDLl Newyddd nodi polisïau a chynigion ar gyfer hyrwyddo twf cynaliadwy o fewn yr ardal er budd ei phoblogaeth breswyl.
- Dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010), rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi'r amcanion a'r blaenoriaethau y mae'n dymuno eu cyflawni dros gyfnod o bedair blynedd. Gelwir y blaenoriaethau hyn yn "Amcanion Cydraddoldeb". Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Bro Morgannwg yn disgrifio'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i gyflawni ei ddyletswyddau o ran Deddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswyddau penodol Cymru.
- Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru yn datblygu'r ffocws cynyddol ar greu lleoedd mewn polisïau ac arferion yng Nghymru a'r nod yw rhoi dealltwriaeth gyffredin o'r amrywiaeth o ystyriaethau a wneir wrth greu lleoedd. Mae'r siarter yn amlinellu'r chwe egwyddor creu lleoedd canlynol sy'n ymdrin â'r amrywiaeth o ystyriaethau sy'n cyfrannu at sefydlu a chynnal lleoedd da:
  - Pobl a'r gymuned.
  - Symudiad.
  - Lleoliad.
  - Tir cyhoeddus.

    - Cymysgedd o ddefnyddiau; a
    - Hunaniaeth.
  - Mae Briff ar Hunaniaeth Rhywedd yng Nghymru, a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Rhagoriaeth LHDT, yn cynnig argymhellion clir ar gyfer cefnogi'r gymuned LHDT a'u mynediad i dai yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2020).
  - Mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru drawslywodraethol yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau strwythurol presennol a brofir gan gymunedau LHDTC+, i herio gwahaniaethu ac i greu cymdeithas lle mae pobl LHDTC+ yn ddiogel i fyw a charu'n ddiffuant, yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar ymateb i anghenion, amrywiaeth a gwendidau penodol ein cymunedau LHDTC+.
- Yn gyffredinol mae Bro Morgannwg yn gymharol gyfoethog ac mae gan lawer o drigolion safon byw uchel. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylweddol mewn disgwyliad oes rhwng rhai ardaloedd ym Mro Morgannwg, a rhai anghydraddoldebau iechyd sylweddol. Bro Morgannwg sydd â'r gwahaniaeth mwyaf mewn disgwyliad oes iach i ferched rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf a mwyaf yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae ardaloedd sydd â lefelau uchel o amddifadedd yn ne-ddwyrain yr awdurdod, yn enwedig y Barri.

# Crynodeb sylfaenol

## Cymunedau

5.4 Ystyrir bod Bro Morgannwg yn ardal gefnog a deniadol i fyw a gweithio ynddi (gweler **Pennod 2** a **Phennod 3** uchod), ond ceir pocedi o dlodi ac amddifadedd yno hefyd. Adlewyrchir y rhain trwy Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019. Mae'r MALlC yn ystadegyn cenedlaethol a ddyluniwyd i nodi'r ardaloedd bach yng Nghymru sydd â'r amddifadedd mwyaf.[81]

5.5 Mae'r MALl yn sgorio pob ardal fach yng Nghymru o 1 (â'r amddifadedd mwyaf) i 1,909 (â'r amddifadedd lleiaf). Gelwir yr ardaloedd bach fel arall yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI). Mae'r ddaearyddiaeth hon wedi'i hadeiladu o ddata'r cyfrifiad ac mae'n cynrychioli lleoliadau bach y mae pob un â phoblogaeth o tua 1,600 o bobl. Gan fod yna 1,909 AGEHI yng Nghymru, mae 190 AGEHI o fewn y 10% sydd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru.[82]

5.6 Mae 79 AGEHI yn y Fro, fel y dangosir yn **Ffigur 5.1** drosodd, sy'n mapio data pennawd diweddaraf MALlC (2019). Mae cyfran sylweddol o'r Fro yn dod o fewn y 20% o ACEHI sydd â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru, gyda'r Bont-faen a dwyrain Penarth yn enwedig yn rhan o'r 10% o ACEHI â'r amddifadedd lleiaf.


5.7 Mae amddifadedd yn amrywio ar draws yr awdurdod, gydag ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn y Barri ac i'r gogledd / dwyrain ohoni. Mae'r tair AGEHI â'r amddifadedd mwyaf yn y Fro i'w cael yn y Barri a'r cyffiniau, ac maent yn rhan o'r 10% o ACEHI sydd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Y rhain yw:[83]

[81] Llywodraeth Cymru (2020): 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) Canllaw ar ddadansoddi data dangosyddion, 2019 ymlaen', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy y ddolen hon
[82] Ibid.
[83] Llywodraeth Cymru (2019): 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy y ddolen hon

- Gibbonsdown 2 (wedi'i rhestru'n 105 o 1909 AGEHI yng Nghymru).
- Llys 3 (wedi'i rhestru'n 142 o 1909 AGEHI yng Nghymru); a
- Buttrills 2 (wedi'i rhestru'n 186 o 1909 AGEHI yng Nghymru).

5.8 Ceir hefyd sawl AGEHI yn y Barri a'r cyffiniau sydd o fewn y 20% - 40% o'r ACEHI â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Fel arall, y tu hwnt i'r Barri a de-ddwyrain ardal y CDLlN, dim ond pedair AGEHI sydd ar draws y Fro sydd o fewn y 50% o'r ACEHI â'r amddifadedd mwyaf.

## Ffigur 5.1 MALI Bro Morgannwg 2019



5.9 Mae **Tabl 5.2** isod yn rhoi dadansoddiad cryno o lefelau amddifadedd ar draws Bro Morgannwg o 2008 i 2019. Fel y dangosir yn **Nhabl 5.2**, mae gan y Fro dair AGEHI yn y Barri sydd wedi'u rhestru o fewn y 10% o'r ACEHI â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru ers 2008. Mae nifer yr ACEHI yn y Fro sydd wedi'u rhestru yn yr 20% a'r 30% o'r rhai â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru wedi cynyddu ers 2018; fodd bynnag, mae nifer yr ACEHI sydd wedi'u rhestru yn y 50% o'r rhai â'r amddifadedd mwyaf wedi gostwng.

**Tabl 5.2 Dadansoddiad MALIC Bro Morgannwg 2008 - 2019**[84]

| Blwyddyn | Cyfanswm yr ACEHI | Yn y 10% o'r ACEHI â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru (safle 1-191) | Yn y 20% o'r ACEHI â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru (safle 1-382) | Yn y 30% o'r ACEHI â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru (safle 1-573) | Yn y 50% o'r ACEHI â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru (safle 1-955) |
|---|---|---|---|---|---|
| 2008 | 78 | 3 | 8 | 14 | 31 |
| 2011 | 78 | 6 | 13 | 18 | 36 |
| 2014 | 79 | 5 | 15 | 19 | 37 |
| 2019 | 79 | 3 | 10 | 15 | 28 |

5.10 Mae adroddiad MALIC 2019 yn nodi bod Bro Morgannwg yn un o 12 Awdurdod Lleol yng Nghymru heb unrhyw ardaloedd bach o amddifadedd sefydledig. Mae'n bwysig nodi nad oes gan ardal ei hun amddifadedd: amgylchiadau a ffyrdd o fyw'r bobl sy'n byw yno sy'n effeithio ar sgôr amddifadedd yr ardal ac mae'n bwysig cofio nad yw pawb sy'n byw mewn ardal o amddifadedd yn ddifreintiedig - ac nad yw pob person difreintiedig yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd.[85]

5.11 Mae amddifadedd ledled y Fro wedi cael ei archwilio trwy Gynllun Corfforaethol Bro Morgannwg (2020). Yn benodol:[86]

- Amcangyfrifir bod 13% (17,181) o bobl yn byw mewn amddifadedd incwm - sy'n is na chyfartaledd Cymru.
- Gellir gweld gwahaniaethau gwirioneddol rhwng ardaloedd; mewn rhai ardaloedd lle mae mwy o amddifadedd, amcangyfrifir bod 38% o bobl yn byw mewn amddifadedd incwm.
- Mewn rhai o'r ardaloedd lle mae mwy o amddifadedd, amcangyfrifir bod 53% o blant yn byw mewn tlodi.
- Mae i'r Fro ganran is na'r cyfartaledd o aelwydydd gorlawn; fodd bynnag, mae ardaloedd yn nwyrain y Barri yn dangos y cyfraddau uchaf o aelwydydd gorlawn ac yn fwy na dwywaith cyfartaledd Cymru mewn rhai ACEHI.

[84] MALIC 2008 - 2019
[85] Ibid.
[86] Cynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg (2020)

## Data cydraddoldeb

5.12 Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion gwarchodedig yw anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw (rhywedd) ac oedran.

### Beichiogrwydd

5.13 O ran beichiogrwydd a mamolaeth, mae data cenedlaethol diweddar yn dangos bod 4% o'r 29,728 o enedigaethau yng Nghymru (2019) yn digwydd i famau dan 20 oed, sef y gyfradd isaf ar gofnod.[87] Roedd 30% ohonynt i famau rhwng 30 a 34 oed, ac roedd 0.2% i famau dros 45 oed.

### Priodas a phartneriaeth sifil

5.14 Gan adlewyrchu data Trefniadau Byw, yn 2011 fe wnaeth 49.1% o drigolion Bro Morgannwg gofnodi eu bod nhw'n briod.[88] Mae hyn yn gynnydd ar y 46.4% a gofnodwyd yn 2001. Fe wnaeth 30.8% o bobl yn 2011 gofnodi eu bod yn sengl, heb briodi neu erioed wedi cofrestru mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw[89] o gymharu â 25.3% a gofrestrodd eu bod yn sengl (erioed wedi priodi) yn 2001.

5.15 Mae data blynyddol Arolwg y Boblogaeth rhwng 2018 a 2020 ar gael ar y lefel ranbarthol, sy'n dangos y gwnaeth 47.3% o bobl oedd yn byw yn Ne-ddwyrain Cymru gofnodi eu bod yn briod. Mae hyn yn cymharu â 50% ar gyfer Gogledd Cymru, a 48% ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru.[90]

### Dosbarthiad oedran

5.16 Mae data nodweddion oedran a gymerir o'r Cyfrifiad yn dangos poblogaeth sy'n heneiddio ledled Cymru. Rhwng Cyfrifiad 2001 a 2011 mae pob ardal Awdurdod Lleol ar draws Cymru wedi cofnodi twf poblogaeth mewn categorïau oedran hŷn. Mae Bro Morgannwg yn dilyn y duedd genedlaethol hon, gyda thwf sylweddol yn y grwpiau oedran 60 i 64, 65 i 74, 75 i 84 a 90 a hŷn rhwng 2001 a 2011.[91]

5.17 Yn ôl amcangyfrifon 2020[92], mae 20.6% o boblogaeth Bro Morgannwg rhwng 0 a 17 oed, mae 58.1% rhwng 18 a 64 oed, a 21.3% yn 65 oed ac yn hŷn. Mae'r ffigur ar gyfer y grŵp oedran olaf yn uwch na chyfartaledd y DU o 18.6%, ond yn debyg i gyfartaledd Cymru o 21.1%, sy'n nodi bod gan Gymru, gan gynnwys Bro Morgannwg, boblogaeth fawr o bobl hŷn.

### Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd

5.18 Fel y nodir uchod ym **Mhennod 3**, yn 2020 roedd ychydig yn fwy o ferched (51%) na dynion (49%) yn byw yn y Fro, sy'n cyd-fynd â'r ffigurau ar gyfer Cymru gyfan. [93]

---

[87] Nomis (2019): 'Genedigaethau byw yng Nghymru a Lloegr yn ôl rhyw a nodweddion y fam: cenedlaethol / rhanbarthol', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy y ddolen hon
[88] Cyngor Bro Morgannwg (2021): 'Asesiad Lles 2021 – Adroddiad Demograffig'
[89] Ibid.
[90] StatsCymru (2020): Statws Priodasol Fesul Rhanbarth ar gael [ar-lein]: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Marital-status/maritalstatus-by-region
[91] Daeth y Ddeddf Partneriaeth Sifil i rym yn 2005. Yn 2011, cofnododd 0.2% o'r ymatebwyr (185 o bobl) eu bod mewn partneriaeth sifil gofrestredig o'r un rhyw ym Mro Morgannwg.
[92] Poblogaeth y Ddinas (dim dyddiad): 'Y Deyrnas Unedig: Adran Weinyddol', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy y ddolen hon
[93] Cyngor Bro Morgannwg (2021): 'Asesiad Lles 2021 – Adroddiad Demograffig'

5.19 Gan adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol, mae'r rhaniad rhwng y rhywiau ym Mro Morgannwg yn y grwpiau oedran 0-15 a 16-64 oed bron yn 50:50.[94]

5.20 Yn 2019, roedd 4% o Dde-ddwyrain Cymru yn nodi eu bod yn perthyn i'r gymuned LHDT (hoyw, lesbiaid, deurywiol neu arall). Mae hyn yn fwy na Chanolbarth a De-Orllewin Cymru (2.7%), Gogledd Cymru (1.8%), a Chymru gyfan (3.1%).[95]

5.21 Ers cyhoeddi'r Papur Safle Data Traws (2009), mae agweddau gwahanol ar hunaniaeth rhywedd wedi cael eu cydnabod ar lefel genedlaethol. Rhagwelir y bydd Cyfrifiad 2021 yn cynnwys cwestiynau gwirfoddol sy'n dangos dealltwriaeth fwy cynnil o gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. Mae'r grwpiau hyn yn fwy agored i wahaniaethu oherwydd eu statws lleiafrifol.

5.22 Mae canfyddiadau allweddol ymchwil Stonewall i droseddau a gwahaniaethu ar sail casineb LHDT yng Nghymru (2017) gan gynnwys y canlynol:[96]

- Mae bron un o bob pedwar person LHDT wedi profi trosedd neu ddigwyddiad casineb oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol a/neu hunaniaeth rhywedd yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Mae hanner y bobl draws wedi profi trosedd neu ddigwyddiad casineb oherwydd eu hunaniaeth rhywedd yn ystod y 12 mis diwethaf, ac mae un o bob pum person LHD nad ydynt yn draws wedi profi trosedd casineb neu ddigwyddiad oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol yn yr un cyfnod.
- Mae nifer y bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yng Nghymru sydd wedi profi troseddau casineb wedi cynyddu 82% mewn pum mlynedd, o 11% yn 2013 i 20% yn 2017.
- Ni wnaeth pedwar o bob pum person LHDT a brofodd drosedd neu ddigwyddiad casineb adrodd amdano i'r heddlu.
- Mae tri o bob deg person LHDT yn osgoi rhai strydoedd am nad ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel yno fel person LHDT.
- Ni fyddai dau o bob pum person LHDT yn teimlo'n gyfforddus wrth gerdded i lawr y stryd yn dal llaw ei bartner. I ddynion hoyw, mae hyn yn codi i dri o bob pump (57%).
- Mae un o bob deg o bobl LHDT wedi profi camdriniaeth homoffobig, deuffobig neu drawsffobig neu ymddygiad ar-lein wedi'i gyfeirio tuag atynt yn bersonol yn y mis diwethaf. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i un o bob pedwar person traws sydd wedi profi camdriniaeth neu ymddygiad trawsffobig.

5.23 Mae ymchwil ehangach i wahaniaethu yng Nghymru yn dangos bod cyfran fawr o breswylwyr yng Nghymru sydd wedi dioddef o wahaniaethu yn nodi mai'r prif reswm dros wahaniaethu yn eu herbyn yw lle maent yn byw (15.7%), ac yna eu cenedligrwydd (11.4%), eu hoedran (10.6%) a phroblem iechyd/anabledd (9.7%).

[94] Ibid.
[95] StatsCymru (2019): 'Hunaniaeth rywiol yn ôl rhanbarth', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy y ddolen hon
[96] Stonewall (2017): 'LGBT in Wales: Hate Crime and Discrimination', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy y ddolen hon

### Hil ac ethnigrwydd

5.24 Fel y'i mesurir gan Arolwg Blynyddol y Boblogaeth, mae canran y bobl sy'n cofnodi eu bod yn Ddu, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig ym Mro Morgannwg wedi bod rhwng 2% a 3% ers 2005. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2020, amcangyfrifwyd bod 2.1% o boblogaeth Bro Morgannwg yn dod o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig, sy'n cymharu â 5.5% ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa ar lefel genedlaethol Cymru lle mae canran y bobl sy'n cofnodi eu bod yn Ddu, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig wedi bod yn cynyddu'n raddol.[97]

5.25 Mae data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion wedi dangos bod y rhan fwyaf (17,055 o ddisgyblion 5 oed a hŷn ym Mro Morgannwg) yn 2019/2020 yn nodi mai 'Gwyn Prydeinig' oeddent; yr ail gefndir ethnig mwyaf oedd 'Unrhyw Gefndir Gwyn Arall' (10,385 o ddisgyblion), yna 'Unrhyw gefndir cymysg arall', (4,950 o ddisgyblion) ac 'Unrhyw gefndir ethnig arall' (4,620 o ddisgyblion). [98]

### Crefydd

5.26 Fel y dangosir yn **Nhabl 5.3** isod, mae llawer o drigolion y Fro yn nodi eu bod yn Gristnogion (58.1%), ac yna dim crefydd (32.9%). Mae hyn yn cyd-fynd a'r ffigurau cyfartalog i Gymru. Fodd bynnag, mae poblogaeth Fwslimaidd Bro Morgannwg yn llawer llai na ffigurau cyfartalog Cymru, gyda'r nifer sy'n nodi 'crefydd arall' ychydig yn uwch.[99]

#### Tabl 5.3: Hunaniaeth grefyddol[100]

| | Bro Morgannwg | Cymru |
|---|---|---|
| **Cristion** | 58.1% | 57.6% |
| **Bwdhydd** | 0.3% | 0.3% |
| **Hindŵ** | 0.2% | 0.3% |
| **Iddew** | 0.1% | 0.1% |
| **Mwslim** | 0.6% | 1.5% |
| **Sîc** | 0.1% | 0.1% |
| **Crefydd arall** | 1.1% | 0.4% |
| **Dim crefydd** | 32.9% | 32.1% |
| **Crefydd heb ei nodi** | 7.4% | 7.6% |

### Anabledd

5.27 Amcangyfrifir mai nifer y bobl rhwng 16 a 64 oed sy'n nodi eu bod yn anabl ym Mro Morgannwg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021 yw

[97] Cyngor Bro Morgannwg (2021): 'Asesiad Lles 2021 – Adroddiad Demograffig'
[98] Ibid.
[99] SYG, 2011. Data Cyfrifiad 2011 (KS209EW). Caiff y data hwn ei ddiweddaru pan fydd mwy o ddata cyfredol ar gael.
[100] SYG, 2011. Cyfrifiad 2011.

13,900.[101] Mae'r rhaniad rhwng y rhywiau yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 yn dangos, yn ôl amcangyfrifon, fod mwy o fenywod yn nodi eu bod yn anabl (8,400) na dynion (5,500).

## Y Gymraeg

5.28 Mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Cymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chefnogi a'i hannog ym mhob cwr o Gymru.

5.29 Yn 2011, datgelodd y Cyfrifiad fod 8.2% o'r boblogaeth ym Mro Morgannwg yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 14.6%. Nid oedd gan 83.7% o boblogaeth y Fro (tua 122,018 o bobl) unrhyw sgiliau iaith Gymraeg o gwbl, o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 73.4% o'r boblogaeth.

5.30 Dengys **Tabl 5.4** drosodd fod 18.8% o drigolion Bro Morgannwg yn 2020 yn siarad Cymraeg, sy'n llai na'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru (29.2%), a llai nag awdurdodau cyfagos i'r dwyrain: Caerdydd (24.8%) a Chasnewydd (20.8%). Fodd bynnag, mae ychydig yn fwy o'r trigolion yn siarad Cymraeg ym Mro Morgannwg nag yn yr awdurdod cyfagos i'r gorllewin, Pen-y-bont ar Ogwr (18.5%).[102]

**Tabl 5.4 Canran y bobl 3 oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl awdurdodau lleol Cymru[103]**

[101] Nomis (2020): 'Arolwg Blynyddol y Boblogaeth / Arolwg o'r Gweithlu', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy y ddolen hon
[102] Cyfrifiad 2011, ar gael [ar-lein] i'w weld trwy y ddolen hon
[103] StatsCymru (2021): 'Arolwg Blynyddol y Boblogaeth – Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy y ddolen hon

| Awdurdod | Canran (%) | Awdurdod | Canran (%) |
|---|---|---|---|
| **Cymru** | 29.2 | **Abertawe** | 20.6 |
| **Ynys Môn** | 66.3 | **Castell-nedd Port Talbot** | 22.0 |
| **Gwynedd** | 76.4 | **Pen-y-bont ar Ogwr** | 18.5 |
| **Conwy** | 37.5 | **Bro Morgannwg** | 18.8 |
| **Sir Ddinbych** | 34.3 | **Caerdydd** | 24.8 |
| **Sir y Fflint** | 23.2 | **Rhondda Cynon Taf** | 21.1 |
| **Wrecsam** | 26.2 | **Merthyr Tudful** | 18.0 |
| **Powys** | 25.2 | **Caerffili** | 25.4 |
| **Ceredigion** | 60.9 | **Blaenau Gwent** | 16.5 |
| **Sir Benfro** | 32.1 | **Torfaen** | 19.3 |
| **Sir Gâr** | 52.6 | **Sir Fynwy** | 16.4 |
| **Casnewydd** | 20.8 | | |

## Llinell sylfaen y dyfodol

5.31 Mae canfyddiadau’r Asesiad Lles yn dangos yr amrywiaeth eang o ffactorau sy’n cyfrannu at greu anghydraddoldebau sy’n bodoli yn y Fro a’r ffactorau cymhleth a chysylltiedig sydd oll yn cyfrannu at les gwaeth mewn ardaloedd o amddifadedd. Bydd yn bwysig i'r CDLIN gymryd ymagwedd gyfannol at wella lles o fewn cymunedau’r awdurdod lle mae mwy o amddifadedd, gan hyrwyddo, cryfhau a gwella hunaniaeth ddiwylliannol yn unol ag amcanion cenedlaethol.

5.32 Mae adfywio economaidd, ynghyd ag adfywio cymunedol, yn ffactorau allweddol all drawsnewid cymdogaethau lleol a bywydau pobl leol. Felly dylai datblygiad newydd ledled y Fro ganolbwyntio ar leihau'r bwlch rhwng yr ardaloedd lleiaf a mwyaf cyfoethog, trwy fynd i'r afael â meysydd gweithgarwch pob dydd gan gynnwys cyflogaeth, iechyd, tai, addysg, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd. Yn ogystal, cydnabyddir bod gan y Fro boblogaeth sy'n heneiddio, ac felly bydd yn bwysig sicrhau y gall gwasanaethau ddiwallu anghenion newidiol y boblogaeth wrth iddi heneiddio.

5.33 Mae’n debygol mai’r ffordd fwyaf uniongyrchol o ddylanwadu ar gydlyniant cymunedol yw trwy bolisïau manwl sydd â'r manylder i ddarparu ymatebion penodol mewn lleoliadau penodol. Yn absenoldeb y CDLIN, mae'n bosibl y gallai cyfleoedd gael eu colli i fynd i'r afael â materion ar lefel leol, ac yn strategol ar draws y fwrdeistref sirol.

# Prif faterion

5.34 Roedd yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth sylfaenol yn llywio’r broses o nodi sawl mater allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Mae Bro Morgannwg yn arddangos amrywiaeth economaidd-gymdeithasol sylweddol gyda rhai o'r cymunedau mwyaf cyfoethog a’r rhai â’r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Mae tair o'r ardaloedd â’r amddifadedd mwyaf yng Nghymru yn y Barri a’r cyffiniau, fel y dangosir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 diweddaraf. Mae data 2019 yn dangos bod anghydraddoldebau yn bodoli yn y Fro, nid yn unig yn gysylltiedig â ffyrdd iach o fyw ond ar draws ystod eang o ddangosyddion sy'n effeithio ar les unigolyn. Gall ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig chwarae rhan enfawr o ran cyfrannu at ein lles a dengys tystiolaeth fod llawer o ardaloedd o amddifadedd yn y Fro ag amgylchedd o ansawdd wael a llai o fynediad at fannau gwyrdd.
- Yr ardaloedd yn y Fro sydd â’r incwm aelwyd isaf yw’r un rhai hefyd sydd â’r cyfraddau cyflogaeth isaf, a’r rhai sydd â’r lefel isaf o ran cyrhaeddiad addysgol. Gall dylanwad ffactorau economaidd-gymdeithasol yn y blynyddoedd cynnar fod yn allweddol wrth bennu cyfleoedd bywyd cenedlaethau’r dyfodol.
- Dim ond cyfran fach o drigolion sydd o fewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig, hiliol a chrefyddol; fodd bynnag, gellid dadlau bod dibynadwyedd y data hwn yn ansicr.
- O gymharu â'r ffigur ar gyfer Cymru (29.2%), yn 2020, mae cyfran is o'r boblogaeth yn y Fro (18.8%) yn siaradwyr Cymraeg. Gallai hyn awgrymu lefel uwch o Seisnigeiddio na rhanbarthau eraill Cymru.
- Mae gan y Fro boblogaeth sy'n heneiddio, ac felly bydd yn bwysig sicrhau y gall cynigion datblygu yn y dyfodol o fewn y CDLlN a'r gwasanaethau a ddarperir ddiwallu anghenion newidiol y boblogaeth wrth iddi heneiddio.

# Amcanion ACI

5.35 O ystyried y materion allweddol a drafodir uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau gwrthrychol ac asesu canlynol:

| Amcanion ACI | **Cwestiynau asesu –** a fydd y cynllun / polisi yn helpu i: |
|---|---|
| Leihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol | • Lleihau anghydraddoldebau ac amddifadedd ar draws Bro Morgannwg, yn enwedig yn y wardiau â'r amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd o amddifadedd cudd?<br>• Gwella cyfle cyfartal ymhlith y grwpiau cymdeithasol hynny sydd â'r angen mwyaf?<br>• Cyfrannu at leihad mewn troseddu, anhrefn gymdeithasol ac ofn troseddu, gan hyrwyddo cymdogaethau mwy diogel?<br>• Hyrwyddo, cryfhau a gwella egwyddorion creu lleoedd?<br>• Diogelu a darparu gwell cyfleusterau lleol, cymdeithasol a hamdden a mynediad i'r amgylchedd naturiol ar gyfer pob sector o'r gymuned, a gwella mynediad iddynt er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol a lles cymdeithasol?<br>• Sicrhau cymysgedd priodol o feintiau, mathau a deiliadaethau anheddau i ddiwallu anghenion pob sector o'r gymuned?<br>• Darparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n galluogi mynediad hawdd i amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau lleol?<br>• Hyrwyddo gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog y Fro a chynyddu datblygiad a defnydd o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg?<br>• Cefnogi'r boblogaeth sy'n heneiddio i sicrhau nad yw pobl hŷn yn cael eu hallgáu'n gymdeithasol? |

# 6. Newid yn yr hinsawdd (lliniaru ac addasu)

6.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar weithgareddau yn ardal y CDLlN sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, yn ogystal ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys risg llifogydd, ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

## Cyd-destun polisi

6.2 Mae **Tabl 6.1** yn cyflwyno'r dogfennau mwyaf perthnasol a nodwyd yn yr adolygiad polisi at ddibenion y CDLlN a'r ACI.

**Tabl 6.1 Cynlluniau, polisïau a strategaethau a adolygwyd mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd**

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn gyhoeddi |
|---|---|
| Deddf Newid yn yr Hinsawdd y DU | 2008 |
| Rhaglen Addasu Genedlaethol y DU (ail fersiwn) 2018 i 2023 | 2018 |
| Deddf Cynllunio Cymru | 2015 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) | 2015 |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) | 2016 |
| Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol) | 2021 |
| Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) | 2021 |
| Canllawiau Statudol Cynlluniau Draenio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (SUDS) | 2019 |
| Datganiad Ardal Canol De Cymru | 2017 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 12: Dylunio | 2016 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol | 2021 |
| Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio | 2021 |
| Asesiad o Risgiau Newid yn yr Hinsawdd y DU | 2022 |
| Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy | 2014 |

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn gyhoeddi |
|---|---|
| Lleihau allyriadau carbon yng Nghymru | 2020 |
| Y Srategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru | 2020 |
| Ffyniant i Bawb:  Cymru Carbon Isel | 2019 |
| Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-Net | 2021 |
| Siarter Creu Lleoedd Cymru | 2020 |
| Strategaeth Ynni Prifddinas-Ranbarth Caerdydd | 2020 |
| Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (AaSAN) | 2020 |
| Tuag at Ddyfodol Diwastraff | 2019 |
| Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Ardal Basn Afon Hafren | 2016 |
| Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Basn Afon Gorllewin Cymru | 2015 |
| Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd | 2013 |
| Cynllun Rheoli Carbon Bro Morgannwg | 2018 |
| Cynllun Her Prosiect Sero | 2021 |
| Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg | 2017 |
| Siarter Argyfwng Hinsawdd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg | 2021 |
| CCA Ynni Adnewyddadwy Bro Morgannwg | 2019 |
| Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd Cyngor Bro Morgannwg | 2021 |

6.3 Crynhoir isod y negeseuon allweddol sy'n deillio o'r adolygiad:

- Mae Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn darparu fframwaith ar lefel y DU o ran yr angen i liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn gosod targed sy'n gyfreithiol rwymol i leihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwyrdd (NTG) y DU o 80% erbyn 2050 o'u cymharu â 1990 ac mae angen pennu rhaglen dreigl o gyllidebau carbon i gyflawni hyn. Dylai'r CDLIN nodi polisïau a chynigion i leihau effeithiau amgylcheddol o ddatblygiad newydd a

hyrwyddo defnydd o dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel a lleihau allyriadau NTG.

- Mae Cymru’r Dyfodol yn nodi'r fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir yng Nghymru, gan roi cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith / twf newydd. Mae Cymru'r Dyfodol yn darparu fframwaith ar lefel Cymru i ymateb i'r angen i liniaru ac addasu i effaith y newid yn yr hinsawdd, gan gydnabod rôl y system gynllunio wrth arwain y ffordd o hyrwyddo a darparu cymdeithas gystadleuol, gynaliadwy, wedi'i datgarboneiddio. Felly, mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar geisio datgarboneiddio sectorau economaidd allweddol, annog cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel a gwella gwydnwch yr amgylchedd naturiol. Bydd y CDS ar gyfer De-ddwyrain Cymru hefyd yn ceisio mynd i'r afael â ffactorau rhanbarthol, gan gydnabod y potensial ar gyfer cynllunio i lunio lleoedd mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at ostyngiadau sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, a darparu gwydnwch hirdymor; gan gynnwys trwy ailddefnyddio, adfywio a thrawsnewid.
- Nodir polisi cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru sy'n cydnabod bod gan y system gynllunio rôl hanfodol i'w chwarae wrth wneud datblygiad yn wydn i’r newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio’r gymdeithas a datblygu economi gylchol er budd yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Ategir PCC gan NCTau, sydd gyda'i gilydd yn darparu polisi a chyngor cynllunio manwl. Yn benodol mewn perthynas â llifogydd, dull cyffredinol PCC, a gefnogir gan yr NCT (NCT15 – Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol), yw cynghori pwyll o ran datblygiadau newydd mewn ardaloedd sydd â risg uchel o lifogydd, trwy osod fframwaith rhagofalus i lywio penderfyniadau cynllunio. Nod cyffredinol y fframwaith hwn yw cyfeirio datblygiadau newydd oddi wrth yr ardaloedd lle mae perygl mawr o lifogydd.
- Bydd fersiwn ddiwygiedig NCT15, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2021, yn dod i rym bellach yn 2023. Lle bydd unrhyw awdurdod lleol yn ymgymryd ag Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (ACLlS) newydd, rhaid i ACLlSau diwygiedig fod ar waith erbyn diwedd mis Tachwedd 2022, a’r rhain fydd y brif ffynhonnell dystiolaeth i lywio strategaethau aneddiadau a dyraniadau safleoedd cynlluniau datblygu mewn perthynas â risg llifogydd, yn ogystal â pholisïau risg llifogydd sy'n benodol i ardaloedd lleol.
- Yn unol â Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010), mae Llywodraeth Cymru wedi llunio ei hail strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol (RhPLlEA) (Hydref 2020). Mae'r strategaeth yn nodi sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu rheoli'r risg ac yn gosod amcanion a mesurau'r holl bartneriaid am y deng mlynedd nesaf. Bydd angen i CDLlau yn y dyfodol gydnabod y risg a darparu fframwaith polisi sy'n ceisio atal amlygiad i risg a fydd yn cael ei lywio gan Fap Llifogydd arfaethedig Cymru.
- Wrth baratoi'r CDLlN, dylai'r Cyngor ymgynghori ag awdurdodau cyfagos a Cyfoeth Naturiol Cymru a sicrhau nad yw'r datblygiad, yn ogystal â pheidio â bod mewn perygl ei hun, yn cynyddu'r risg o lifogydd mewn mannau eraill.
- Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019): Mae'r Cynllun hwn yn nodi dull Llywodraeth Cymru o leihau allyriadau a chynyddu effeithlonrwydd mewn ffordd sy'n sicrhau'r manteision ehangach mwyaf posibl i Gymru, gan sicrhau cymdeithas decach ac iachach. Mae'n nodi polisïau a chynigion sy'n ceisio lleihau allyriadau'n uniongyrchol a chefnogi twf yr economi carbon isel. Yn

berthnasol i gynllunio mae targedau a pholisïau a gyflwynir mewn perthynas ag:

- Ynni.
- Trafnidiaeth.
- Adeiladau.
- Diwydiant.
- Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth.
- Amaethyddiaeth; a
- Rheoli Gwastraff.

- Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ei adroddiad cynnydd "Lleihau Allyriadau Carbon yng Nghymru". Dyma'r adroddiad cyntaf am gynnydd Cymru tuag at gyrraedd ei thargedau lleihau allyriadau, fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 45 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad mis Chwefror 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i gyrraedd allyriadau sero-net erbyn 2050 trwy gyhoeddi Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021, a ddaeth i rym ar 19 Mawrth 2021. Mae'r Rheoliadau'n sefydlu'r ymrwymiad cyfreithiol i allyriadau carbon sero-net erbyn 2050.
- Mae'r Rheoliadau newydd yn rhan o'r fframwaith statudol ehangach ar gyfer lleihau allyriadau yng Nghymru, a nodir yn Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac yn diwygio'r targedau blaenorol a bennwyd ar gyfer 2030 a 2040 o 45% a 67% i 63% ac 89% yn y drefn honno.
- Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ceisio hyrwyddo twf cryf, cysylltiedig a chynaliadwy ledled y rhanbarth, gan gefnogi amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â seilwaith a'r newid yn yr hinsawdd. Nod y fargen yw annog buddsoddi, addasu ac arloesi o fewn y deg awdurdod lleol a phartneriaid allweddol eraill o fewn ei ffiniau. Bydd polisïau a chynlluniau lleol eraill yn cyfrannu'n gadarnhaol at fynd i'r afael ag achosion y newid yn yr hinsawdd a'r angen i ddelio â chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd.
- Mae Strategaeth Ynni Prifddinas-Ranbarth Caerdydd[104] wedi'i ddatblygu gyda chymorth gan randdeiliaid rhanbarthol, gan gynnwys awdurdodau lleol. Yr amcan cyffredinol yw datblygu llwybr sy'n nodi ymyriadau allweddol i gyflawni uchelgeisiau'r rhanbarth ar gyfer datgarboneiddio ei system ynni.
- Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) wedi prynu Gorsaf Bŵer Aberddawan, er mwyn datblygu a'i hailosod fel esiampl i gynhyrchu ynni gwyrdd yn y rhanbarth. Mae prif gynllun ar gyfer y safle yn cael ei baratoi ar hyn o bryd a fydd yn ceisio cefnogi'r gwaith o ailddatblygu'r safle i gyflawni amrywiaeth o brosiectau ynni adnewyddadwy a gwyrdd fel storio batris, clwstwr gweithgynhyrchu di-garbon, cyfleusterau cynhyrchu hydrogen gwyrdd a chanolfan arloesi ynni gwyrdd i hyrwyddo arloesi, twf, gwybodaeth a rhyngweithio cymunedol gyda dyfodol di-garbon Cymru.

[104] Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (2022): 'Cynlluniau ynni gwyrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer Gorsaf Bŵer Aberddawan i greu miloedd o swyddi', ar gael [ar-lein] i'w weld trwy y dolen hon

- Cynllun Her Prosiect Sero (2021) yw ymateb Cyngor Bro Morgannwg i argyfwng y newid yn yr hinsawdd. Mae Prosiect Sero yn dwyn ynghyd yr ystod eang o waith a chyfleoedd sydd ar gael i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, lleihau allyriadau carbon y Cyngor i sero-net erbyn 2030 ac annog eraill i wneud newidiadau cadarnhaol. Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at rôl y CDLl newydd wrth gyfrannu at yr ymrwymiad newid yn yr hinsawdd; er enghraifft, sicrhau cyfraniadau cynllunio at gynlluniau trafnidiaeth gynaliadwy a thrwy weithredu polisïau sy'n annog ynni adnewyddadwy. Mae Adroddiad Ynni Adnewyddadwy'r Cyngor wedi nodi cyfleoedd ym Mro Morgannwg ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau ynni adnewyddadwy, yn enwedig o ddatblygiadau ffotofoltäig solar ar wahân, clystyrau bach o botensial ynni gwynt, biomas a microgynhyrchu gan gynnwys Adeiladu Ynni Adnewyddadwy Integredig [AYAI].
- Yn benodol, mae CCS Ynni Adnewyddadwy Bro Morgannwg wedi'i lunio er mwyn ategu'r CDLl mabwysiedig ac ychwanegu manylion ato. Y bwriad yw darparu canllawiau clir a manwl gywir i gynorthwyo perchnogion tai, tirfeddianwyr, datblygwyr ac eraill sydd â diddordeb sy'n ymwneud â'r broses gynllunio am sut i ystyried ynni adnewyddadwy yn llawn mewn cynigion datblygu. Yn ogystal, mae'r canllaw'n ceisio sicrhau bod buddion datblygiadau ynni adnewyddadwy wedi'u cydbwyso yn erbyn effeithiau economaidd, cymdeithasol ac o ran amwynderau ar gymunedau ynghyd ag effeithiau amgylcheddol a fydd yn cynnwys bioamrywiaeth a chadw'r dirwedd weledol i 10MW.

# Crynodeb sylfaenol

## Argyfwng hinsawdd

6.4 Ym mis Gorffennaf 2019, ymunodd Cyngor Bro Morgannwg â Llywodraeth Cymru a chynghorau eraill ledled y DU i ddatgan argyfwng hinsawdd byd-eang. Ymrwymodd y Cyngor i:[105]

- Leihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net cyn targed Llywodraeth Cymru o 2030 a chefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Cyflawni Carbon Isel newydd Llywodraeth Cymru.
- Cyflwyno sylwadau yn ôl yr angen i Lywodraeth Cymru a'r DU, fel y bo'n briodol, i ddarparu'r pwerau, adnoddau a chymorth technegol mae eu hangen ar awdurdodau lleol yng Nghymru i'w helpu i gyflawni targed 2030 yn llwyddiannus.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid lleol gan gynnwys Cynghorwyr, trigolion, pobl ifanc, busnesau a phartïon eraill perthnasol i ddatblygu strategaeth yn unol â'r targed o allyriadau sero net erbyn 2030 ac edrych ar ffyrdd o sicrhau'r buddion lleol gorau posibl o ganlyniad i'r camau hyn mewn sectorau eraill megis cyflogaeth, iechyd, amaethyddiaeth, trafnidiaeth a'r economi.

[105] Cyngor Bro Morgannwg (2021): 'Cynllun Her Sero Prosiect 2021 – 2030', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

## Lliniaru

6.5 Er mai prin yw'r wybodaeth sydd ar gael ar lefel awdurdod lleol am allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae'r crynodeb ystadegol diweddaraf gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (2019) (ar sail data hyd at 2017), yn dangos bod allyriadau $CO_2$ y pen yng Nghymru yn gyffredinol uwch na gweddill rhanbarthau'r DU, sef 7.9 tunnell o $CO_2$ y pen. Y rheswm am hyn yw mai Cymru sydd â'r allyriadau $CO_2$ uchaf y pen o'r sector Diwydiannol a Masnachol (4.4t) sy'n adlewyrchu ei lefel uwch o weithfeydd diwydiannol. Ar draws y DU, mae cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng 2% arall rhwng 2017 a 2018, sy'n golygu cyfanswm gostyngiad ers 1990 o 43%.[106]


6.6 I raddau helaeth, mae allyriadau Bro Morgannwg yn adlewyrchu presenoldeb sylweddol diwydiant, amaethyddiaeth a'r maes awyr. Mae'r graff drosodd yn dangos yr allyriadau $CO_2$ ar gyfer Bro Morgannwg 2004-2018 fel y'u mesurir gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.[107] Mae **Ffigur 6.1** yn dangos bod y sector diwydiant yn y gorffennol wedi bod y sector sydd wedi cynhyrchu'r carbon deuocsid mwyaf, ac mae'n parhau felly. Mae hefyd yn dangos y bu gostyngiad sylweddol mewn allyriadau ym mhob sector ers 2004, er ei bod yn ymddangos bod ffigurau'n lefelu rhwng 2016 a 2018.

6.7 Yn benodol, mae disgwyl i Orsaf Bŵer Aberddawan a ddatgomisiynwyd gael ei throi'n ganolfan ynni gwyrdd ar ôl cael ei phrynu gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC)[108]. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd allyriadau $CO_2$ o ddiwydiant yn gostwng yn y dyfodol.

6.8 Mae'n werth nodi hefyd ei bod yn debygol bod Maes Awyr Caerdydd yn cyfrannu'n sylweddol at allyriadau trafnidiaeth yn y Fro.

[106] Ystadegau cenedlaethol terfynol ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (ffigyrau 2020)
[107] Ibid.
[108] New Civil Engineer (2022): 'Decommissioned Welsh power station to be converted into £36M green energy hub', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

## Ffigur 6.1 Allyriadau Carbon Deuocsid Bro Morgannwg fesul Blwyddyn[109]




### Ynni adnewyddadwy

6.9 Er gwaethaf lefelau allyriadau a ddangosir yn **Ffigur 6.1** uchod, mae data'n dangos bod y targed CDLl o roi caniatâd cynllunio digonol i ateb 10.6% (56.68 GWh) o'r galw am drydan a ragwelir trwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2020 wedi'i fwrw.[110]

6.10 Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi bod yn gweithredu amrywiaeth o brosiectau sydd o fudd i'r amgylchedd ac yn lleihau allyriadau carbon (gweler Cynllun Her Prosiect Sero). Mae ymrwymiadau parhaus i leihau allyriadau'n cynnwys:[111]

- Mae'r Cyngor yn prynu 100% o'i drydan o ffynonellau adnewyddadwy ac mae wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer nifer o ffermydd solar.
- Mae'r Cyngor wedi ymgymryd â thros 100 o brosiectau arbed ynni ar draws adeiladau'r Cyngor gan gynnwys newid hen oleuadau aneffeithlon i oleuadau LED a chyflwyno gwell dulliau rheoli ynni.
- Mae'r Cyngor wedi dechrau newid ei systemau gwresogi o nwy i drydan trwy osod pwmp Gwres o'r Ddaear yn Nhŷ Tregatwg yn y Barri a Phwmp Gwres Ffynhonnell Aer yn BSC2 (yr Ystafell Beiriannau) yn y Barri. Cafwyd gwelliannau sylweddol ar y safleoedd hyn yn y defnydd o ynni ac mae cynlluniau ar y gweill i osod rhagor ohonynt.
- Rydym wedi gosod paneli Solar ar 14 o adeiladau gyda'r modd cyfunol i gynhyrchu 480 KW. Mae maint pob system yn briodol i ateb y galw yn yr adeiladau y mae wedi'i gosod ynddynt.
- Mae 68% o oleuadau stryd y Cyngor wedi'u newid i oleuadau LED ac mae cynlluniau ar y gweill i gynyddu hyn i 92%.


109 Ibid.
110 Ibid.
111 Ibid.

6.11 Fel y soniwyd uchod, mae disgwyl i Orsaf Bŵer Aberddawan a ddatgomisiynwyd gael ei haddasu'n ganolfan ynni gwyrdd hefyd.

6.12 Mae **Ffigur 6.2** drosodd yn nodi'r holl gynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel hysbys sydd naill ai â chaniatâd cynllunio neu sydd wedi bod ar waith ers 2019 ym Mro Morgannwg.[112] Fel sy’n ddisgwyliedig, cynlluniau solar domestig yw'r rhai mwyaf cyffredin, gyda chynlluniau ledled y Fro; mae cynlluniau ynni gwynt ychydig yn llai, ac maent wedi’u lleoli’n bennaf yng ngogledd yr awdurdod.

[112] CCA Ynni Adnewyddadwy Bro Morgannwg (2019)

## Ffigur 6.2 Cynlluniau Carbon Isel a Di-Garbon Presennol ac Arfaethedig[113]




[113] CCA Ynni Adnewyddadwy Bro Morgannwg (2019)

### Cerbydau trydan

6.13 Mae gan gerbydau trydan rôl sylweddol i'w chwarae wrth sicrhau dyfodol gwyrddach ar y ffyrdd. Mae'r sector trafnidiaeth yn gyfrifol am 17% o allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru, a dim ond 0.17% o'r cerbydau sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru sy'n drydanol.[114]

6.14 Yn unol ag ymrwymiadau cenedlaethol, mae Cyngor Bro Morgannwg yn darparu isadeiledd cerbydau trydan ac yn cefnogi'r newid o ddefnyddio cerbydau diesel trwy'r awdurdod. Yn benodol:

- Mae CCS Safonau Parcio'r Cyngor (2019) yn annog darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan ac, o fewn datblygiadau dibreswyl, geisio sicrhau 10% o'r holl leoedd parcio gofynnol i ddarparu seilwaith pwyntiau gwefru cerbydau trydan, wrth annog darpariaeth debyg o fewn datblygiadau preswyl hefyd.
- Mae gorsafoedd gwefru cerbydau trydan wedi'u gosod ar safleoedd ysgol penodol.
- Ers mis Mawrth 2019 mae'n ofynnol i o leiaf 10% o leoedd parcio ar ddatblygiadau dibreswyl gynnwys seilwaith pwyntiau gwefru cerbydau trydan.
- Mae'r Cyngor yn datblygu rhwydwaith o Bwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan ac yn cynnal astudiaeth dichonoldeb i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer darparu modd diogel a hygyrch i wefru cerbydau trydan mewn eiddo preswyl ar strydoedd ac oddi arnynt ym Mro Morgannwg.
- Mae'r Cyngor yn cefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo cerbydau sy'n defnyddio tanwydd amgen; ac
- Mae'r Cyngor wedi dechrau newid ei fflyd bresennol o geir cronfa diesel am gerbydau trydan.

## Addasu

6.15 Rhagwelir y bydd y newid yn yr hinsawdd yn achosi newidiadau byrdymor i batrymau tywydd yn ogystal â newidiadau tymor hwy mewn tueddiadau hinsoddol. Rhagwelir y bydd cynnydd mewn digwyddiadau tywydd eithafol, gan gynnwys glawiad a gwresogi dwys, sychder a sbeliau o dywydd oer. Mae newidiadau i'r hinsawdd yn debygol o achosi gostyngiad mewn glawiad ynghyd â chynnydd mewn tymheredd. Mae'n bwysig hefyd ystyried natur dymhorol y newidiadau hyn, gyda gaeafau yn y DU yn debygol o fod yn gynhesach ac yn wlypach a disgwylir i hafau fod yn gynhesach ac yn fwy sych. Canlyniad arall i'r newid yn yr hinsawdd yw cynnydd o ran lefel y môr, problem sy'n cael ei gwaethygu gan ymchwyddiadau stormydd sy'n gallu arwain at lifogydd ac erydiad arfordirol. Mae addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn cyfeirio at y camau a gymerir i reoli effeithiau'r newid yn yr hinsawdd trwy leihau bod yn agored i'w effeithiau niweidiol, yn ogystal â manteisio ar unrhyw fuddion posibl.

### Perygl llifogydd

6.16 Mae Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (SLRhPLl) Bro Morgannwg (2013) yn canolbwyntio ar 'berygl llifogydd lleol', a ddiffinnir fel

[114] Llywodraeth Cymru (2021): 'Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

llifogydd a achosir gan ddŵr ffo arwyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin (nentydd, ffosydd ayb).[115] Y math hwn o lifogydd oedd achos y rhan fwyaf o ddifrod a achosir gan y llifogydd lleol yn 1998, 2000 a 2007 ac mae angen eu cymryd mor ddifrifol â llifogydd o'r prif afonydd neu'r arfordir. Ers 2007 mae Bro Morgannwg wedi dioddef rhagor o lifogydd a thywydd eithafol, gan effeithio ar y rhan fwyaf o'r awdurdod oherwydd natur eang a hyd y digwyddiadau.[116] Yn fwy diweddar, ym mis Rhagfyr 2020, cafwyd llifogydd sylweddol yn Ninas Powys a Sili. Yn dilyn hynny, cynhaliodd y Cyngor ymchwiliadau llifogydd Adran 19 ffurfiol mewn perthynas â'r llifogydd hwn ac mae'r adroddiadau perthnasol ar gael ar wefan y Cyngor drwy'r dolen hon.


6.17 Llifogydd o brif afonydd yw'r mwyafrif o'r holl ddigwyddiadau llifogydd a gofnodir ym Mro Morgannwg. Fel y dangosir yn **Ffigur 6.3** drosodd, mae risg llifogydd afonol yn ymestyn ledled y Fro, ar hyd coridorau'r afonydd yn bennaf, ac yn gorgyffwrdd ag aneddiadau i ryw raddau. Y cymunedau sydd yn y perygl mwyaf o lifogydd yw'r Bont-faen, Dinas Powys a rhannau o'r Barri, gan gynnwys Dociau'r Barri ac Ystâd Fasnachu'r Iwerydd. Mae Llanilltud Fawr hefyd mewn perygl.

6.18 Mae'r SLRhPLl yn tynnu sylw at y ffaith fod llifogydd dŵr wyneb yn llawer anoddach i'w mesur, yn enwedig o ystyried bod llawer o ddigwyddiadau yn aml yn cael eu cuddio gan effaith llifogydd y prif afonydd, neu'n mynd heb eu cofnodi.[117] Fodd bynnag, yn seiliedig ar dystiolaeth anecdotaidd a gwell cofnodi o ddigwyddiadau diweddar, credir bod llifogydd dŵr wyneb yn digwydd yn weddol aml ym Mro Morgannwg. Mae **Ffigur 6.4** yn dangos bod perygl o lifogydd dŵr wyneb yn bodoli ledled ardal ehangach y CDLlN, sy'n ymestyn trwy'r Bont-faen, Llyswyrni, ac i'r gogledd o Bendeulwyn. Ymddengys fod yr ardaloedd sydd â'r perygl mwyaf o lifogydd dŵr wyneb ar draws y Fro mewn clwstwr ar draws y de-ddwyrain, gan gynnwys rhannau o'r Barri a Phenarth.


6.19 Mae'r SLRhPLl hefyd yn nodi yr adroddir bod llifogydd dŵr daear lleol wedi digwydd ym Mhentref Ewenni, Saint-y-brid, East Monkton, y Rhws a'r Barri.[118]

[115] Cyngor Bro Morgannwg (2013): 'Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[116] Cyngor Bro Morgannwg (dim dyddiad): 'Cynllun Llifogydd Cymunedol a Chanllawiau Tywydd Eithafol', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[117] Ibid.
[118] Asiantaeth yr Amgylchedd (Ionawr 2012): 'Adroddiad Crynodeb Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch o Afon Ogwr i Afon Tawe'

## Ffigur 6.3 Perygl llifogydd afonol



## Ffigur 6.4 Perygl llifogydd dŵr wyneb



### Ardaloedd rhybudd llifogydd ac amddiffynfeydd llifogydd

6.20 Mae **Ffigur 6.5** drosodd yn dangos ardaloedd yn y Fro sy'n elwa o amddiffynfeydd llifogydd sy'n eu hamddiffyn rhag llifogydd o Afonydd a'r Môr. Lleolir y rhain yn y Bont-faen ac i'r gogledd-ddwyrain o'r Barri, gan gyd-fynd ag ardaloedd rhybudd llifogydd. Mae Cynllun Lliniaru Llifogydd (CLILL) wedi lleihau lefel y perygl o lifogydd ym mhrif aneddiadau trefol y Bont-faen a Llanfleiddan. Mewn mannau eraill, mae amddiffynfeydd anffurfiol yn rhoi amddiffyniad lle mae eiddo unigol mewn perygl.[119]

6.21 Mae'r ardaloedd a ddangosir yn elwa o wahanol lefelau o amddiffyn rhag llifogydd, ac mae hyn yn cael ei gydnabod yn y dosbarthiad risg sydd wedi'i ddangos ym map Asesiad Perygl Llifogydd Cymru (APLIC).[120] Nodir nad yw hyn yn benodol i eiddo ond ei fod yn dangos y budd ar gyfer ardal gyffredinol. Fodd bynnag, mae **Ffigur 6.5** hefyd yn dangos amddiffynfeydd llifogydd penodol sydd wedi cael eu hadeiladu, sy'n cyd-fynd ag ardaloedd atal llifogydd ac yn cael eu lleoli ar hyd ffin ardal ddwyreiniol a de'r CDLlN.

6.22 Mae cynlluniau nodedig diweddar Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (RhPLlEA) yn cynnwys gwaith lliniaru llifogydd yn Nhrebefered, Coldbrook a Llan-faes[121].

### Seilwaith gwyrdd

6.23 Gall datrysiadau naturiol i leihau'r perygl o lifogydd gynnwys seilwaith gwyrdd, megis gorchudd coed. Mae arwynebau athraidd a ddarperir gan fannau gwyrdd yn helpu i leihau dŵr ffo a dŵr wyneb, sydd yn ei dro yn helpu i leihau'r perygl o lifogydd. Mae coed yn gweithredu fel rhwystrau, gan leihau maint y dŵr sy'n cyrraedd y ddaear yn ystod digwyddiadau glaw, gan helpu i leihau'r perygl o lifogydd. Yn yr ystyr hon, mae'n bwysig edrych ar lefelau seilwaith gwyrdd a'i reolaeth o fewn ardaloedd trefol, gan gynnwys yr adnodd pridd, rhwydweithiau llwybrau, coetiroedd trefol a seilwaith gwyrdd eraill sydd â'r nod o wella ansawdd a hygyrchedd yr amgylchedd lleol. Sylwer bod ardaloedd gwledig ar y cyfan yn gefn gwlad agored sy'n llai tebygol o gael problemau ynglŷn â dŵr ffo a dŵr wyneb.

6.24 Mae mannau gwyrdd ac agored yn helaeth ledled y Fro, fel y dangosir yn **Ffigur 4.1** ac yr ymdrinnir â nhw ym **Mhennod 4** uchod. Fodd bynnag, canran fach yw'r mannau gwyrdd ac agored sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan y Cyngor, sy'n tynnu sylw at rôl bwysig tirfeddianwyr preifat wrth gyfrannu at liniaru'r newid yn yr hinsawdd a rheoli seilwaith gwyrdd yn gynaliadwy.

6.25 Er gwaethaf yr uchod, gall y Cyngor barhau i weithredu mesurau effeithiol, sydd wedi'i brofi gan gynlluniau plannu coed diweddar fel yr un sydd ar fin cael ei weithredu yn y Barri. Yn benodol, mae'r cynllun hwn yn bwriadu atal llifogydd yn y Barri trwy blannu mwy o goed a lleihau maint y palmentydd concrit[122].

6.26 O ran cyfleoedd lliniaru perthnasol yr ymgymerir â nhw gan y Cyngor, mae monitro wedi dangos bod y Fro, ers mis Gorffennaf 2018, wedi sicrhau cymhareb ailblannu o 2:1 ar gyfer symud coed gyda gorchymyn diogelu (GDC)


---

[119] Capital Symonds (2013): 'Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Bro Morgannwg Cyfrol 2 - Adroddiad Asesu'r Amgylchedd Strategol', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[120] Ibid.
[121] Ystafell Bro Morgannwg (dim dyddiad): 'Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[122] Barry Nub Bews (2020): 'The £192k Plan to Prevent Flooding in Barry with More Trees and Less Concrete', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

neu goed mewn ardal gadwraeth (CAG). Mae hyn yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol Coed, Coetiroedd, Gwrychoedd a Datblygu.[123]

[123]Cyngor Bro Morgannwg (2021): 'Cyngor Bro Morgannwg yn datgan argyfwng natur', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

## Ffigur 6.5 Ardaloedd rhybudd llifogydd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd



## Llinell sylfaen y dyfodol

6.27 Gallai datblygiadau newydd gynyddu'r perygl o lifogydd trwy ffactorau fel newid llif dŵr wyneb a dŵr daear, colli llystyfiant aeddfed, difrodi priddoedd, gorlwytho mewnbynnau presennol i'r rhwydweithiau draenio a dŵr gwastraff neu gynyddu nifer y preswylwyr sy'n agored i ardaloedd lle mae perygl llifogydd ar hyn o bryd a pheryglon llifogydd uwch posibl yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai'r broses cymeradwyo Draenio Cynaliadwy yn lliniaru'r perygl o lifogydd sy'n gysylltiedig â dŵr wyneb.

6.28 Mae newidiadau patrwm hinsoddol a thywydd tuag at dymheredd cymedrig uwch a digwyddiadau gwresogi eithafol yn debygol o gael eu gweld yn y dyfodol, gellir disgwyl i hyn gael effeithiau mwy amlwg ar ardaloedd trefol ac yn benodol poblogaethau bregus o fewn yr ardaloedd hyn. Mae hyn yn debygol o olygu bod angen ceisio cyfleoedd i ddylunio atebion oeri mewn datblygiadau, fel cysgodi trwy gadw a phlannu coed a mwy o seilwaith gwyrdd ac awyru.

6.29 Mae polisi a chytundebau cenedlaethol a rhyngwladol wedi dechrau dangos agwedd fwy brys mewn perthynas â dulliau sydd wedi'u dylunio i fynd i’r afael ag effeithiau’r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt. Os parheir ar hyd y trywydd hwn, mae’n debygol y gallai fod mwy o gyllid yn cael ei ryddhau i gynlluniau lleol addasu i effeithiau’r newid yn yr hinsawdd.

6.30 Mae'r cytundebau polisi ynglŷn â’r newid yn yr hinsawdd a’r sylw brys sy’n cael ei roi i’r mater yn debygol o gynyddu dros amser. Bydd disgwyl i hyn arwain at bolisïau sy'n cyfyngu ar y defnydd o weithgareddau allyrru tanwydd ffosil a chefnogi mesurau effeithlonrwydd ynni, gan helpu i leihau allyriadau $CO_2$.

6.31 Ystyrir y bydd cyfleoedd adnewyddadwy a chynhyrchu ynni isel yn cynyddu ymhellach dros amser. Rhagwelir y bydd hyn ar draws ystod o ffynonellau, yn ogystal ag o ffynonellau a alluogir trwy ddatblygu technolegau newydd. Fel y’i trafodwyd uchod, manteisir ar hyn ledled y Fro ar hyn o bryd, er enghraifft gyda llawer o gynlluniau ynni mawr ar waith.

## Prif faterion

6.32 Roedd yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth sylfaenol yn llywio’r broses o nodi sawl mater allweddol (problemau a chyfleoedd):

- I gefnogi gwaith Llywodraeth Cymru i gyflwyno ei Gynllun Cyflawni Carbon Isel newydd, mae angen datgarboneiddio ar draws pob sector o’r gymdeithas (gan gynnwys yr economi, ynni, seilwaith a ffyrdd o fyw), gydag angen pellach i gymryd camau i leihau lefelau carbon yn yr atmosffer. Mae mesurau lleihau ac effeithlonrwydd ynni yn cael eu harchwilio/gweithredu ledled y Fro yn unol â Chynllun Her Prosiect Sero, gyda llawer o gynlluniau ynni graddfa fawr ar waith.
- Mae angen sicrhau bod adnoddau naturiol presennol yn cael eu rheoli a'u diogelu i gydnabod y rôl bwysig sydd ganddynt o ran darparu atebion naturiol ar gyfer lliniaru effaith y newid yn yr hinsawdd yn ogystal â chefnogi cyfoeth o fioamrywiaeth a gwella lles.

- Rhaid i gynllunio chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod cymunedau a seilwaith yn gallu gwrthsefyll effeithiau andwyol y newid yn yr hinsawdd, trwy osgoi risg yn y lle cyntaf a cheisio lliniaru risg os na ellir osgoi opsiynau (e.e. trwy ddefnyddio seilwaith gwyrdd). O ran hyn, cydnabyddir bod targed y CDLl mabwysiedig i roi caniatâd cynllunio digonol i fodloni 10.6% (56.68 GWh) o'r galw rhagamcanol am drydan trwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2020 wedi'i fwrw.[124]
- Prif achosion perygl llifogydd yn y Fro yw dŵr wyneb ac afonydd, gyda'r olaf yn bennaf ar hyd coridorau afonydd sy'n peri perygl i rai aneddiadau. Mae llifogydd arfordirol hefyd yn berygl i rai ardaloedd preswyl a chyflogaeth presennol, yn benodol rhannau o Ddociau'r Barri ac Ystâd Fasnachu'r Iwerydd o fewn ardaloedd lle ceir perygl uchel o lifogydd.
- Er bod allyriadau cyffredinol yn y Fro wedi gostwng dros amser, ymddengys o'r data ar gyfer 2016-2018 fod allyriadau $CO_2$ yn lefelu ar gyfer pob ffynhonnell allyriadau. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r sefyllfa fod wedi newid ers 2018, yn enwedig o ystyried ymrwymiad y Cyngor i sero net erbyn 2030 a bod strategaethau, prosiectau ac ati wedi'u gweithredu i helpu i fynd i'r afael â'r targed hwn. Yn benodol, mae'r newid yn yr hinsawdd yn cael effaith ganlyniadol ar fioamrywiaeth, sy'n hynod sensitif i newidiadau yn yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys tymheredd, glaw, lleithder a chyflymder y gwynt. Yn hyn o beth, bydd yn bwysig tynnu sylw at y berthynas rhwng y ddau bwnc Asesiad Amgylcheddol Strategol hyn, yn enwedig mewn perthynas â hinsawdd / bioamrywiaeth yn y Fro.
-

# Amcanion ACI

6.33 O ystyried y materion allweddol a drafodir uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau gwrthrychol ac asesu canlynol:

| Amcanion ACI | Cwestiynau asesu - a fydd y cynllun/polisi yn helpu i: |
|---|---|
| Gefnogi gwydnwch Bro Morgannwg i effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys llifogydd o ffynonellau afonol, arfordirol a dŵr wyneb. | • Osgoi datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, gan ystyried effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol?<br>• Cynyddu gwydnwch yr amgylchedd adeiledig a naturiol i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, yn enwedig mewn ardaloedd lle nodir llifogydd arfordirol ac afonol?<br>• Sicrhau bod y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn cael eu hystyried mewn datblygiadau newydd yn ardal y cynllun?<br>• Gwella ac estyn rhwydweithiau seilwaith gwyrdd yn ardal y cynllun i gefnogi addasu i'r newid yn yr hinsawdd?<br>• Defnyddio seilwaith gwyrdd i reoli dŵr ffo yn gynaliadwy, gan leihau dŵr ffo a dŵr wyneb, wrth |

[124] Ibid.

| Amcanion ACI | Cwestiynau asesu - a fydd y cynllun/polisi yn helpu i: |
|---|---|
| | greu cyfleoedd i sefydlu cynefinoedd, plannu coed a chreu mannau agored?<br>• Lleihau'r perygl o lifogydd i seilwaith allweddol, megis trafnidiaeth a phŵer? |
| Lleihau cyfraniad Bro Morgannwg at y newid yn yr hinsawdd yn sgil gweithgareddau sy'n arwain at allyriadau nwyon tŷ gwydr a chyfrannu at ddiwallu targed sero net y Cyngor. | • Cynyddu nifer y datblygiadau newydd sy'n bodloni neu'n rhagori ar feini prawf dylunio cynaliadwy?<br>• Lleihau'r defnydd o ynni o ffynonellau anadnewyddadwy?<br>• Cynhyrchu ynni o ffynonellau carbon isel neu ddi-garbon?<br>• Lleihau'r angen i deithio neu nifer y teithiau a wneir?<br>• Blaenoriaethu moddau trafnidiaeth cynaliadwy drwy annog defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, beicio a cherdded?<br>• Sicrhau nad yw datblygu gwledig yn cyfrannu at gynnydd pellach yn y defnydd uchel o ynni a theithio anghynaladwy? |

# 7. Trafnidiaeth

7.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar seilwaith trafnidiaeth, defnydd trafnidiaeth, llif traffig a thagfeydd, a lefelau hygyrchedd ym Mro Morgannwg.

## Cyd-destun polisi

7.2 Mae **Tabl 7.1** yn cyflwyno'r dogfennau mwyaf perthnasol a nodwyd yn yr adolygiad polisi at ddibenion y CDLIN a'r ACI.

**Tabl 7.1 Cynlluniau, polisïau a strategaethau a adolygwyd mewn perthynas â thrafnidiaeth**

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn gyhoeddi |
|---|---|
| Deddf Cynllunio Cymru | 2015 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 2015 |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) | 2016 |
| Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol) | 2021 |
| Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) | 2021 |
| Datganiad Ardal Canol De Cymru | 2017 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 18: Trafnidiaeth | 2007 |
| Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | 2021 |
| Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru | 2021 |
| Canllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru | 2021 |
| Llywodraeth Cymru: Gweithio'n ddoethach: strategaeth gweithio o bell i Gymru. | 2022 |
| Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013: | 2013 |
| Canllawiau Deddf Teithio Llesol | 2021 |
| Metro De Cymru Cyflwyno Ein Metro | 2016 |
| Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru: casgliadau sy'n dod i'r amlwg | 2020 |

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn gyhoeddi |
|---|---|
| Uwchgynllun Maes Awyr Caerdydd 2040 | 2018 |
| Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Fargen Ddinesig | 2016 |
| Cynllun Trafnidiaeth Lleol Bro Morgannwg | 2015 |
| Asesiad Lles Bro Morgannwg 2021 | 2021 |
| Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg | 2017 |

7.3 Crynhoir isod y negeseuon allweddol sy'n deillio o'r adolygiad:

- Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod gan Fro Morgannwg un o'r patrymau anheddu trefol mwyaf unigryw yn y DU, sydd ag anghenion cymdeithasol ac economaidd â phwyslais gwahanol, ac o'r herwydd dylai'r CDLlN nodi polisïau a chynigion sy'n adlewyrchu'r materion economaidd a chymdeithasol strwythurol sy'n effeithio ar ffyniant a lles y trigolion. Mae'r CDS sy'n cael ei llunio ar gyfer De-ddwyrain Cymru hefyd yn ceisio mynd i'r afael â ffactorau rhanbarthol megis trafnidiaeth a hygyrchedd i wasanaethau, tai a chyflogaeth. Bydd cefnogi Bro Morgannwg fel ardal gyda gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol, trafnidiaeth a seilwaith digidol yn helpu i gefnogi cysylltiadau gwell.
- Nodir polisi cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru, sy'n rhoi'r cysyniad o greu lleoedd wrth wraidd polisi cynllunio cenedlaethol, er mwyn cyflawni datblygiad newydd sy'n gynaliadwy. Ategir PCC gan NCTau, sy'n gwireddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy o fewn y system gynllunio. Un o brif amcanion PCC yw sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hyn yn unol â gofynion Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol arall a dyletswyddau dilynol megis y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Yn benodol, mae NCT18 (Trafnidiaeth) yn cynnwys cyngor ar:
  - Integreiddio defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth.
  - Lleoliad datblygiadau.
  - Cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol.
  - Parcio; a
  - Dylunio datblygiadau.
- Cyhoeddwyd 'Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021' ym mis Mawrth 2021 ac mae'n nodi blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth yng Nghymru. Nod canolog y strategaeth yw lleihau'r effaith y mae trafnidiaeth yn ei chael ar newid yn yr hinsawdd, gan osod targed i 45% o'r holl deithiau yng Nghymru gael eu cyflawni'n gynaliadwy erbyn 2040. Y tair prif flaenoriaeth yn y Strategaeth yw:

  - Dod â gwasanaethau i bobl i leihau'r angen i deithio – a fydd yn golygu cynnydd mewn gwasanaethau lleol.
  - Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws trwy wasanaethau a seilwaith trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon ac
  - Annog pobl i wneud y newid i opsiwn trafnidiaeth mwy cynaliadwy trwy ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus fwy fforddiadwy a dibynadwy.
- Mae Gweithio'n Ddoethach: Strategaeth Gweithio o Bell i Gymru gan Llywodraeth Cymru yn gosod ei chynlluniau i weithio gyda busnesau, undebau llafur a rhanddeiliaid allweddol i helpu mwy o gyflogwyr i fabwysiadu dull mwy ystwyth a hyblyg yn eu gweithle. Mae'r strategaeth yn gosod targed i 30% o weithlu Cymru fod yn gweithio gartref neu'n agos ato erbyn 2026 ac yn esbonio sut mae'r llywodraeth yn bwriadu gwreiddio gweithio o bell ar gyfer y tymor hir yng ngweithleoedd Cymru. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi buddion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gweithio o bell:
  - Buddion cymdeithasol a lles – yn cynnig mwy o ddewis a hyblygrwydd sy'n gallu gwella lles, iechyd meddwl, cydbwysedd bywyd-gwaith, boddhad swyddi a chynhyrchiant, ac yn lleihau'r amser a'r gost sy'n gysylltiedig â chymudo.
  - Lles amgylcheddol – yn lleihau teithio sy'n gysylltiedig â gwaith, a fydd yn helpu i leddfu tagfeydd, lleihau sŵn ac allyriadau carbon, a gwella ansawdd aer mewn rhai ardaloedd, yn lleihau'r traffig i greu amgylchedd gwell i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr priffyrdd eraill, ac yn annog pobl i gerdded, beicio a defnyddio e-feiciau i wella iechyd a hyrwyddo ffyrdd cynaliadwy o deithio.
  - Lles economaidd – yn creu mwy o gyfleoedd swyddi i bobl sydd mewn unrhyw leoliad yng Nghymru – yn benodol, gweithwyr mewn cymunedau gwledig a lled-wledig; yn denu dinasyddion yn ôl i'w gwlad enedigol, yn galluogi cyflogwyr gael mynediad i weithlu ehangach a mwy amrywiol ac yn gallu cynyddu cynhyrchiant a lleihau absenoldebau salwch.
  - Lles diwylliannol – yn meithrin ac yn annog Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.
- Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC) yn ceisio hyrwyddo twf cryf, cynaliadwy, a chytbwys trwy'r rhanbarth, gan ymrwymo i ddull partneriaeth o 'Sbarduno Economi Cymru'. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi yn seilwaith y rhanbarth, a chreu Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol fel rhan o drefniadau llywodraethu P-RC i gynrychioli'r deg awdurdod lleol a phartneriaid allweddol eraill o fewn ei ffiniau. Dylai'r CDLlN nodi polisïau a chynigion ar gyfer systemau trafnidiaeth hygyrch o ansawdd uchel sy'n cefnogi datblygiad economaidd ac adfywio ar draws y rhanbarth er budd ei phoblogaeth breswyl.
- Gan ei fod yn ymrwymedig i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae'r Cyngor yn nodi cefnogaeth ar gyfer gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chabinet P-RC wrth weithredu cysylltiadau rhanbarthol gwell i Gaerdydd a chynlluniau eraill i dyfu'r economi leol/rhanbarthol, megis cynigion lleddfu'r M4, trydaneiddio, a chynigion y Metro. Mae Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru: Casgliadau sy'n dod i'r amlwg (2020) yn ddarn allweddol o dystiolaeth yn

hyn o beth, gan nodi argymhellion yn y dyfodol i Lywodraeth Cymru o fesurau cynaliadwy i fynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae'r cyfrifoldeb dros ddatblygu polisi trafnidiaeth strategol a datblygu'r cynllun trafnidiaeth rhanbarthol yn nwylo Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CBC) De-ddwyrain Cymru (Swyddogaethau Trafnidiaeth), (a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2022). Yn benodol, mae Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol newydd i gael ei baratoi a disgwylir canllawiau ar gyfer hwn gan Lywodraeth Cymru yn y man.

- Bydd cefnogi blaenoriaethau trafnidiaeth cenedlaethol wrth gyflawni mesurau cyflenwol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn sicrhau gwerth mwyaf posibl buddsoddiad mewn trafnidiaeth, a fydd yn ei dro yn cefnogi:
  - Twf economaidd.
  - Mynediad i waith.
  - Trechu tlodi.
  - Teithio cynaliadwy a diogelwch; a
  - Mynediad i wasanaethau.

7.4 Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl) y Cyngor yn ceisio nodi'r mesurau trafnidiaeth gynaliadwy lleol sydd eu hangen i sicrhau bod Bro Morgannwg yn cydymffurfio â'r gofynion a bennir gan Lywodraeth Cymru a'r canllawiau arfer da cyfredol. Mae'r CTLl yn nodi nifer o amcanion hyd at 2030, sydd wedi'u llywio gan gynigion o fewn Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor ac mae hefyd yn gyson ag amcanion Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Wrth nodi cynlluniau, mae'r CTLl yn chwilio am ffyrdd o sicrhau gwell amodau i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus ac annog newid mewn dewisiadau teithio amgen yn lle defnydd un person o gar. Mae'r CTLl hefyd yn ceisio mynd i'r afael â thagfeydd traffig drwy sicrhau gwelliannau i'r coridorau priffyrdd strategol i gymudwyr y gallai fod angen iddynt deithio mewn car yn ogystal â darparu seilwaith gwell ar gyfer cludo nwyddau. Mae hefyd yn ceisio mynd i'r afael â blaenoriaethau diogelwch ffyrdd allweddol y Fro.

7.5 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cefnogi cynigion ar gyfer Metro Caerdydd a bydd y CTLl yn llywio gwaith cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol yn y dyfodol, fel y nodir uchod.

# Crynodeb sylfaenol

## Llwybrau trafnidiaeth allweddol

7.6 Mae **Ffigur 7.1** drosodd yn nodi llwybrau teithio allweddol Bro Morgannwg, a chydnabyddir bod y rhwydwaith priffyrdd strategol yn dioddef o dagfeydd mewn nifer bach o fannau cyfyngedig strategol, gyda chyfran uchel o deithiau i mewn ac allan o'r Fro yn cael ei gwneud mewn car.[125] Yn benodol, mae tagfeydd wrth fynd â phlant i'r ysgol a'u casglu yn broblem allweddol i'r Fro.

7.7 Mae'r A4055 trwy Ddinas Powys yn ardal broblemus allweddol i'r rhwydwaith ffyrdd rhanbarthol oherwydd lefel y traffig a thagfeydd cysylltiedig.

[125] Cyngor Bro Morgannwg (2015): 'Cynllun Trafnidiaeth Leol 2015-2030', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

7.8 Mae'r A4050 Ffordd y Porthladd yn ffordd drafnidiaeth strategol bwysig sy'n cysylltu Maes Awyr Caerdydd trwy'r Barri â'r gyfnewidfa drafnidiaeth yng Nghroes Cwrlwys a'r M4.[126]

7.9 Mae Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn cydnabod bod yr A48 Pen-y-bont ar Ogwr i Groes Cwrlwys (sydd bellach wedi'i wasgaru) yn llwybr trafnidiaeth strategol pwysig sy'n cysylltu Pen-y-bont ar Ogwr â Chaerdydd ac yn cysylltu'r Fro wledig â Chaerdydd a'r M4.

7.10 Nodir bod Glannau'r Barri i Ddinas Powys yn goridor trafnidiaeth strategol pwysig sy'n cysylltu'r Barri â Chaerdydd.[127]

### Maes Awyr Caerdydd

7.11 Mae Maes Awyr Caerdydd yn faes awyr cenedlaethol Cymru ac yn borth i'r DU ar gyfer cwsmeriaid busnes a hamdden rhyngwladol. Ar hyn o bryd mae 18 cwmni hedfan yn gweithredu o Gaerdydd, gan gynnig mynediad i lu o leoedd ledled y byd, gan gynnwys hediadau uniongyrchol i hybiau rhyngwladol yn Doha ac Amsterdam.

7.12 Mae Uwchgynllun Maes Awyr Caerdydd 2040 yn nodi bod nifer y teithwyr wedi cynyddu 8% yn fwy na 2018, gyda mwy nag 1.5 miliwn o deithwyr bellach yn dewis Maes Awyr Caerdydd bob blwyddyn. Mae dalgylch craidd ei farchnad teithwyr yng Nghymru'n cynnwys poblogaeth o 2.4 miliwn, gyda dalgylch allanol yn Ne-orllewin Lloegr yn cynnwys 4 miliwn pellach.

7.13 Y llynedd, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fyddai'n ariannu ffordd newydd sy'n cysylltu'r M4 â Maes Awyr Caerdydd gan nad yw'r cynllun yn cyd-fynd â meini prawf grantiau na'r fframwaith polisi trafnidiaeth.[128].


7.14 Mae Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan yn canolbwyntio ar y sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch ac, yn arbennig, ei is-sector awyrofod. O fewn y Cynllun Strategol (2018 i 2021), nodir y canlynol:

*"Ym Maes Awyr Caerdydd mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i brofiad ymwelwyr mewn ymdrech i ddenu mwy o lwybrau. Mae hyn wedi cynnwys ad-drefnu'r meysydd parcio, newidiadau mewnol i ddefnydd er mwyn darparu mwy o olau naturiol a thrafnidiaeth gyhoeddus ychwanegol i'r Maes Awyr. Bydd y gwaith hwn yn parhau fel rhan o'r cynllun busnes uchelgeisiol sy'n cael ei weithredu gan y Maes Awyr."*

7.15 Yn benodol, mae angen parhaus am gysylltiadau trafnidiaeth uwch yn Sain Tathan o ystyried ei statws fel Ardal Fenter.

[126] Ibid
[127] Ibid
[128] Newyddion y BBC (2021): 'Maes Awyr Caerdydd: gwrthod ariannu ffordd gyswllt yr M4 i'r A48', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

# Ffigur 7.1 Llwybrau teithio allweddol



## Gwelliannau Trafnidiaeth Gynaliadwy

7.16 Mae **Ffigwr 7.2** yn dangos llwybrau trafnidiaeth cynaliadwy o fewn y Fro, yr ymdrinnir â nhw ymhellach drosodd.

### Trenau

7.17 Fel y dangosir yn **Ffigur 7.2** mae un ar ddeg o orsafoedd rheilffordd yn y Fro, sy'n cysylltu trigolion â chanolfannau allweddol cyfagos, gan gynnwys y rhanbarth ehangach a De-orllewin Lloegr. Mae'r rhan fwyaf o'r gorsafoedd rheilffordd hyn yn cael eu gwasanaethu gan drenau bob 15 munud, gan ddarparu cysylltiad da â'r brifddinas. Mae'r gorsafoedd rheilffordd wedi'u dosbarthu'n dda ar draws yr awdurdod gyda nifer wedi'u canoli yn y Barri ac ym Mhenarth:

- Dociau'r Barri.
- Ynys y Barri.
- Y Barri.
- Tregatwg.
- Cogan.
- Dinas Powys.
- Dingle Road.
- Eastbrook.
- Llanilltud Fawr.
- Penarth; a
- Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd y Rhws.

### Bysus

7.18 Mae **Ffigwr 7.2** yn dangos y safleoedd bws sydd ar gael ar draws y Fro. Er ei bod yn ymddangos bod y rhain wedi'u dosbarthu'n dda, maent yn canoli ar brif aneddiadau'r Fro. Fodd bynnag, mae darpariaeth gwasanaeth bysus cyfyngedig yn yr ardaloedd gwledig, a chydnabyddir hyn yn fater allweddol yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol diweddaraf. Yn benodol, mae gwasanaethau bysus cyfyngedig gyda'r nos ac ar y penwythnos ar gyfer pentrefi gwledig a gwasanaethau cyfyngedig a phrin mewn trefi ac ardaloedd trefol.[129]

7.19 Mae Trafnidiaeth Gymunedol Greenlinks yn cynnig cerbydau hygyrch sy'n cael eu gyrru gan wirfoddolwyr ac mae gan y gwasanaeth bedwar bws mini hygyrch, ynghyd â dau gar hygyrch[130]. Gall y cerbydau hyn gludo pobl sydd ag anghenion hygyrchedd i unrhyw le ar unrhyw adeg. Mae aelodaeth Greenlinks yn costio £5, gyda phob taith yn costio cyn lleied â £2, ond nid oes angen aelodaeth i gael defnyddio'r gwasanaethau wythnosol G1 (Sain Tathan i Ben-y-bont ar Ogwr trwy'r Bont-faen a'r pentrefi cyfagos) a G4 (y Fro wledig i Gaerdydd). Sylwer y darperir gwasanaeth llai oherwydd Covid-19.

[129] Ibid.
[130] Cyngor Bro Morgannwg (dim dyddiad): 'Trafnidiaeth Gymunedol Greenlinks', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

7.20 Mae cyfleusterau Hybiau Trafnidiaeth Integredig ar gael yn y gorsafoedd rheilffordd canlynol:

- Y Barri.
- Dociau'r Barri.
- Tregatwg.
- Cogan.
- Dinas Powys.
- Eastbrook.
- Llanilltud Fawr.
- Penarth.
- Y Rhws.

### Metro De Cymru

7.21 Un o amcanion Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) yw cysylltu cymunedau, busnesau, swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau yn yr ardal. Un o'r prif flaenoriaethau mewn perthynas â gwella trafnidiaeth yw cyflwyno Metro De Cymru, sef prosiect seilwaith mawr sy'n arwydd o 'newid moddol' uchelgeisiol o ran cysylltu pobl a lleoedd a gwella daearyddiaeth economaidd gweithredol y rhanbarth.

7.22 Mae prosiect Adfywio Porth Canol Tref y Barri wedi nodi'r angen i adfywio tir yn gynhwysfawr yng nghyffiniau Gorsaf Drenau Dociau'r Barri, sy'n borth pwysig i ganol y dref a'r Glannau. Fel rhan o raglen Metro Plus, bydd cynllun Gorsaf Drafnidiaeth y Barri yn darparu cyfnewidfa fysus wedi'i chynllunio, cyfleusterau parcio a theithio ychwanegol, yn gwella cysylltedd â chanol y dref ac yn creu man cyrraedd modern wedi'i ddylunio'n dda. Disgwylir i'r cynllun cyfnewidfa hwn gael ei gyflwyno'n llawn erbyn 31 Mawrth 2023.[131] Mae gwaith hefyd wedi bod ar y gweill ar Gyfnewidfa Cogan.

### Cerdded a beicio

7.23 Mae cerdded a beicio yn ddewisiadau amgen cynaliadwy ac ymarferol yn lle'r car preifat, gan gefnogi ffyrdd iach o fyw a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

7.24 Fel y dangosir yn **Ffigur 7.3**, mae Llwybr 88 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (RhBC) yn ymestyn trwy'r Fro, o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae Llwybr 88 yn cysylltu Llwybr 4 y RhBC ym Mharc Margam ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr, trwy Fro Morgannwg i ddechrau Llwybr 8 y RhBC ym Mae Caerdydd.

7.25 Fel a nodwyd ym **Mhennod 4** uchod ac a ddangosir yn **Ffigur 7.3** drosodd, mae gan y Fro rwydwaith hawliau tramwy helaeth sy'n cysylltu aneddiadau ac yn creu cyfleoedd i deithio'n gynaliadwy ar gyfer teithiau lleol. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn bwysig yn y cyswllt hwn, gan ymestyn o Fae Caerdydd / Aber Elái yn y dwyrain i Afon Ogwr yn y gorllewin. Fel y'i trafodwyd ym **Mhennod 4**, mae'r llwybr yn rhoi cyfle i gerdded / beicio ar hyd 53km o'r arfordir.

[131] Trafnidiaeth Cymru (2022): 'De Caerdydd', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

7.26 Mae Pont y Werin a Morglawdd Caerdydd dros Afon Elái hefyd yn nodedig o ran cysylltiadau cerdded a beicio strategol rhwng Bro Morgannwg a Chaerdydd.

7.27 O ran prosiectau parhaus, mae cynlluniau Teithio Llesol wedi'u cyflwyno i wella cyfleoedd ar gyfer cerdded a beicio mewn nifer o ardaloedd gan gynnwys y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Penarth Heights, Lavernock Road / Cosmeston, Sully Road / Ysgol San Joseff a South Road / Hayes Road / Sully Moors Road.[132]

7.28 Ym mis Medi 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i awdurdodau lleol yng Nghymru fapio a chynllunio llwybrau Teithio Llesol addas mewn anheddau penodol, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynodd y Cyngor ei Fapiau Rhwydwaith Integredig ym mis Tachwedd 2017 sy'n amlinellu nodau'r Awdurdod o wella llwybrau teithio llesol ledled y Sir dros y 15 mlynedd nesaf.

7.29 Yn nodedig hefyd mae'r cynllun 'Nextbike' a gafodd ei lansio ym Mhenarth yn 2020. Mae'r beiciau wedi cael eu rhentu dros 1,400 o weithiau ar draws 5 gorsaf ddocio rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Ionawr 2021.[133] Mae gorsafoedd docio hefyd wedi'u gosod yn Cosmeston a Sili gyda chynlluniau ar gyfer 2 orsaf yn Ninas Powys.

7.30 Mae cynllun llogi e-feiciau hefyd ym Mro Morgannwg, sef y cyntaf o'i fath i gael ei lansio yng Nghymru[134]. Mae gorsafoedd docio e-feiciau wedi'u gosod yn:


- Heol Windsor, Penarth.
- Y Promenâd, Penarth.
- Gorsaf Drenau Penarth.
- Parc Gwledig Cosmeston.
- Ysbyty Llandochau.
- Y Morglawdd.

7.31 Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn bwriadu gosod gorsafoedd docio e-feiciau yn:


- Sili.
- Dinas Powys.
- Cogan; a
- Stanwell, Penarth.

[132] Ibid.
[133] Ibid.
[134] Cyngor Bro Morgannwg (dim dyddiad): 'Cynllun Llogi E-Feiciau', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

## Ffigur 7.2 Trafnidiaeth gynaliadwy – trafnidiaeth gyhoeddus



## Ffigur 7.3 Trafnidiaeth gynaliadwy – llwybrau teithio llesol (2022)


Castell-nedd Port Talbot - Neath Port Talbot
Rhondda Cynon Taf - Rhondda Cynon Taf
Caerffili - Caerphilly
Pen-y-bont ar Ogwr - Bridgend
Caerdydd - Cardiff
Caerdydd
Bridgend
Pencoed
Llantrisant
Talbot Green
Y Bont-Faen
Llantwit Major
Barri
Penarth
Bro Morgannwg
Awdurdodau Cynllunio Lleol Cyfagos
Llwybr teithio llesol (lleol)
Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol
Hawliau tramwy cyhoeddus
Llwybr yr arfordir
0
2½
5
Cilometrau
Yn cynnwys data yr AO © Hawlfraint y Goron a hawl OS a hawl cronfa ddata 2022. Yn cynnwys data o OS Zoomstack. Yn cynnwys gwybodaeth y sector cyhoeddus a drwyddedir o dan y Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. Esri UK, Esri, HERE, Garmin, Foursquare, GeoTechnologies, Inc, METI/NASA, USGS. Yn cynnwys Gwybodaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded yr Arolwg Ordnans 100019741. Hawlfraint y Goron a'r Hawl Cronfa Ddata.

### Teithio i'r gwaith

7.32 Mae patrymau cymudo manwl yn rhoi cipolwg ar ble mae trigolion Bro Morgannwg yn teithio i'r gwaith a lle mae'r rhai sy'n teithio i Fro Morgannwg i weithio yn byw.

7.33 Yn 2020, roedd mwyafrif y trigolion, sef 28,200, yn byw ac yn teithio i weithio ym Mro Morgannwg, roedd 22,500 o drigolion yn teithio i Gaerdydd i weithio ac roedd niferoedd llai yn cymudo i Ben-y-bont ar Ogwr a RhCT i weithio. Yn ddiddorol, rhwng 2019 a 2020 bu gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n byw ym Mro Morgannwg yn nodi eu bod yn gweithio yn Lloegr neu'r tu allan i Gymru. Gallai hyn ddangos effaith y pandemig ar gymudo a’r newid i weithio gartref. Yn yr un modd, o'r rhai a oedd yn cymudo i Fro Morgannwg am waith, roedd gostyngiad yn y niferoedd a oedd yn teithio o Rondda Cynon Taf a Chaerdydd, ond twf yn y rhai a oedd yn teithio o Ben-y-bont ar Ogwr. Er nad oes data ar gael am y mathau o drafnidiaeth a ddefnyddir ar gyfer cymudo ym Mro Morgannwg, mae'n debygol bod trafnidiaeth ym Mro Morgannwg yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol gyda'r rhan fwyaf o deithiau'n cael eu gwneud gan geir.

## Llinell sylfaen y dyfodol

7.34 Rhagwelir gwelliannau trafnidiaeth gynaliadwy yn lleol ar y cyd â mwy o wasanaethau rheilffordd a bysus ar adegau brig fel y nodir yn y CTLl, a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) sy’n cael ei baratoi. Bydd y CTRh yn rhoi ffocws rhanbarthol ar weithredu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, gan gydnabod daearyddiaeth economaidd a chymdeithasol amrywiol yr ardal ehangach. Bydd hyn yn helpu i ddarparu symudedd gwell i drigolion ac ymwelwyr, ac yn cefnogi mwy o hygyrchedd i swyddi a gwasanaethau.

7.35 Ystyrir y bydd yr isadeiledd trafnidiaeth yn y dyfodol a gynigir fel rhan o gynlluniau buddsoddi Bargen Dinas-Ranbarth Caerdydd yn galluogi trigolion Bro Morgannwg i deithio'n haws yn y rhanbarth i achub ar gyfleoedd ac yn yr un modd i bobl gael mynediad hawdd i'r Fro ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a hamdden. Enghraifft nodedig o hyn yw Metro De Cymru a Chynllun Gorsaf Drafnidiaeth y Barri.

7.36 Bydd rhagor o bwyslais hefyd ar deithio llesol yn unol â gwireddu dyheadau Deddf Teithio Llesol (Cymru), gan gefnogi cerdded a beicio fel y dewis arferol ar gyfer teithiau byrrach.

7.37 Mae'r gefnogaeth i deithio llesol yn adlewyrchu newid agweddau yn sgil y pandemig diweddar, sydd wedi arwain at newid sylweddol yn arferion gweithio a chymudo llawer o bobl. Bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru ar gyfer annog gweithio gartref ac o bell i barhau ar ôl y pandemig o fudd i seilwaith ffyrdd strategol ac yn lleihau effeithiau tagfeydd, yn enwedig ar adegau cymudo brig.

7.38 Er y gellir gweld nifer mwy o bobl yn teithio’n llesol, gall trigolion sy'n parhau i gymudo pellter hirach i'r gwaith hefyd ddangos ei bod yn well ganddynt ddulliau preifat o drafnidiaeth yn hytrach na dulliau cyhoeddus yn y tymor byr i'r tymor canolig, gan gydnabod cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol. Mae hyn yn debygol o waethygu mewn rhannau o'r Fro lle mae mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus ac amlder y ddarpariaeth yn wael.

7.39 Mae mynediad i drafnidiaeth yn amrywio ar draws Bro Morgannwg gydag ardaloedd mwy gwledig yng Ngorllewin y Fro wedi'u nodi trwy Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC 2019) fel rhai sydd â mynediad gwaeth i drafnidiaeth gyhoeddus nag ardaloedd mwy trefol yn y Barri a Dwyrain y Fro. Amcangyfrifir bod gan Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) Llandŵ / Ewenni yng Ngorllewin y Fro amser dychwelyd teithio cyhoeddus i fferyllfeydd, siopau bwyd a meddygfeydd o bron 6 gwaith yn hwy nag AGEHI Stanwell 2 yn Nwyrain y Fro. Yn achos yr ardaloedd mwy gwledig hyn, heb welliannau i gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, mae cael mynediad i opsiynau trafnidiaeth breifat, yn enwedig mynediad i gar, yn dod yn allweddol er mwyn gallu cael mynediad i wasanaethau.

## Prif faterion

7.40 Roedd yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth sylfaenol yn llywio'r broses o nodi sawl mater allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Cydnabyddir y bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, yn ogystal â chynlluniau a amlinellir yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol, yn helpu i liniaru problemau traffig ffyrdd sy'n gysylltiedig â datblygiadau yn yr awdurdod yn y dyfodol. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd bod seilwaith ffyrdd, yn y gorffennol, wedi'i chael yn anodd dygymod â chynnydd yn nifer y cerbydau ar y ffyrdd, felly mae problemau gyda thagfeydd a'r gallu i ymdopi â lefelau uwch o draffig yn debygol o waethygu i ryw raddau gan dwf yn y dyfodol.
- Mae mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus ac amlder y ddarpariaeth yn amrywio ar draws Bro Morgannwg, gyda gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn llai aml na'r rhai mewn aneddiadau trefol
- Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o drigolion yn cymudo mewn ceir, gan adlewyrchu natur lled-wledig y Fro. Bydd angen i'r CDLl newydd ystyried effaith Covid-19 ar batrymau teithio, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â'r newid a welir i weithio o gartref.
- Nodir cyfleoedd ar gyfer newid moddol trwy gyfrwng Prosiect Metro De Cymru[135], sy'n cynnwys ehangu a gwella'r rhwydwaith rheilffyrdd, gwasanaethau bysus a rhwydweithiau beicio a cherdded yn sylweddol. Dylid cydlynu twf â gwelliannau strategol i'r seilwaith trafnidiaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer datblygiadau cysylltiedig a hygyrch.
- O ran teithio llesol, mae gan y Fro rwydwaith cerdded a beicio helaeth, sy'n cynnwys 55km o lwybrau Hawliau Tramwy Cyhoeddus a llwybr 88 y RhBC, sy'n cysylltu trigolion ar draws aneddiadau o fewn a'r tu allan i'r Fro. Fodd bynnag, nodir bod y RhBC yn dameidiog y tu hwnt i brif anheddiad y de-ddwyrain. Mae 'cynlluniau teithio llesol' wedi'u teilwra yn cael eu harchwilio a'u gweithredu ledled y Fro gan gynnwys yn y Bont-faen a Llanilltud Fawr.

## Amcanion ACI

7.41 O ystyried y materion allweddol a drafodir uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau gwrthrychol ac asesu canlynol:

[135] Llywodraeth Cymru (dim dyddiad): 'Cyflwyno ein Metro', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

| Amcanion ACI | Cwestiynau asesu - a fydd y cynllun/polisi yn helpu i: |
|---|---|
| Cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio. | • Lleihau'r angen i deithio trwy batrymau cynaliadwy o ddefnyddio a datblygu tir?<br>• Creu cyfleoedd i wella amlder ac argaeledd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig ar gyfer cymunedau gwledig?<br>• Annog newid moddol i ddulliau teithio mwy cynaliadwy a llesol, fel cerdded a beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus?<br>• Cefnogi cyfleoedd ar gyfer newid moddol fel y'i nodir ym Mhrosiect Metro De Cymru?<br>• Blaenoriaethu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy o ran defnyddio ceir lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys darparu digon o opsiynau parcio a storio beiciau?<br>• Galluogi gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth?<br>• Darparu rhwydweithiau teithio llesol a'u gwella lle bo angen?<br>• Cefnogi'r defnydd o drafnidiaeth carbon isel fel e-feiciau a bysus trydan?<br>• Cyfrannu tuag at y rhwydwaith gwefru cerbydau trydan?<br>• Hwyluso gweithio gartref a gweithio o bell?<br>• Darparu gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd presennol a/neu leihau tagfeydd ar y priffyrdd?<br>• Cyfrannu at rwydweithiau seilwaith gwyrdd? |

# 8. Adnoddau naturiol (aer, tir, mwynau a gwastraff)

8.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar ansawdd aer lleol, ansawdd yr adnoddau pridd, cynhyrchu gwastraff, swm yr adnoddau mwynol, adnoddau cyflenwi dŵr ac ansawdd y dŵr ym Mro Morgannwg.

## Cyd-destun polisi

8.2 Mae **Tabl 8.1** yn cyflwyno'r dogfennau mwyaf perthnasol a nodwyd yn yr adolygiad polisi at ddibenion y CDLlN a'r ACI.

**Tabl 8.1 Cynlluniau, polisïau a strategaethau a adolygwyd mewn perthynas ag adnoddau naturiol**

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn gyhoeddi |
|---|---|
| Cynllun y DU i leihau crynodiadau nitrogen deuocsid wrth ymyl y ffordd | 2017 |
| Deddf Cynllunio Cymru | 2015 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 2015 |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) | 2016 |
| Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol) | 2021 |
| Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) | 2021 |
| Rheoliadau Ansawdd Aer Cymru | 2002 |
| Cynllun Aer Glân i Gymru | 2018 |
| Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru) | 2021 |
| Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 | 2006 |
| Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr - Dŵr Cymru | 2019 |
| Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (AaSAN) | 2020 |
| Tuag at Ddyfodol Diwastraffhttps://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/tuag-at-ddyfodol-diwastraff-ein-strategaeth-wastraff.pdf | 2019 |

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn gyhoeddi |
|---|---|
| Mwy nag Ailgylchu: Strategaeth i wireddu'r Economi Gylchol yng Nghymru (2021) | 2021 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 11: Sŵn | 1997 |
| Diweddariadau i NCT11: Sŵn | 2015 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 21 Gwastraff | 2014 |
| Datganiad Ardal Canol De Cymru | 2017 |
| Adroddiad Blynyddol SWRAWP ar gyfer 2019 | 2019 |
| Polisi Adnoddau Naturiol | 2017 |
| Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (CRhDDG) | 2020 |
| Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg | 2017 |
| Cynllun Her Prosiect Sero | 2021 |
| Cynllun a Strategaeth Busnes Ailgylchu a Rheoli Gwastraff | 2022 |

8.3 Crynhoir isod y negeseuon allweddol sy'n deillio o'r adolygiad:

- Bydd yn ofynnol i'r CDLlN gydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol, sy'n rhan o'r cynllun datblygu ac yn nodi'r fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir, gan ddarparu cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith / twf newydd. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod Bro Morgannwg o fewn rhanbarth De-ddwyrain Cymru, y lleiaf o'r pedwar rhanbarth yn ôl arwynebedd, sy'n cynnwys dinasoedd arfordirol Caerdydd a Chasnewydd a chyn-gadarnleoedd diwydiannol cymoedd De Cymru. Mae'r CDS ar gyfer De-ddwyrain Cymru yn ceisio mynd i'r afael â ffactorau rhanbarthol fel ansawdd aer, yr amgylchedd dŵr, defnydd tir, a'r adnodd pridd, gan gydnabod buddion ehangach cyfalaf naturiol a'r rhai sy'n deillio o wasanaethau ecosystemau.
- Yn ogystal, mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod bod angen ystyried goblygiadau hirdymor y newid yn yr hinsawdd a meithrin gwydnwch yn hyn o beth, trwy lywio datblygiad strategol dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae Cymru'r Dyfodol yn annog defnydd effeithlon o dir, gan fynnu bod y berthynas rhwng pob math o ddefnydd tir a rheolaeth yn cael ei hystyried yn llawnach os yw Cymru am fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a galluogi cymunedau i elwa o fathau mwy cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn rhannau helaeth o ardaloedd gwledig y rhanbarth.
- Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn amlinellu "rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy" (RhANG), gan ddefnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar raddfa sy'n hyrwyddo cyflawni'r amcan i gynnal a gwella gwydnwch

ecosystemau a'r buddion y maent yn eu rhoi. Mae'r Ddeddf yn gosod fframwaith ar gyfer cyflawni RhANG, sy'n cynnwys camau ymarferol i wella ansawdd yr aer, nid yn unig yn y mannau mwyaf llygredig ond ledled Cymru.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithredu ar draws llywodraethau i fynd i'r afael ag ansawdd aer. Mae Rhaglen 'Aer Glân i Gymru' (2018) yn ceisio lleihau baich ansawdd aer gwael ar iechyd pobl a'r amgylchedd naturiol. Bydd y rhaglen hon yn ystyried tystiolaeth a datblygu a gweithredu camau sydd eu hangen ar draws adrannau'r llywodraeth gan gynnwys yr amgylchedd, iechyd, addysg, datgarboneiddio, trafnidiaeth, llywodraeth leol, cynllunio, amaethyddiaeth a diwydiant i sicrhau aer glân i Gymru. Bydd y Rhaglen yn adeiladu ar waith presennol ar draws y llywodraeth i leihau llygredd aer, gan gynnwys Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru.
- Mae Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru nodi a chyhoeddi manylion am ffynonellau sŵn. Yna mae'n rhaid i'r awdurdod cymwys lunio mapiau sŵn strategol a chynlluniau gweithredu i ymdrin â'r llygredd sŵn hwn. Gan ychwanegu at hyn, mae NCT 11: Sŵn (1997) yn amlinellu sut i ddefnyddio'r system gynllunio i leihau effaith andwyol sŵn. Yn 2015, amlinellwyd diweddariad i NCT 11: Sŵn.
- Nodir polisi cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru, a'i brif amcan yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu at ddarparu datblygu cynaliadwy, ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hyn yn unol â gofynion Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol arall a dyletswyddau dilynol megis y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. O ran adnoddau naturiol, mae Polisi Cynllunio Cymru yn mynnu bod paratoi CDLl yn ystyried y cyfyngiadau ffisegol ac amgylcheddol ar ddatblygu tir, gan gynnwys, er enghraifft, lefel halogi a sefydlogrwydd. Dylid ystyried hefyd yr effeithiau posibl y gallai adfer tir wedi'i halogi eu cael ar yr amgylcheddau naturiol a hanesyddol.
- Mae PCC hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu ystyried materion sy'n gysylltiedig â dŵr o gyfnod cynnar yn y broses o nodi tir ar gyfer datblygu ac ailddatblygu. Yn gysylltiedig â hyn, mae gan y Cyngor, fel Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (CCDC), gyfrifoldeb statudol dros benderfynu ar geisiadau draenio ynglŷn â datblygiad newydd.
- Ymdrinnir ag ansawdd aer a seinwedd ym Mholisi Cynllunio Cymru fel elfen allweddol o'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, gan osod y materion yn gyfartal ag amcanion eraill megis tai, trafnidiaeth a datblygiad economaidd. Mae PCC yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd aer a seinweddau priodol i iechyd a lles pobl a'r amgylchedd ac yn ceisio sicrhau bod dulliau hirdymor yn cael eu cymryd i atal creu problemau newydd neu waethygu materion presennol.
- Gan gyfeirio'n benodol at reoli gwastraff, mae TAN21 (Gwastraff) yn nodi y dylai cynllunio defnydd tir helpu i:
  - Gyrru'r gwaith o reoli gwastraff i fyny'r hierarchaeth wastraff a hwyluso darparu rhwydwaith ddigonol o gyfleusterau priodol.

  – Lleihau effaith rheoli gwastraff ar yr amgylchedd (naturiol ac o waith dyn) ac iechyd pobl trwy'r lleoliad a'r math priodol o gyfleusterau; a
  – Chydnabod a chefnogi'r buddion economaidd a chymdeithasol y gellir eu gwireddu o reoli gwastraff fel adnodd o fewn Cymru.

- Y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (2012) 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yw'r ddogfen gyffredinol o ran strategaeth gwastraff yng Nghymru. Mae'n ymwneud â rheoli holl wastraff Cymru, yn awgrymu lle mae angen gwella ailgylchu ac yn ceisio hwyluso datblygiadau seilwaith i fynd i'r afael ag anghenion cyfleusterau rheoli gwastraff yng Nghymru. Ar gyfer de-ddwyrain Cymru, mae'r cynllun yn cynnwys gofyniad am gyfleusterau rheoli gwastraff ychwanegol sy'n gallu delio â rhwng 421,000 a 871,000 o dunnelli erbyn 2024-2025.
- O ran mwynau, mae PCC yn pwysleisio pwysigrwydd diogelu dyddodion y gallai fod eu hangen ar y gymdeithas yn y dyfodol. Dylai'r CDLlN geisio diogelu'r adnodd lleol yn unol â pholisi cenedlaethol i sicrhau argaeledd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn benodol, mae PCC yn nodi gofyniad am gyflenwad cyson a digonol o fwynau. Mae NCTM 1 (agregau) ac NCTM 2 (glo) yn gosod egwyddor arall ar gyfer darparu adnoddau cynaliadwy i ddiwallu anghenion cymdeithasol ar gyfer adeiladu (agregau) ac ynni (glo). Mae'r 2il Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn gosod y cyd-destun is-ranbarthol a lleol ar gyfer darpariaeth mwynau wrth symud ymlaen, gan gynnwys gofynion lleol ar gyfer agregau crai.
- Mae PCC yn nodi bod cynlluniau datblygu yn gerbydau pwysig ar gyfer hyrwyddo diogelu'r amgylchedd. Dylent alluogi ystyried yr effeithiau a allai datblygiadau arfaethedig, a'r galw am drafnidiaeth sy'n gysylltiedig â nhw, eu cael ar ansawdd tir, aer neu ddŵr a'r effeithiau y gallai ansawdd tir, aer neu ddŵr eu cael ar ddatblygiadau arfaethedig.
- Mae Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (CRhAD) Dŵr Cymru (2019) yn edrych ar draws 30 mlynedd rhwng 2020 a 2050 i asesu risgiau posibl i gyflenwi digon o ddŵr i ateb y galwadau disgwyliedig. Ymhlith y ffactorau allweddol sy'n cael eu hystyried y mae newidiadau demograffig ac economaidd sy'n effeithio ar alw dŵr, newid yn yr hinsawdd sy'n cael ei gydnabod gan Ddeddf Cenhedlaeth y Dyfodol LlC fel her sylweddol sy'n wynebu Cymru, a rhwymedigaethau amgylcheddol megis Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Ewrop a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.
- Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ceisio hyrwyddo twf cryf, cynaliadwy a chytbwys ledled y rhanbarth, gan ymrwymo i ddull partneriaeth o ymdrin â thai ac adfywio, sy'n annog defnydd tir effeithlon, gan achub ar gyfleoedd tir llwyd lle bo modd. Nod y fargen yw annog buddsoddiad a chreu amgylchedd cyfle cyfartal yn y deg awdurdod lleol a phartneriaid allweddol eraill o fewn ei ffiniau. Dylai'r CDLlN nodi polisïau a chynigion ar gyfer hyrwyddo twf cynaliadwy yn yr ardal sy'n gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd adnoddau a lleihau effeithiau amgylcheddol.
- Mae mabwysiadu Cynllun Busnes a Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff Bro Morgannwg yn ddiweddar (2022 - 2032) yn gam allweddol tuag at fynd i'r afael â Her Prosiect Sero i "Leihau gwastraff a rhoi ar waith y cyfleusterau, y gwasanaethau a'r gwaith codi ymwybyddiaeth angenrheidiol ar gyfer economi fwy cylchol gyda phwyslais cryf ar ailddefnyddio, atgyweirio ac

ailgylchu". Mae'r Strategaeth yn ystyried ein gweithredoedd ar ffurf cynllun 10 mlynedd (2022-2032) ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau LlC ar gyfer ailgylchu a gwastraff.

# Crynodeb sylfaenol

## Ansawdd aer

8.4 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) ym Mro Morgannwg; fodd bynnag, nodir y datganwyd ARhAA Windsor Road, Cogan, Penarth ym mis Awst 2013 am lefelau nitrogen deuocsid gormodol, ond fe'i dirymwyd ym mis Ionawr 2021.[136]

8.5 Er bod ansawdd aer ym Mro Morgannwg yn cydymffurfio â'r rheoliadau i ddiogelu iechyd dynol a'i fod yn bodloni gofynion yr amcanion ansawdd aer perthnasol, bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro gan fod i'r Fro un o'r lefelau uchaf yng Nghymru o lygredd aer o waith dyn sydd yn uwch na'r ffigurau cyfartalog ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.[137] Mae sgoriau allyriadau aer yn llawer uwch yn y de ac yn nwyrain y sir, gan gynnwys y Barri, lle mae dwysedd poblogaeth, lefelau traffig ac agosrwydd at ddiwydiant trwm yn fwy nag yn ardaloedd mwy gwledig y sir. Mae allyriadau aer yn effeithio'n anghymesur ar gymunedau mwy difreintiedig y Fro sy'n gallu gwaethygu'r lefelau o anghyfartaledd iechyd sydd eisoes yn bodoli trwy gynyddu lefelau clefydau'r ysgyfaint ac afiechydon eraill.

## Llygredd sŵn

8.6 Mae'r map ardaloedd tawel i Gaerdydd a Phenarth[138] yn dangos bod pum ardal dawel ddynodedig ym Mhenarth, sef:

1. Penarth Head Lane
2. Parc Belle Vue
3. Parc Alexandra
4. Golden Gates
5. Caeau Chwarae Fictoria

8.7 Ar ôl i ardal gael ei ddynodi'n ardal dawel, mae Polisi Cynllunio Cymru yn gofyn bod polisïau cynllun datblygu yn ystyried yr angen i'w hamddiffyn rhag cynnydd mewn sŵn ac mae angen ystyriaeth arbennig lle cynigir datblygiad cynhyrchu sŵn gerllaw[139].

## Adnoddau dŵr

8.8 Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gyfrifol am reoli adnoddau dŵr yng Nghymru. Un o'r ffyrdd y gwneir hyn yw trwy drwyddedu tynnu dŵr o fewn dalgylchoedd. Datblygodd CNC Strategaethau Rheoli Tynnu Dŵr mewn Dalgylchoedd (SRhTD) i:

[136] Defra (2022): 'List of Local Authorities with AQMAs', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[137] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg (2018): 'Ein Bro – Ein Dyfodol', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[138] Llywodraeth Cymru (2013): 'Map ardaloedd tawel: Caerdydd a Phenarth', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[139] Llywodraeth Cymru (2012): 'Datganiad Ysgrifenedig – Datganiad ysgrifenedig ar ddynodi'r gyfran gyntaf o fannau tawel trefol o dan y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol', ar gael [ar-lein] trwy ddolen hon

- hysbysu'r cyhoedd am adnoddau dŵr ac arferion trwyddedu:
- darparu dull cyson o reoli adnoddau dŵr lleol; a
- help i gydbwyso anghenion defnyddwyr dŵr a'r amgylchedd.

8.9 Mae dau ddalgylch afon yn cwmpasu'r awdurdod gyda'r rhan fwyaf o'r ardal yn gorwedd o fewn ardal SRhTD Tregatwg a Ddawan. Mae ardal lai i'r dwyrain yn gorwedd o fewn ardaloedd SRhTD Taf ac Elái (y cynhyrchwyd y ddwy yn 2006) (gweler **Ffigur 8.2**).

8.10 Mae'r echdyniad cyflenwad dŵr yfadwy mwyaf yn ardal SRhTD Tregatwg a Ddawan yn dod o Ffynnon Biglis ar Waun Tregatwg. Pan fo’r llif yn isel, nodir ar hyn o bryd bod gormod o ddŵr yn Afon Tregatwg yn cael ei echdynnu.[140]

8.11 Calchfaen carbonifferaidd yw'r brif ddyfrhaen yn yr ardal a gellir tynnu symiau sylweddol o ddŵr ohono. Fodd bynnag, mae'r calchfaen yn storfa hirdymor wael ac felly nid yw'n darparu llawer o lif sylfaen i'r afonydd. O ganlyniad, gall y ddwy system afon brofi llif afonydd isel sy'n digwydd yn naturiol yn ystod cyfnodau sych hir. Mewn hafau sych iawn, gall rhai o'r llednentydd llai sychu'n llwyr.[141]

8.12 Mae pum Ardal Gwarchod Diogelu Tarddiad Dŵr wedi’u dynodi ym Mro Morgannwg. Dangosir y rhain yn **Ffigur 8.2**, ac maent wedi'u canoli ar: Aberogwr, Dinas Powys, Llansanwyr, Llan-gan a Threoes.

8.13 O ran ansawdd dŵr, mae adroddiadau biolegol SRhTD Tregatwg a Ddawan naill ai'n 'dda' neu'n 'dda iawn' ac mae ansawdd biolegol rhannau uchaf ac isaf Afon Elái yn dda.

8.14 Saif Bro Morgannwg o fewn Cynllun Rheoli Basn Afonydd (CRhBA) Gorllewin Cymru gyda chyfran fach yng ngogledd yr awdurdod yn cael ei chynnwys o fewn CRhBA Hafren. Mae Pecyn Tystiolaeth Awdurdodau Lleol CNC ar gyfer y Fro yn dangos bod 8 o bob 14 corff dŵr wyneb wedi dangos bod ganddyn nhw Statws Ecolegol Da (GES), bod gan bump Statws Ecolegol Cymedrol a bod gan un ohonynt Statws Ecolegol Gwael.[142]

### Dyfroedd ymdrochi

8.15 Mae gan y Fro bedwar traeth ymdrochi: Cold Knap yn y Barri, Bae Jackson, Bae Whitmore, a Southerndown.[143] Mae **Ffigwr 8.1** yn dangos y tri thraeth ymdrochi yn y Barri yn y dwyrain, a thraeth ymdrochi Southerndown yng ngorllewin y Fro.[144]

[140]Ystafell Bro Morgannwg (dim dyddiad): ‘Adroddiad Tystiolaeth Ein Hamgylchedd’, ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[141] Ibid
[142] Ibid
[143] Ibid
[144] Cyfoeth Naturiol Cymru (2021): 'Dod o hyd i ddŵr ymdrochi', ar gael [ar-lein] trwy y dolen hon

## Ffigur 8.1 Dŵr ymdrochi dynodedig[145]




8.16 Yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am fonitro dyfroedd ymdrochi. Mae **Tabl 8.2** isod yn dangos bod pob un o bedwar traeth ymdrochi'r Fro wedi pasio dosbarthiad Dyfroedd Ymdrochi'r CE o 2018. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod ansawdd cyffredinol y dŵr ar gyfer Cold Knap yn y Barri a Southerndown wedi parhau'n gyson uchel o'i gymharu â'r dosbarthiad ar gyfer Bae Jackson, sydd â chanlyniadau mwy cymysg.

### Tabl 8.2 Asesiadau ansawdd dŵr ymdrochi blynyddol[146]

| Dŵr ymdrochi | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|
| **Cold Knap y Barri** | Ardderchog | Ardderchog | Ardderchog | Ardderchog |
| **Whitmore** | Da | Ardderchog | Da | Da |
| **Bae Jackson** | Digonol | Da | Digonol | Digonol |
| **Southerndown** | Ardderchog | Ardderchog | Ardderchog | Ardderchog |

8.17 Mae'r traethau a'r dyfroedd arfordirol y tu hwnt dan bwysau gan gyfuniad o bwysau gwledig gwasgaredig a llygredd trefol o garthion / camgysylltiadau yn yr ardaloedd datblygedig. Pum ffynhonnell uchaf y llygredd yw:[147]


[145] Ibid.
[146] Cyfoeth Naturiol Cymru (2021): 'Proffil Dŵr Ymdrochi ar gyfer Bae Whitmore, Ynys y Barri 2020', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[147] Ibid

- Llygredd o garthion – gall bacteria o garthion ddod i'n dyfroedd oherwydd methiannau neu orlifo mewn systemau neu’n uniongyrchol o waith chwalu carthion.
- Dŵr sy'n draenio o ffermydd a thir fferm - gall tail o dda byw neu slyri sydd wedi ei storio'n wael lifo i afonydd a nentydd gan arwain at ddeunydd ymgarthol (faecal) yn cyrraedd y môr.
- Anifeiliaid ac adar ar draethau neu'n agos iddynt - mae baw cŵn, adar ac anifeiliaid eraill yn gallu effeithio ar ddŵr ymdrochi gan ei fod yn aml yn cynnwys lefelau uchel o facteria (llawer uwch na gwastraff dynol sy'n cael ei drin).
- Dŵr sy'n draenio o ardaloedd poblog - mae dŵr sy'n draenio o ardaloedd trefol yn dilyn glaw trwm yn gallu cynnwys llygredd o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys carthion anifeiliaid ac adar.
- Carthion domestig – mae draeniau wedi'u camgysylltu a thanciau septig wedi’u lleoli a’u cynnal yn wael yn gallu llygru systemau dŵr wyneb.

### Ardaloedd yn effeithio ar ddyfroedd ymdrochi

8.18 Mae **Ffigur 8.2** drosodd yn dangos ardaloedd sy'n effeithio ar ddyfroedd ymdrochi o fewn y Fro. Mae'r set ddata hon yn cynnwys polygonau sy'n ymwneud â phob safle a nodwyd o dan y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi (76/160/EEC)/. Lle mae safle yn cyfateb i Ardal Sensitif o dan y Gyfarwyddeb Triniaeth Dŵr Gwastraff Trefol (UWWTD) yng Nghymru a Lloegr, darperir y polygon ar gyfer yr Ardal Sensitif honno. Mae'r ardaloedd hyn yn cyd-fynd â'r dyfroedd ymdrochi dynodedig a drafodir uchod.

## Ffigur 8.2 Adnoddau ac ansawdd dŵr




Yn cynnwys data yr AO © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2022. Yn cynnwys data o OS Zoomstack. Yn cynnwys gwybodaeth y sector cyhoeddus a drwyddedir o dan y Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. Esri UK, Esri, HERE, Garmin, Foursquare, GeoTechnologies, Inc, METI/NASA, USGS. Yn cynnwys Gwybodaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded yr Arolwg Ordnans 100019741. Hawlfraint y Goron a'r Hawl Cronfa Ddata.

## Tir a phridd


### Dosbarthu Tir Amaethyddol (DTA)

8.19 Gan adlewyrchu ei natur wledig, mae tua 85% (28,132 hectar) o'r Fro yn dir amaethyddol. Cynhaliwyd arolygon DTA ar ôl 1988 am ganran fach o'r Fro, fel y'u cyflwynwyd yn **Ffigur 8.3**. Ceir ardaloedd o dir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg Gradd 2 i'r dwyrain o Dresimwn ac i'r gogledd-orllewin o Lanilltud Fawr.


8.20 Oherwydd prinder data ers 1988, mae angen dibynnu ar fapio DTA rhagfynegol ar gyfer y Fro (gweler **Ffigur 8.4**). Mae’r rhan fwyaf o’r tir amaethyddol ym Mro Morgannwg wedi’i dosbarthu’n Radd 2 neu’n Radd 3. Ymddengys fod ardaloedd o dir amaethyddol o ansawdd uchel (Gradd 1 a 2) yng ngogledd a chanolbarth y Fro, yn arbennig o gwmpas Tresimwn, i'r dwyrain o'r Bont-faen, ac yng nghornel ogledd-ddwyreiniol y Fro o amgylch Saint-y-brid a Chorntwn. Fodd bynnag, cydnabyddir mai data rhagfynegol yw hyn, ac felly ceir rhywfaint o ansicrwydd gan nad yw arolygon llawn wedi’u cynnal.

8.21 Mae'n werth nodi bod tir amaethyddol, yn enwedig tir sy'n defnyddio dulliau ffermio megis troi’r pridd dull cadwraeth, hefyd yn gweithredu fel sinc carbon, yn storio carbon yn y pridd trwy’i secwestru. Pan aflonyddir ar dir, fel pan fo'n cael ei ddatblygu ar gyfer tai, mae carbon yn cael ei ryddhau i'r atmosffer, gan gyfrannu at y newid yn yr hinsawdd.

## Ffigur 8.3 DTA ar ôl 1988



## Ffigur 8.4 DTA Rhagfynegol



## Mwynau a daeareg

8.22 Mae Bro Morgannwg yn gyflenwr mwynau pwysig ac fel Awdurdod Cynllunio Mwynhau, mae cyfrifoldeb ar y cyngor i sicrhau bod y CDLlN yn darparu cyflenwad parhaus o fwynau yn ystod a'r tu hwnt i'r cyfnod y mae'r CDLlN ar waith. Gwneir yr asesiad o ddigonolrwydd y banc tir yng ngoleuni'r canllawiau a geir yn NCTM1: Agregau ac yn Natganiad Technegol Rhanbarthol De Cymru am Agregau.[148]

8.23 Ar sail ffigur cronfa dir y Cyngor ym mis Gorffennaf 2016 (31,962,000 o dunelli) a'r ffigur cynhyrchu cyfartalog dros 10 mlynedd, cronfa dir Bro Morgannwg o ran agregau craig galed oedd 40.7 mlynedd, sy'n golygu y bydd cronfa dir o 30.7 mlynedd ar gael yn 2026. Nodwyd bod cronfeydd o graig galed ar gyfer cynhyrchu heb agregau (h.y. cynhyrchu sment) yn ddigonol am 19.8 mlynedd o gyflenwad.[149]

8.24 Mae'r Ail Adolygiad o'r DTRh (Medi 2020) yn nodi bod angen 16.806 miliwn tunnell (MT) o graig fâl ym Mro Morgannwg am 25 mlynedd. Ar hyn o bryd, mae gan yr awdurdod 18.730MT o gronfeydd tir a ganiateir ar gyfer craig fâl sy'n golygu bod digon o ddarpariaeth feintiol i fodloni'r dosraniad a nodwyd.[150]

### Safleoedd gweithio mwynau

8.25 Fel a restrir isod ac a ddangosir yn **Ffigur 8.5** drosodd, mae'r Fro yn cynnwys nifer o safleoedd gweithio mwynau gweithredol:[151]

- Aberddawan - Liasig.
- Ewenni – Carbonifferaidd.
- Forest Wood - Carbonifferaidd (Rhannu â Rhondda Cynon Taf).
- Pant – Carbonifferaidd.
- Pantyffynnon – Carbonifferaidd.
- Longlands – Carbonifferaidd.
- Lithalun – Carbonifferaidd; a
- Gwenfô – Carbonifferaidd.

8.26 Mae'r Fro hefyd yn cynnwys dau safle segur lle ystyrir ei bod yn debygol y bydd gweithio yn y dyfodol. Mae'r safleoedd hyn yn segur ar hyn o bryd ond yn cael eu cadw wrth gefn:

- Fferm Garwa – Carbonifferaidd; a
- Rhuthun – Carbonifferaidd.

[148] Llywodraeth Cymru (2018): 'Polisi Cynllunio Mwynau – Agregau', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[149] Ibid.
[150] Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru – 2il Adolygiad, Medi 2020
[151] Cyngor Bro Morgannwg (2017): 'Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

### Safleoedd Mwynau Segur


8.27 Yn ogystal â safleoedd chwareli gweithredol, ceir sawl safle mwyn segur a hir segur ym Mro Morgannwg lle na fu gweithio mwynau ers dros ddeng mlynedd. Dangosir y rhain hefyd yn **Ffigur 8.5** drosodd, ac fe'u nodwyd fel:[152]

- Chwarel Beaupre (Long Grove), Saint Hilari.
- Chwarel Cnap Twt, Castell Alun.
- Chwarel Cosmeston, Penarth.
- Chwarel Cross Common, Dinas Powys.
- Chwarel Downswood, Penarth.
- Gwaith Brics Trelái (rhennir y safle â Chaerdydd).
- Chwarel Larnog.
- Chwarel Saint Andras, Saint Andras; a
- Chwarel Southerndown Road.

8.28 Mae llawer o'r safleoedd wedi adfywio'n naturiol, wedi cael eu rhoi i ddefnyddiau amgen neu wedi'u cyfyngu gan ddatblygiad cyfagos. Er enghraifft, llenwodd Chwarel Cosmeston â dŵr i ddyfnder o fwy nag 20 metr pan ddaeth chwarela i ben yn y 1960au ac ers hynny mae wedi cael ei hymgorffori ym Mharc Gwledig Cosmeston; mae Chwarel Larnog a Chwarel Southerndown Road wedi cael eu defnyddio fel safleoedd gwaredu gwastraff; ac mae Gwaith Brics Trelái (a rennir â Chaerdydd) wedi cael ei orchuddio i raddau helaeth gan Ffordd Gyswllt Trelái.[153]

[152] Ibid
[153] Ibid

## Ffigur 8.5 Safleoedd mwynau



## Gwastraff

8.29 Fel yr Awdurdod Cynllunio Gwastraff, mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i gasglu a gwaredu Gwastraff Dinesig (cartref) ac i gynllunio defnydd tir mewn perthynas â rheoli gwastraff.

### Ailgylchu

8.30 Roedd dros 72% (72.3%) o wastraff cartref a gasglwyd gan y Cyngor yn cael ei baratoi i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu yn ystod hanner cyntaf 2020/21. Mae hyn yn uwch na'r targed statudol o 64% ar gyfer 2020/21.[154]

8.31 Yn ogystal, yn ystod 2020/21, fe wnaeth y Cyngor roi cyfanswm o 116 tunnell, sef y swm lleiaf gan unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru, a oedd yn rhoi cyfradd tirlenwi o 0.2% o'i chymharu ag 1.13% o'r flwyddyn flaenorol. 4.85% oedd canran gyfunol y gwastraff yng Nghymru a anfonwyd i Safleoedd Tirlenwi sy'n dangos effeithlonrwydd cyfyngiadau gwastraff gweddilliol ymyl ffordd y Fro, yn ogystal â sut mae'n cyfathrebu ac yn adfer ynni o wastraff.[155]


### Canolfannau ailgylchu

8.32 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswydd statudol trwy ddarparu dwy Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC) yn Ystâd Fasnachu'r Iwerydd yn y Barri (yn gwasanaethu dwyrain Bro Morgannwg) ac Ystâd Fasnachu Llandŵ yn Llandŵ (yn gwasanaethu gorllewin Bro Morgannwg).[156] Cydnabyddir bod angen adnewyddu'r safle yn Llandŵ ar frys.[157]

8.33 Dylid hefyd ystyried safleoedd tirlenwi blaenorol yn y Fro, a geir yn bennaf yn ne'r awdurdod (gweler **Ffigur 8.6** drosodd). Lleolir y safle tirlenwi blaenorol mwyaf yn y Fro i'r dwyrain o Silstwn / Dwyrain Aberddawan.

[154] Ibid
[155] Bro Morgannwg (2022): 'Cynllun a Strategaeth Busnes Ailgylchu a Gwastraff', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[156] Cyngor Bro Morgannwg (dim dyddiad): 'Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[157] Ibid

## Ffigur 8.6 Safleoedd tirlenwi blaenorol



## Llinell sylfaen y dyfodol

8.34 Mae cyflymu'r broses o gyflwyno cerbydau trydan (gweler **Pennod 6** uchod) yn debygol o leihau materion sy'n ymwneud â llygredd aer o gerbydau modur yn yr hirdymor. Er bod rhywfaint o lygredd aer yn tarddu o ffynonellau ar wahân i'r motor tanio mewnol, fel yr hyn sy'n deillio o brosesau diwydiannol, dylai hyn helpu i leihau problemau llygredd aer sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yn yr hirdymor. Fodd bynnag, bydd y symudiad tuag at economi werdd ac ynni adnewyddadwy, yn ogystal â lleihau'r galw cyffredinol am deithio ac annog teithio llesol a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, hefyd yn cyfrannu at wella ansawdd aer yn y dyfodol.

8.35 Gallai'r twf rhagamcanol yn y boblogaeth a pherygl uwch o sychder oherwydd y newid yn yr hinsawdd effeithio ar swm y dŵr sydd ar gael ym Mro Morgannwg a'r ardal ehangach. Er nad oes disgwyl i Gymru, ac yn fwy penodol ardal Bro Morgannwg, gael problemau ynglŷn ag adnoddau dŵr, gallai datblygu effeithio ar ansawdd y dŵr trwy lygredd gwasgaredig, gollwng dŵr gwastraff, dŵr ffo, ac addasiadau. Ar ben hynny, gallai pwysau sy'n ymwneud â newidiadau yn yr hinsawdd a newidiadau demograffig ynghyd â rhwymedigaethau amgylcheddol roi straen ar agweddau sy'n gysylltiedig â darparu adnoddau dŵr.

8.36 Gan gydnabod maint sylweddol y tir amaethyddol a geir, gallai datblygiadau'r dyfodol yn y Fro arwain at golli tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg, yn enwedig o gofio bod y rhan fwyaf o dir amaethyddol ym Mro Morgannwg yn cael ei dosbarthu'n Radd 2 neu Radd 3. Mae tir amaethyddol, yn enwedig tir sy'n defnyddio dulliau ffermio megis troi'r pridd dull cadwraeth, hefyd yn gweithredu fel sinc carbon, gan storio carbon yn y pridd trwy'i secwestru. Pan aflonyddir ar dir, fel pan fo'n cael ei ddatblygu ar gyfer tai, mae carbon yn cael ei ryddhau i'r atmosffer, gan gyfrannu at y newid yn yr hinsawdd. Gan fod 85% o'r Fro yn dod o dan dir amaethyddol, bydd yn anodd osgoi datblygiad yma; fodd bynnag, gellir rhoi mesurau lliniaru ar waith o hyd i sicrhau yr aflonyddir ar y pridd cyn lleied â phosibl.

8.37 Mae'r Fro yn gyfrannwr pwysig at ddarparu mwynau yn rhanbarthol gyda nifer o safleoedd gweithredol ledled yr awdurdod. Felly, bydd yn bwysig i'r CDLlN ddiogelu'r safleoedd hyn ac atal echdynnu adnoddau ymhellach, yn ogystal â cheisio sicrhau bod y gwaith adfer yn cael ei wneud lle bo hynny'n briodol.

8.38 O ran gwastraff, ar hyn o bryd mae swm y gwastraff cartref sy'n cael ei gasglu gan y Cyngor i'w ailddefnyddio a/neu ailgylchu yn y Fro yn fwy na'r targed statudol. Yn ogystal â hyn, mae gan y Fro lefel gymharol isel o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill Cymru. Felly, mae'n bwysig i'r CDLlN osod mesurau i gynnal neu leihau gwastraff yn y Fro.

## Prif faterion

8.39 Roedd yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth sylfaenol yn llywio'r broses o nodi sawl mater allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Er nad oes ARhAA yn y Fro, mae allyriadau aer yn uwch yn ne a dwyrain yr awdurdod, gan gynnwys y Barri. Dylai allyriadau gael eu rheoli a'u monitro'n rhagweithiol trwy'r CDLlN sydd ar ddod.

- Mae ansawdd dŵr yn y Fro yn dda ar y cyfan, gan gynnwys dyfroedd ymdrochi.
- Ceir pum Parth Diogelu Tarddiad Dŵr Daear yn y Fro.
- Mae tua 85% (28,132 hectar) o dir yn y Fro yn dir amaethyddol, y mae llawer ohono'n dir Gradd 2 neu 3, ac mae'n cyfrannu at storio carbon o dan y ddaear.
- Mae Bro Morgannwg yn gyfrannwr pwysig at gyflenwad mwynau'r rhanbarth ac mae'n cynnwys sawl safle mwynau gweithredol.
- Mae dwy ganolfan ailgylchu yn y Fro a nodir bod angen adnewyddu'r safle yn Llandŵ ar frys.
- Wrth ystyried y materion allweddol uchod, cydnabyddir bod dulliau polisi'n gwthio tuag at ddull cyfannol a chynaliadwy o reoli, diogelu a defnyddio adnoddau naturiol, gan gynnwys trwy fesurau wedi'u targedu i wella canlyniadau amgylcheddol sy'n ymwneud ag ansawdd aer, pridd, tir, dŵr a gwastraff er mwyn sicrhau'r canlyniadau buddiol mwyaf posibl i ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.
- Mae polisi yn atgyfnerthu'r angen i ystyried y gydberthynas rhwng datblygiadau cynlluniedig a'r ffactorau a grybwyllir uchod, gyda phwyslais yn cael ei roi ar effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd, yr angen am ddefnydd effeithlon o dir, effeithlonrwydd defnyddio adnoddau a gwarchod yr amgylchedd naturiol.

# Amcanion ACI

8.40 O ystyried y materion allweddol a drafodir uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau gwrthrychol ac asesu canlynol:

| **Amcan ACI** | **Cwestiynau asesu –** a fydd y cynllun / polisi yn helpu i: |
|---|---|
| Nodi a mynd ar drywydd unrhyw gyfleoedd i leihau cysylltiad y boblogaeth â llygredd aer cymaint â phosib. | • Lleihau'r angen i deithio?<br>• Annog teithiau i gael eu gwneud trwy ddulliau cynaliadwy (teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus)?<br>• Osgoi unrhyw effeithiau andwyol ar ansawdd aer ac ar gyfer pobl sy'n agored i ansawdd aer gwael?<br>• Gwella ansawdd aer mewn meysydd a nodwyd fel rhai sy'n peri pryder?<br>• Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o gerbydau trydan?<br>• Hyrwyddo dylunio da er mwyn osgoi effeithiau ar ansawdd aer a lleihau sŵn a diogelu, ymgorffori a gwella rhwydweithiau seilwaith gwyrdd er mwyn hwyluso mwy o amsugno a gwasgaru $NA_2$ a llygryddion eraill? |
| Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau | • Lleihau colli tir amaethyddol o safon uchel o bosibl i ddatblygiadau? |

| **Amcan ACI** | **Cwestiynau asesu –** a fydd y cynllun / polisi yn helpu i: |
|---|---|
| sy'n bodoli eisoes i leihau'r pwysau ar gyfer datblygu meysydd glas a diogelu tir amaethyddol gradd uwch, lle y bo'n bosibl. | • Diogelu a lleihau colli'r adnodd pridd ac annog rheolaeth briodol i wella ei swyddogaethau storio carbon a rheoli dŵr?<br>• Annog y defnydd o dir a ddatblygwyd o'r blaen?<br>• Annog gwaith adfer sy'n gysylltiedig â datblygu a allai leihau presenoldeb tir halogedig ym Mro Morgannwg? |
| Diogelu adnoddau mwynau a chefnogi'r gwaith o reoli gwastraff. | • Mynd i'r afael â gwastraff trwy leihau gwastraff fel blaenoriaeth?<br>• Rheoli gwastraff yn unol â'r hierarchaeth gwastraff ac yng nghyd-destun 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'?<br>• Osgoi sterileiddio adnoddau mwynau lle bo hynny'n bosibl? |
| Gwarchod, diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr, ansawdd y dŵr ac adnoddau dŵr. | • Lleihau'r defnydd o ddŵr?<br>• Sicrhau y gellir darparu cyflenwad digonol o ddŵr i gynnal y datblygiad gan ystyried amcanestyniadau presennol ac yn y dyfodol o argaeledd dŵr a defnydd dŵr?<br>• Lleihau'r potensial ar gyfer halogi cyrff dŵr a chyrsiau dŵr?<br>• Lleihau'r potensial i arferion amaethyddol gyfrannu at lygru sy'n seiliedig ar nitradau ar gyrff dŵr a chyrsiau dŵr? |

# 9. Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth

9.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar ddiddordebau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth ym Mro Morgannwg a'r cyffiniau.

## Cyd-destun polisi

9.2 Mae **Tabl 9.1** yn cyflwyno'r dogfennau mwyaf perthnasol a nodwyd yn yr adolygiad polisi at ddibenion y CDLlN a'r ACI.

**Tabl 9.1 Cynlluniau, polisïau a strategaethau a adolygir mewn perthynas â bioamrywiaeth a geoamrywiaeth**

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn gyhoeddi |
|---|---|
| Deddf Cynllunio Cymru | 2015 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 2015 |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) | 2016 |
| Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol) | 2021 |
| Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) | 2021 |
| Cynllun Adfer Natur Cymru | 2015 |
| Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru | 2019 |
| Ail-greu ar ôl Covid: Heriau a Blaenoriaethau, ein dull o ail-greu | 2020 |
| Adroddiad am Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau | 2019 |
| Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (AaSAN) | 2020 |
| Datganiad Ardal Canol De Cymru | 2017 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio | 2009 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 10: Gorchmynion Diogelu Coed | 1997 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 12: Dylunio | 2016 |
| Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg | 2017 |

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn gyhoeddi |
|---|---|
| **Asesiad Lles Bro Morgannwg** | 2021 |
| **Blaengynllun Bioamrywiaeth Bro Morgannwg** | 2019 |

9.3 Crynhoir isod y negeseuon allweddol sy'n deillio o'r adolygiad:

- Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau well (Dyletswydd Adran 6). Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru a bydd yn helpu i wneud y mwyaf o gyfraniadau at gyrraedd y nodau lles. Mae'r Cynllun Adfer Natur yn cefnogi'r gofyniad deddfwriaethol hwn i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, mynd i'r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth trwy roi natur wrth wraidd gwneud penderfyniadau a chynyddu gwydnwch ecosystemau trwy gymryd camau penodol sy'n seiliedig ar y chwe amcan ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau.
- Bydd yn ofynnol i'r CDLlN gydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol, sy'n gosod y fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir, gan roi cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith/twf newydd. Bydd y CDS ar gyfer De-ddwyrain Cymru hefyd yn ceisio mynd i'r afael â ffactorau rhanbarthol sy'n cynnwys cynllunio ar gyfer bioamrywiaeth, yn benodol cadwraeth bywyd gwyllt a chynefinoedd. Er mwyn hybu Bro Morgannwg fel ffocws ar gyfer twf, bydd angen rheoli, amddiffyn, a gwella bioamrywiaeth yn ofalus, gan gefnogi gwydnwch ecosystemau yn yr hirdymor. Mae Cymru’r Dyfodol yn nodi y bydd y system gynllunio yn sicrhau bod bywyd gwyllt yn gallu ffynnu mewn cynefinoedd iach ac amrywiol, mewn ardaloedd trefol a gwledig, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision lluosog i bobl a byd natur.
- Mae PCC ac NCTau atodol yn darparu polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â bioamrywiaeth. Mae PCC yn tynnu sylw at rôl y system gynllunio wrth helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynyddu gwydnwch ecosystemau, ar raddfeydd amrywiol, trwy sicrhau bod mecanweithiau priodol ar waith i amddiffyn rhag colled ac i sicrhau gwelliannau. Rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu na ddylai datblygiadau achosi unrhyw golled sylweddol mewn cynefinoedd na phoblogaethau rhywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol, a rhaid iddynt ddarparu budd net i fioamrywiaeth.
- Mae NCT 5 (Cadwraeth Natur a Chynllunio) yn rhoi cyngor ar sut dylai’r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol, gan osod egwyddorion allweddol cynllunio cadarnhaol ar gyfer cadwraeth natur.
- Mae Blaengynllun Bioamrywiaeth Bro Morgannwg yn edrych ar sut mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gwella adnoddau naturiol i sicrhau bod bioamrywiaeth a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried ym mhob maes gwasanaeth a’u bod yn themâu craidd wrth ddarparu gwasanaethau, gan ddod yn rhan annatod o'r prosesau gwneud penderfyniadau ledled y Cyngor. Bydd rhan dau o'r

Cynllun yn cael ei gwireddu trwy gamau penodol sydd eu hangen i gyflawni amcanion a nodir yn Rhan 1 a rhoi cerrig milltir a thargedau.

# Crynodeb sylfaenol

## Safleoedd â dynodiad rhyngwladol

9.4 Mae safleoedd â dynodiad rhyngwladol yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a Safleoedd Ramsar. Mae gan Fro Morgannwg ddau safle â dynodiad rhyngwladol o fewn ei ffin weinyddol: - Bae Dunraven (ACA) ac Aber Afon Hafren (SAC, AGA, Ramsar) ac mae'n agos yn uniongyrchol i ACA Cynffig ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

9.5 Dangosir lleoliadau'r safleoedd hyn yn **Ffigur 9.1** ar ddiwedd y bennod hon. Ceir rhagor o fanylion am bob un o'r safleoedd dynodedig hyn isod.

9.6 Yn ne'r Fro, roedd **ACA Aber Afon Hafren** (sydd hefyd yn safle gwlyptir Ramsar o bwys rhyngwladol) yn ardal bwysig ar gyfer adar gwyllt a hirgoes sy'n gaeafu, ac yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Mae'r aber hefyd yn cynnal poblogaethau o bysgod mudol sydd o bwys rhyngwladol.

9.7 Y cynefinoedd Atodiad I a'r rhywogaethau Atodiad II sydd ymhlith y prif resymau dros ddynodi'r safle hwn yw:[158]

- 1130 Aberoedd.
- 1140 Fflatiau llaid a thywod nad ydynt yn cael eu gorchuddio gan ddŵr y môr pan fo'r llanw ar drai.
- 1330 Dolydd arfor Iwerydd (Glauco-Puccinellietalia maritimae).
- 1095 Lampreiod y môr (Petromyzon marinus).
- 1099 Lampreiod yr afon (Lampetra fluviatilis); a
- 1103 Gwangod (Alosa fallax).

9.8 Mae **ACA Bae Dwnrhefn** yn rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Southerndown ac fe'i dynodir felly oherwydd presenoldeb anghyffredin tafol y twyni, un o blanhigion prinnaf Ewrop.

9.9 Y rhywogaeth atodiad II '1441 Tafol y Twyni' yw'r prif reswm dros ddynodi'r safle hwn. Y rhyw 20 o sbesimenau o dafol y twyni (*Rumex rupestris*) sy'n tyfu yma ar galchfaen arfordirol llaith yw'r unig enghreifftiau o'r rhywogaeth sydd ar ôl o'i hamrediad Môr Hafren gynt. Mae'r rhywogaeth wedi diflannu trwy golli llaciau twyni llaith a thraethellau cerrig mân o safleoedd eraill ym Merthyr Mawr, Cynffig, Twyni Braunton a Phennard ond mae'n gymharol ddiogel ar y safle serth anhygyrch hwn. Mae poblogaeth Bae Dwnrhefn yn ffynhonnell hadau sylweddol ar gyfer ailgytrefu twyni tywod a Môr Hafren a phenrynau pan fydd rheolaeth yn y dyfodol yn adfer y cynefinoedd hyn i gyflwr ffafriol.[159]

9.10 Er ei fod y tu allan i ffin yr awdurdod lleol, nodir bod **ACA Cynffig** o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'i bod yn cyffinio â Bro Morgannwg.

[158] JNCC (heb ddyddiad): 'Severn Estuary', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[159] JNCC (heb ddyddiad): 'Bae Dwnrhefn', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

Mae'n system twyni tywod gyfan i raddau helaeth gydag ardaloedd helaeth o lystyfiant twyni sefydlog.

Y cynefinoedd Atodiad I a'r rhywogaethau Atodiad II sydd ymhlith y prif resymau dros ddynodi'r safle hwn yw:[160]

- 2130 Twyni arfordirol sefydlog gyda llystyfiant llysieuol ("twyni llwyd").
- 2170 Twyni tywod gyda Salix repens ssp. argentea Salicion arenariae.
- 2190 Llaciau twyni llaith.
- 3140 Dyfroedd oligo-mesotroffig caled gyda llystyfiant benthig o Chara spp.
- 1395 Petal-lys (Petalophyllum ralfsii); a
- 1903 Tegeirian y fign (Liparis loeselii).

## Safleoedd â dynodiad cenedlaethol

9.11 Mae safleoedd â dynodiad cenedlaethol yn cynnwys **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).** Ceir 28 SoDdGA ar draws y fwrdeistref sirol, fel y dangosir yn **Ffigur 9.2**, a ddynodwyd ar gyfer eu bioamrywiaeth neu eu diddordeb geoamrywiaeth, sy'n cwmpasu 941ha.

9.12 Yn ôl trefn o'r mwyaf i'r lleiaf, mae'r rhain fel a ganlyn:

- Arfordir Southerndown (151 hectar).
- Arfordir yr As Fawr (129 hectar).
- Coedydd y Barri (120 hectar).
- Old Castle Down (79 hectar).
- Arfordir Dwyrain Aberddawan (68 hectar).
- Aber Afon Hafren (64 hectar).
- Dyffryn Elái (59 hectar).
- Arfordir Penarth (51 hectar).
- Chwareli Ewenni a'r Pant (29 hectar).
- Trwyn Hayes i Garreg Bendrick (28 hectar).
- Llynnoedd Cosmeston (26 hectar).
- Fferm Walters (25 hectar).
- Coetiroedd Nant Whitton (22 hectar).
- Ynys y Barri (15 hectar).
- Coed y Clogwyn - Grisiau Aur (13 hectar).
- Cog Moors (13 hectar).
- Cors Aberthin (12 hectar).
- Ynys Sili (11 hectar).

[160] JNCC (dim dyddiad): 'Cynffig', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

- Cwm Cydfin, Lecwydd (5 hectar).
- Dolydd Clemenstone, Y Wig (5 hectar).
- Pysgodlyn Mawr (4 hectar).
- Rhos Breigam (4 hectar).
- Larks Meadows (3 hectar).
- Coed y Bwl (2 hectar).
- Cnap Twt (1 hectar).
- Dôl Goleudy yr As (1 hectar).
- Cae'r Plwyf, Cae'r Rhedyn (1 hectar).

### Coetir hynafol

9.13 Mae'r Fro'n cynnwys 1,568 hectar o Goetir Hynafol, er mai dim ond 8.2% o arwyneb y sir yw hyn sy'n llawer is na chyfartaledd Cymru, sef 14%.[161] Fel y dangosir yn **Ffigur 9.2**, ceir darnau o Goetir Hynafol ledled y Fro. Nodir bod rhai wedi'u dynodi'n SoDdGA ac yn cynnal poblogaethau pathewod. Mae'r coetiroedd hyn wedi'u cysylltu gan y rhwydwaith helaeth o wrychoedd yn yr awdurdod. Mae coetiroedd yn gorchuddio 8.2% o'r sir sy'n llawer is na chyfartaledd Cymru, sef 14%.

9.14 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n rheoli 330 hectar o goetiroedd cymysg bach - planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol yn bennaf - ar ran Llywodraeth Cymru. Mae gwerth cadwraeth uchel i lawer o'r coetiroedd yn y Fro ac mae rhai yn cynnig cyfleoedd hamdden ffurfiol ac anffurfiol (mae'r rhan fwyaf yn eiddo preifat).[162]

9.15 Mae pob coetir yn ne Cymru o fewn Parth Rheoli Clefyd (PRhC) ar gyfer Phytophthora ramorum (clefyd coed llarwydd). Roedd coed llarwydd yn ffurfio cyfran uchel o goedwigaeth De Cymru ac mae cael gwared arnynt yn cael effaith amlwg ar y bioamrywiaeth a'r dirwedd mewn sawl ardal.

### Arfordir Treftadaeth

9.16 Mae Arfordiroedd Treftadaeth yn ffurfio tua thraean o arfordir Cymru, hynny yw 500 km (300 milltir). Sefydlwyd y safleoedd hyn i ddiogelu ein harfordiroedd rhag datblygu ansensitif. Mae'r rhan fwyaf yn cael eu diffinio gan yr arfordir rhwng dau bwynt a enwir, ond mae gan rai ffiniau mewndirol sydd wedi'u diffinio'n glir.[163] Mae'r Fro yn cynnwys 53 cilometr o arfordir gan gynnwys 23 cilometr o Arfordir Treftadaeth Morgannwg (gweler **Pennod 10** am ragor o fanylion). Mae Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn gyfoethog o ran bywyd gwyllt, gan gynnwys dyffrynnoedd coediog a chynnal amrywiaeth o rywogaethau, gan gynnwys adar sy'n bridio.

---

[161] Cyngor Bro Morgannwg (2019): 'Blaengynllun Bioamrywiaeth', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[162] Ibid.
[163] Mae Lle (2021) Arfordiroedd Treftadaeth ar gael [ar-lein] yn: http://lle.gov.wales/catalogue/item/ProtectedSitesHeritageCoast/?lang=cy.

## Safleoedd â dynodiad lleol

9.17 Fel y dangosir yn **Ffigur 9.3** isod, ceir safleoedd â dynodiad lleol ledled y Fro.

9.18 Nodir **Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SoBCN)** i ddiogelu ardaloedd sydd o werth bywyd gwyllt uchel ar lefel leol. Maen nhw'n ddynodiad cynllunio awdurdodau lleol sy'n ymwneud â Pholisi MG33 y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig 2011-2026. Mae tua 360 SoBCN ar wasgar ledled yr awdurdod yn ogystal â sawl SoBCN ymgeisiol.[164]

9.19 Mae **Safleoedd Daearegol a geomorffolegol o Bwys Rhanbarthol (SGBRh)** yn safleoedd â dynodiad lleol o bwysigrwydd lleol, cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer geoamrywiaeth (daeareg a geomorffoleg). Ceir 12 SGBRh gan gynnwys Ynys Sili a Chwarel Gwenfô.

9.20 Mae **Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl)** yn eiddo i Gyngor Bro Morgannwg neu'n cael eu rheoli ganddo ac mae tair ohonynt o fewn ei ffiniau ar hyn o bryd: yng Nghoedwig Birchgrove (Y Barri), Coed y Clogwyn (Porthceri) a Chwm Talwg (hefyd yn y Barri).

9.21 Yn ogystal, ceir saith **safle a reolir gan yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt** sy'n cwmpasu 93 hectar o dir ar draws y Fro. Hefyd mae dwy Warchodfa Coed Cadw yn ardal Dinas Powys, a dau Barc Gwledig yn Llynnoedd Comeston a Phorthceri (gweler **Pennod 4**). Mae dros 500 hectar o dir comin hefyd.

## Cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth

### Rhywogaethau

9.22 Ceir nifer o rywogaethau o bwysigrwydd bioamrywiaeth ledled Bro Morgannwg. Mae poblogaeth a dosbarthiad dyfrgwn wedi cynyddu'n aruthrol o lefelau'r 1960au a'r 1970au ac ystyrir hyn yn llwyddiant cadwraethol mawr. Y prif reswm am y cynnydd hwn oedd y gostyngiad yn lefelau plaladdwyr gwenwynig a oedd yn niweidio dyfrgwn yn y 1960au a'r 1970au, ond mae'n debyg bod y gwelliannau cyffredinol o ran ansawdd dŵr ac o ganlyniad i gynnydd mewn stociau pysgod wedi chwarae rhan sylweddol.

9.23 Y dyfrgi Ewropeaidd (*Lutra lutra*) yn ddangosydd biolegol pwysig o iechyd afonydd a gwlyptiroedd. Felly, mae monitro statws y dyfrgi yn rhoi mesur gwerthfawr i ni o gyflwr ein hecosystemau dŵr a gwlyptir. Mae dyfrgwn yn bresennol trwy gydol systemau afonydd Bro Morgannwg, gyda lefelau gweithgarwch arbennig o uchel ar hyd Afon Ddawan a'i llednentydd.

9.24 Mae Bawd y Melinydd (*Cottus gobio*) i'w weld ym Mro Morgannwg, sef pysgodyn bychan sy'n byw ar waelod amrywiaeth o afonydd, nentydd a llynnoedd caregog. Ymddengys ei fod yn ffafrio dŵr bas, clir sy'n llifo'n gyflym, gydag is-haen galed (graean/cobls/cerigos) ac fe'i ceir yn aml ym mlaenddyfroedd nentydd ucheldir. Fodd bynnag, fe'u ceir hefyd mewn safleoedd iseldir ar is-haenau meddalach cyhyd ag y mae'r dŵr yn cael ei ocsigenu'n dda ac mae digon o orchudd. Nid yw i'w weld mewn afonydd sydd wedi'u llygru'n wael.

[164] Ibid

9.25 Ymhellach i'r tir, mae glaswelltir tonnog a reolir yng Nghwm Alun yn cynnal unig boblogaeth Cymru o'r Fritheg Frown.

9.26 Ledled y sir, mae'r Fadfall Ddŵr Gribog yn gyffredin. Mae'r mosäig cyfoethog o gynefinoedd yn cynnal llawer o rywogaethau ystlumod, yn enwedig yr Ystlum Pedol Lleiaf sydd â 4 o glwydi mamolaeth hysbys o fewn y sir. Mae Bro Morgannwg hefyd yn cynnal nythfa famolaeth fawr o ystlumod adain-lydan, rhywogaeth sy'n anghyffredin yng Nghymru. Mae'r caeau amaethyddol mawr yn y Fro yn bwysig ar gyfer cynnal poblogaethau o'r ehedydd a'r gornchwiglen.

### Cynefinoedd

9.27 Er gwaethaf ei hardal gymharol fach, mae daeareg, lleoliad arfordirol, a rheoli tir Bro Morgannwg yn arwain at amrywiaeth fawr o gynefinoedd. Mae 19 o gynefinoedd allweddol y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CGB) y paratowyd cynlluniau cynefinoedd wedi'u costio ar eu cyfer i'w gweld yn y Fro (gweler **Ffigur 9.3**). Ymhlith y rhain mae cynefinoedd, sy'n gymharol brin yng Nghymru, megis llynnoedd mesotroffig (fel ym Mhysgodlyn Mawr) a morlynnoedd heli (fel yn Aberddawan).[165]

9.28 Er bod maint y rhan fwyaf o'r cynefinoedd allweddol (megis gweundir iseldir, gwelyau cyrs, coetir gwlyb) ym Mro Morgannwg yn fach, o'u cymharu ag awdurdodau eraill, mae'n debygol fod gwrychoedd hynafol llawn rhywogaethau yn yr ardal yn ffurfio canran sylweddol o gyfanswm Cymru. Yn yr un modd, fel un o'r prif ardaloedd âr yng Nghymru, mae'n bosib bod maint ymylon caeau ŷd yn sylweddol.


9.29 Ymhlith cynefinoedd eraill o bwys lleol ym Mro Morgannwg sy'n cyfrannu at y fioamrywiaeth leol nodweddiadol, neu sy'n cynnal rhywogaethau bioamrywiaeth allweddol mae hen chwareli (sy'n darparu cynefinoedd ar gyfer adar ysglyfaethus, gloÿnnod byw, planhigion a chennau), lleiniau ymyl (rhywogaethau glaswelltir gweddilliol sydd, fel rheilffyrdd segur, yn gallu gweithredu fel coridorau bywyd gwyllt), tir diffaith (fel hen ddociau, sy'n ddeniadol i rai rhywogaethau o adar ar gyfer nythu, ac a allai gynnwys planhigion prin), a pharciau a gerddi.[166]

9.30 Ceir hefyd sawl Parth Cadwraeth Lleiniau Ymyl Priffyrdd yn y Sir. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o fathau o laswelltir sy'n llawn rhywogaethau gyda ffosydd a gwrychoedd cysylltiedig.


9.31 Yn ogystal â hyn, mae parciau gwledig a reolir ar gyfer bywyd gwyllt a'r cyhoedd hefyd yn cyfrannu at gynefinoedd.

[165] Capita Symonds (2013): 'Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Bro Morgannwg Cyfrol 2: Adroddiad Asesiad Amgylcheddol Strategol'
[166] Ibid


## Ffigur 9.1 Dynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol



## Ffigur 9.2 Dynodiadau bioamrywiaeth cenedlaethol



## Ffigur 9.3 Dynodiadau bioamrywiaeth lleol a chynefinoedd â blaenoriaeth



## Llinell sylfaen y dyfodol

9.32 Gallai cynefinoedd a rhywogaethau'r potensial ddod o dan bwysau cynyddol trwy ddarparu tai, cyflogaeth a seilwaith newydd o fewn ardal y cynllun a'r cyffiniau. Gallai hyn gynnwys mwy o aflonyddwch (hamdden, sŵn a golau) a llygredd atmosfferig yn ogystal â cholli cynefinoedd a darnio rhwydweithiau bioamrywiaeth. Bydd colli a darnio cynefinoedd yn cael eu gwaethygu gan effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, a allai arwain at newidiadau yn nosbarthiad a thoreth rhywogaethau a newidiadau i gyfansoddiad cynefinoedd. Mae hyn yn cynnwys colli cynefinoedd naturiol neu ddirywiad yn eu safon oherwydd pwysau o ganlyniad i wasgfa arfordirol a achosir gan erydiad sy'n gysylltiedig â chodiadau yn lefel y môr.

9.33 Gallai buddion i fioamrywiaeth godi trwy integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth cynyddol o fewn cynllunio ac ymdrechion i ddiogelu a gwella rhwydweithiau seilwaith gwyrdd ar draws ardal y cynllun, ac yn rhanbarthol. Er mwyn cynnal a gwella cyflwr bioamrywiaeth yn y dyfodol, nid yn unig y bydd yn bwysig amddiffyn a gwella cynefinoedd pwysig ond y cysylltiadau rhyngddynt.

9.34 Heb y CDLlN, byddai datblygu hapfasnachol yn parhau i fynd yn ei flaen o dan y CDLl mabwysiedig ar hyn o bryd. Mae'r CDLlN yn rhoi cyfle i gydlynu'r gwaith o ddarparu twf i ddiwallu anghenion y dyfodol, amddiffyn a lleihau effeithiau ar fioamrywiaeth a cheisio cyfleoedd strategol i sicrhau budd net bioamrywiaeth lle bo hynny'n bosibl.

## Prif faterion

9.35 Roedd yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth sylfaenol yn llywio'r broses o nodi sawl mater allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Mae nifer helaeth o safleoedd dynodedig ar gyfer bioamrywiaeth yn y fwrdeistref sirol, gan gynnwys Ardal Cadwraeth Arbennig a Safle Ramsar Aber Afon Hafren, ACA Bae Dwnrhefn a Gwarchodfa Natur Genedlaethol gyfagos Merthyr Mawr, a 27 SoDdGA. Yn lleol, mae asedau bioamrywiaeth yn cynnwys dros 300 SoBCN, 12 SGBRh a sawl GNL. Mae'n bwysig na fydd unrhyw ddatblygiad newydd yn tanseilio cyfanrwydd safleoedd dynodedig.
- Ceir llawer o gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth ledled y Fro. Mae cynefinoedd â blaenoriaeth, mannau trefol a gwyrdd, ardaloedd arfordirol a chyrff dŵr i gyd yn darparu cysylltedd ecolegol, gan gefnogi mannau cydlynol, cysylltiedig lle gall bioamrywiaeth ffynnu. Bydd yn bwysig i unrhyw ddatblygiad newydd sicrhau bod y rhwydwaith ecolegol hwn yn cael ei ddiogelu a'i wella'n lleol ac yn isranbarthol.
- Dylai datblygu yn y dyfodol geisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer buddion net o ran bioamrywiaeth, gan wella cysylltiadau ecolegol a lleihau niwed oherwydd llygredd atmosfferig lle y bo'n bosibl. Yn ei dro, bydd hyn yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd, wrth fynd i'r afael â darnio cynefinoedd.

# Amcanion ACI

9.36 O ystyried y materion allweddol a drafodir uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau gwrthrychol ac asesu canlynol:

| Amcanion ACI | **Cwestiynau asesu –** a fydd y cynllun / polisi yn helpu i: |
|---|---|
| Diogelu a gwella bioamrywiaeth ym Mro Morgannwg a’r cyffiniau. | • Lleihau'r effeithiau ar fioamrywiaeth ddynodedig a phwysig a darparu buddion net lle bo hynny'n bosibl?<br>• Diogelu a gwella rhwydweithiau ecolegol, gan gynnwys y rhai sy'n croesi ffiniau gweinyddol?<br>• Cefnogi cyfleoedd ar gyfer seilwaith gwyrdd, sydd â manteision canlyniadol i fywyd gwyllt, gan gysylltu cynefinoedd ac osgoi darnio cynefinoedd? |

# 10. Amgylchedd hanesyddol:

10.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar asedau hanesyddol dynodedig a heb eu dynodi (gan gynnwys archaeoleg) a'u lleoliad.

## Cyd-destun polisi

10.2 Mae **Tabl 10.1** yn cyflwyno'r dogfennau mwyaf perthnasol a nodwyd yn yr adolygiad polisi at ddibenion y CDLIN a'r ACI.

**Tabl 10.1 Cynlluniau, polisïau a strategaethau a adolygwyd mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol**

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn gyhoeddi |
|---|---|
| Deddf Cynllunio (Cymru) | 2015 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 2015 |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) | 2016 |
| Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) | 1990 |
| Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol) | 2021 |
| Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) | 2021 |
| Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) | 2016 |
| Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru | 2013 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 12: Dylunio | 2016 |
| NCT 20: Cynllunio a'r Gymraeg | 2017 |
| Nodyn Cyngor Technegol 24 (NCT 24) Yr Amgylchedd Hanesyddol | 2017 |
| Siarter Creu Lleoedd Cymru | 2020 |
| Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy | 2011 |
| Cadw: Canllaw arfer gorau | Amrywiol |
| Trysorau Sirol Bro Morgannwg | 2009 |

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn gyhoeddi |
|---|---|
| Cynllinau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth Bro Morgannwg | 2009 |
| Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg | 2017 |

10.3 Crynhoir isod y negeseuon allweddol sy'n deillio o'r adolygiad:

- Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn un darn o ddeddfwriaeth a fydd yn rhan o gyfres o ddeddfwriaeth, polisi, cyngor a chanllawiau a fydd yn gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol ar gyfer diogelu amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli'n gynaliadwy.
- Mae Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru yn cydnabod cyfraniad yr amgylchedd hanesyddol at ansawdd bywyd yng Nghymru, ac felly'n gosod mesurau i alluogi diogelu treftadaeth leol ac i annog mynediad i'r cyhoedd, eu mwynhad a'u cyfranogiad. Mae mesurau arfaethedig yn ceisio cyfrannu at ansawdd bywyd ac ansawdd lle a chefnogi'r agenda trechu tlodi. Byddant hefyd yn creu hyder unigol a chymunedol ac ymdeimlad o berthyn.
- Bydd yn ofynnol i'r CDLlN gydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol, sy'n gosod y fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir, gan roi cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith/twf newydd. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod Bro Morgannwg o fewn rhanbarth De-ddwyrain Cymru, y lleiaf o'r pedwar rhanbarth yn ôl arwynebedd, sy'n cynnwys dinasoedd arfordirol Caerdydd a Chasnewydd a chyn-gadarnleoedd diwydiannol cymoedd De Cymru. Dylai'r CDLlN nodi polisïau a chynigion sy'n adlewyrchu'r materion economaidd a chymdeithasol strwythurol sy'n effeithio ar ffyniant a lles trigolion. Mae hyn yn helpu i greu lleoedd iach a bywiog, gan ddiogelu'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd hanesyddol.
- Mae PCC ac NCTau atodol yn darparu polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol. Ni ddylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ailadrodd polisi cenedlaethol ond cynnwys polisïau cadarn clir ar gyfer dylunio yn eu cynlluniau datblygu sy'n mynd i'r afael â materion lleol ac a ddylai fod yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol. Dylai'r rhain nodi disgwyliadau dylunio'r Awdurdod Cynllunio Lleol.
- Mae NCT 12 (Dylunio) yn nodi 'cymeriad' fel un o'r pum agwedd ar ddylunio da. Mae'r amcanion yn hyn o beth yn cynnwys 'cynnal a gwella cymeriad lleol', gan ddefnyddio dylunio i ymateb i 'nodweddion a thirnodau adnabyddus a dealladwy' a 'phatrymau a ffurfiau datblygu sy'n nodedig yn lleol'.
- Mae NCT 24 (Amgylchedd Hanesyddol) yn ganllaw i sut mae'r system gynllunio yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol yn ystod paratoi cynllun datblygu a gwneud penderfyniadau, gyda chanllawiau penodol yn cael eu darparu ar sut y dylid ystyried agweddau canlynol yr amgylchedd hanesyddol:
  - safleoedd treftadaeth y byd.
  - cofebion rhestredig.

  - olion archaeolegol.
  - adeiladau rhestredig.
  - ardaloedd cadwraeth.
  - parciau a gerddi hanesyddol.
  - tirweddau hanesyddol.
  - asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig.
- Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru yn datblygu’r ffocws cynyddol ar greu lleoedd mewn polisïau ac arferion yng Nghymru a'r nod yw rhoi dealltwriaeth gyffredin o'r amrywiaeth o ystyriaethau a wneir wrth greu lleoedd. Mae'r siarter yn amlinellu'r chwe egwyddor creu lleoedd canlynol sy'n ymdrin â'r amrywiaeth o ystyriaethau sy'n cyfrannu at sefydlu a chynnal lleoedd da:
  - Pobl a’r gymuned.
  - Symudiad.
  - Lleoliad.
  - Tir cyhoeddus.
  - Cymysgedd o ddefnyddiau.
  - Hunaniaeth.
- Mae Cadw wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau arfer gorau sy'n ategu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi a chyngor cynllunio cysylltiedig ac yn cefnogi rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru mewn ffordd gynaliadwy. Caiff pob un ei llywio gan Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy. Mae 14 teitl wedi’u rhyddhau hyd yma, a bwriedir i lawer ohonynt gael eu defnyddio gan awdurdodau cynllunio lleol, i gefnogi datblygiad polisïau a chynigion sy’n ymwneud â diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol a hyrwyddo'r Gymraeg.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod cyfraith amgylchedd hanesyddol Cymru yn bwnc addas ar gyfer un o'i phrosiectau cyntaf mewn rhaglen uchelgeisiol o atgyfnerthu deddfwriaethol. Os bydd popeth yn mynd fel a fwriedir, bydd y canlyniad yn ddeddfwriaeth newydd, gwbl ddwyieithog sy'n drefnus, yn glir ac yn hawdd ei chyrraedd[167].

## Crynodeb sylfaenol

10.4 Mae amgylchedd hanesyddol Bro Morgannwg yn cynnwys llawer o nodweddion: adeiladau, adeileddau, cofebion, gweddillion, safleoedd archeolegol, gerddi, parciau, tirweddau (gweler **Pennod 11**) a’u lleoliadau. Cyflwynir lleoliad asedau hanesyddol dynodedig, gan gynnwys henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, parciau a gerddi, ardaloedd cadwraeth ac asedau morwrol, yn **Ffigur 10.1** yn ddiweddarach yn y bennod hon.

[167] Cawd (dim dyddiad): ‘Deddfwriaeth Newydd’, ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

## Adeiladau Rhestredig

10.5 Ar hyn o bryd mae gan Fro Morgannwg 740 o Adeiladau Rhestredig y mae eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yn cael ei ddiogelu gan yr angen i gael Caniatâd Adeilad Rhestredig o dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.[168] Yn aml, mae lleoliad adeiladau o'r fath yn hollbwysig i gymeriad yr adeilad, a gellir ei gyfyngu i'w safle agos neu'i estyn i ardal lawer ehangach.

10.6 O'r 740 o Adeiladau Rhestredig yn y Fro, mae 33 yn rhai Rhestredig Gradd I.

10.7 Mae **Ffigur 10.1** yn dangos bod Adeiladau Rhestredig i'w cael ledled y Fro, y mae llawer ohonynt mewn aneddiadau megis Penarth, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen, mewn mannau sydd hefyd yn Ardaloedd Cadwraeth (a drafodir isod).

## Cofebion Rhestredig

10.8 Mae 114 o Gofebion Rhestredig dynodedig ledled y Fro (gweler **Ffigur 10.1**). Mae'r rhain ar wasgar ledled yr awdurdod, heb unrhyw grynodiadau amlwg.

## Parciau a Gerddi Cofrestredig

10.9 Mae 38 o Barciau a Gerddi Cofrestredig yn y Fro. O'r rhain, mae Castell Sain Dunwyd a Dyffryn yn Rhestredig Gradd I. Mae Ffigur 10.1 yn dangos bod Parciau a Gerddi'n gymharol wasgaredig o ran eu lleoliadau, ac modd dadlau bod crynodiad bach yng ngogledd-ddwyrain a de-orllewin y Fro.

## Ardaloedd Cadwraeth


10.10 Fel y dangosir yn **Ffigur 10.1**, ceir 40 Ardal Gadwraeth, sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at atyniad y Fro.

10.11 Dynodwyd Ardaloedd Cadwraeth y Fro oherwydd ansawdd cyffredinol yr ardal, ei chymysgedd o ddefnyddiau, ei chynllun hanesyddol, ei deunyddiau nodweddiadol, graddfa a manylion ei hadeiladau a'i mannau agored.

10.12 Mae'r Cyngor wedi paratoi arfarniadau manwl ar gyfer pob un o'i ardaloedd cadwraeth dynodedig, sydd i'w gweld yma. Mae'r arfarniadau yn diffinio nodweddion arbennig yr ardaloedd cadwraeth ac yn cynnig canllawiau ar gyfer cynlluniau datblygu a gwella. Mabwysiadwyd y rhain gan y Cyngor fel Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi polisïau'r CDLl mabwysiedig.

[168] Ystafell Bro Morgannwg (dim dyddiad): 'Adroddiad Tystiolaeth Ein Hamgylchedd', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

## Ffigur 10.1 Dynodiadau hanesyddol cenedlaethol



## Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru

10.13 Mae Bro Morgannwg yn cynnwys dwy ardal ar y Gofrestr Tirweddau Hanesyddol yng Nghymru. Trafodir yr asedau hyn, ynghyd â gwerth tirwedd hanesyddol ehangach y Fro ymhellach ym **Mhennod 11**.

## Trysorau Sirol

10.14 Mewn partneriaeth â'r gymuned ehangach, mae'r Cyngor wedi nodi adeiladau ac adeileddau ym Mro Morgannwg yr ystyrir bod ganddynt ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol lleol arbennig. Mae'r 'Trysorau Sirol' hyn yn arwyddocaol i'r gymuned leol ac maent yn cyfrannu at dreftadaeth amgylcheddol a diwylliannol y Sir. Er nad oes rhaid iddynt fod o bwys cenedlaethol i haeddu rhestriad statudol, mae eu gwerth lleol yn haeddu cael eu cadw ac felly mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r angen i gynigion datblygu ddiogelu asedau o'r fath rhag datblygu ansensitif sy'n gallu niweidio cymeriad lleol yn unigol neu drwy effaith gronnol.

10.15 Fel y dangosir yn **Ffigur 10.3** drosodd, mae 1,240 o gofnodion lleol o Drysorau Sirol yn y Fro. Ceir y rhain ar hyd y fwrdeistref sirol, gyda chlystyrau yn y prif aneddiadau (h.y., y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth).

10.16 Mae pob Trysor Sirol wedi cael ei asesu o ran ei rinweddau, ei gyfanrwydd a'i wreiddioldeb.[169] Nodwyd nodweddion / adeiladau a nodwyd yn lleol trwy bartneriaeth rhwng y Cyngor, cynrychiolwyr cynghorau tref / cymuned, Cymdeithas Penarth, cymdeithasau amwynderau lleol eraill a gwirfoddolwyr lleol annibynnol.

10.17 Mae elfen leol y rhestr o Drysorau Sirol yn cynnwys adeiladau ac adeileddau ym Mro Morgannwg, a ystyrir fel un sydd â diddordeb pensaernïol neu hanesyddol lleol arbennig. Maent yn bwysig i'r gymuned leol ac maent yn cyfrannu at dreftadaeth amgylcheddol a diwylliannol y fwrdeistref sirol. Er nad ydynt o bwys cenedlaethol sy'n angenrheidiol i haeddu rhestru statudol, mae eu gwerth lleol yn haeddu cael eu cadw.

## Archeoleg

10.18 Fel y dangosir yn **Ffigur 10.4**, mae cryn ddiddordeb archeolegol ym Mro Morgannwg, gyda chrynodiadau yng nghyffiniau aneddiadau allweddol. Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent yn casglu Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yr awdurdod.[170]


### Asedau hanesyddol o bwys lleol

10.19 Mae asedau hanesyddol o bwys lleol (AHBLl) yn nodi asedau hanesyddol lleol sydd â rôl arbennig o berthnasol yng nghyd-destun hanesyddol neu bensaernïol lleol ardal. Mae AHBLl yn chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu ac atgyfnerthu ymdeimlad o gymeriad ac unigrywiaeth lleol trwy'r amgylchedd hanesyddol. Er nad yw'r Cyngor yn cadw cofnod o asedau archeolegol sydd o bwys lleol ar hyn o bryd, bydd ymgynghori â'r Glamorgan-Gwent Archaeological


[169] Cyngor Bro Morgannwg (2009): 'Canllaw Cynllunio Atodol: Trysorau Sirol', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[170] Glamorgan - Gwent Archaeological Trust Ltd (dim dyddiad): 'Data Access and Submission', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

Trust fel rhan o'r CDLlN yn galluogi'r Cyngor i ystyried yr asedau hyn pan fydd cynigion datblygu'r dyfodol dan ystyriaeth gan y Cyngor.

## Ffigur 10.2 Trysorau Sirol



## Ffigur 10.3 Archeoleg Leol



## Llinell sylfaen y dyfodol

10.20 Mae’r Fro yn llawn asedau adeiledig hanesyddol a naturiol, gan gynnwys 740 o adeiladau rhestredig, dros 100 o henebion cofrestredig, 40 o ardaloedd cadwraeth, 18 o ardaloedd sydd wedi’u cynnwys ar y Gofrestr Tirweddau Parciau a Gerddi Hanesyddol, 2 ardal ar y Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru, ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

10.21 Yn absenoldeb y CDLlN, mae asedau hanesyddol dynodedig a’r rhai heb eu dynodi yn debygol o barhau i gael eu diogelu trwy bolisi cynllunio cenedlaethol yn ogystal â pholisïau mabwysiedig ar hyn o bryd.

10.22 Yn absenoldeb cyfleoedd posibl y CDLlN, yn enwedig rhai traws-ffiniau, gellid colli cyfleoedd posibl i wella'r dirwedd / treflun ac felly gwella'r amgylchedd hanesyddol.

## Materion allweddol

10.23 Roedd yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth sylfaenol yn llywio’r broses o nodi sawl mater allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Mae gan y Fro amrywiaeth a dosbarthiad helaeth o asedau hanesyddol, gan gynnwys 740 o adeiladau rhestredig, dros 100 o henebion cofrestredig, 40 o ardaloedd cadwraeth, 18 o ardaloedd wedi’u cynnwys ar y Gofrestr Tirweddau Parciau a Gerddi Hanesyddol a 2 ardal ar y Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Dylai arwyddocâd a lleoliad yr asedau hyn gael eu hystyried mewn datblygiadau newydd, a dylai effaith datblygiadau newydd arnynt fod yn gadarnhaol.
- Dylai datblygiadau gael eu cynllunio'n sensitif i gynnal ymdeimlad cryf o le, gan ddefnyddio trefn strydoedd, mannau agored a mathau o adeiladau a deunyddiau i greu lleoedd deniadol, croesawgar ac unigryw i fyw, gweithio ac ymweld â nhw.
- Dylai pob datblygiad sicrhau bod unrhyw ymchwiliadau archeolegol angenrheidiol yn cael eu cynnal cyn unrhyw waith perthnasol.

## Amcanion ACI

10.24 O ystyried y materion allweddol a drafodir uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau gwrthrychol ac asesu canlynol:

| **Amcanion ACI** | **Cwestiynau asesu –** a fydd y cynllun / polisi yn helpu i: |
|---|---|
| Cadw a gwella adnodd treftadaeth Bro Morgannwg, gan gynnwys ei hamgylchedd hanesyddol a'i hasedau archeolegol. | • Gwarchod a gwella arwyddocâd adeiladau ac adeileddau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol, y rhai dynodedig a heb eu dynodi fel ei gilydd, a'u lleoliad?<br>• Gwarchod a gwella diddordeb, cymeriad a golwg arbennig ardaloedd cadwraeth a'u lleoliadau?<br>• Gwarchod a gwella olion archeolegol, ac ardaloedd sy'n sensitif yn archeolegol, a chefnogi'r gwaith o gynnal ymchwiliadau archeolegol a, lle y bo'n briodol, argymell strategaethau lliniaru? |
| Hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Bro Morgannwg. | • Cefnogi mynediad i'r amgylchedd hanesyddol a diwylliannol, ei ddehongli a'i ddeall, gan gynnwys y Gymraeg? |

# 11. Y Dirwedd

11.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar dirweddau dynodedig a gwarchodedig ym Mro Morgannwg neu'r cyffiniau, yn ogystal â chymeriad tirwedd, ansawdd tirwedd a mwynder gweledol.

## Cyd-destun polisi

11.2 Mae **Tabl 11.1** yn cyflwyno'r dogfennau mwyaf perthnasol a nodwyd yn yr adolygiad polisi at ddibenion y CDLIN a'r ACI.

**Tabl 11.1 Cynlluniau, polisïau a strategaethau a adolygwyd mewn perthynas â thrafnidiaeth**

| Teitl y ddogfen | Blwyddyn gyhoeddi |
|---|---|
| Deddf Cynllunio Cymru | 2015 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 2015 |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) | 2016 |
| Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol) | 2021 |
| Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) | 2021 |
| Datganiad Ardal Canol De Cymru | 2017 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy | 2010 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 7: Rheoli hysbysebion awyr agored | 1996 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 10: Gorchmynion Cadw Coed | 1997 |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 12: Dylunio | 2016 |
| Siarter Creu Lleoedd Cymru | 2020 |
| LANDMAP | amrywiol |
| Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg | 2017 |
| Dynodiad Bro Morgannwg o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd | 2008 |

11.3 Crynhoir isod y negeseuon allweddol sy'n deillio o'r adolygiad:

- Bydd yn ofynnol i'r CDLlN gydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol, sy'n gosod y fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir, gan roi cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith / twf newydd. Bydd y CDS ar gyfer De-ddwyrain Cymru hefyd yn ceisio mynd i'r afael â ffactorau rhanbarthol fel darpariaeth tai, cyflogaeth a seilwaith, wrth roi ystyriaeth fawr i warchod a gwella tirweddau gwarchodedig, yn ogystal â chymeriad tirwedd a harddwch golygfaol. Mae Polisi 19 o fewn Cymru'r Dyfodol yn dweud y dylai Cynlluniau Datblygu Strategol sefydlu *"coridorau gwyrdd a thirweddau o bwys cenedlaethol" ar gyfer y rhanbarth*. Bydd angen iddo nodi'n glir ffiniau'r llain las y mae Cymru'r Dyfodol yn darparu ar ei chyfer (Polisi 34).
- Mae PCC ac NCTau atodol yn darparu polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â thirwedd. Mae PCC yn annog creu lleoedd effeithiol a strategol, gan gydnabod bod ystyriaethau tirwedd a seilwaith gwyrdd yn rhan annatod o'r broses ddylunio. Mae PCC yn darparu polisi cenedlaethol ar gyfer dylunio da, a dylai cynlluniau a CCA datblygu roi cyd-destun clir ar gyfer gofynion dylunio yn yr ardal leol.
- Mae NCT 12 (Dylunio) yn nodi 'cymeriad' fel un o'r pum agwedd ar ddylunio da. Mae'r amcanion yn y cyswllt hwn yn cynnwys 'cynnal a gwella cymeriad lleol', gan ddefnyddio dylunio i ymateb i 'dirweddau a threfluniau' a 'phatrymau a ffurfiau datblygu sy'n nodedig yn lleol'.
- Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru yn datblygu'r ffocws cynyddol ar greu lleoedd mewn polisïau ac arferion yng Nghymru a'r nod yw rhoi dealltwriaeth gyffredin o'r amrywiaeth o ystyriaethau a wneir wrth greu lleoedd. Mae'r siarter yn amlinellu'r chwe egwyddor creu lleoedd canlynol sy'n ymdrin â'r amrywiaeth o ystyriaethau sy'n cyfrannu at sefydlu a chynnal lleoedd da:
  - Pobl a'r gymuned.
  - Symudiad.
  - Lleoliad.
  - Tir cyhoeddus.
  - Cymysgedd o ddefnyddiau.
  - Hunaniaeth.
- Mae PCC ac NCTau perthnasol yn tynnu sylw ymhellach at bwysigrwydd safleoedd bioamrywiaeth dynodedig, cynefinoedd, coetir, nodweddion hanesyddol, tir amaethyddol a thirweddau diwylliannol. Cydnabyddir hefyd y cyfraniad cadarnhaol y gall adfer tir ei wneud o ran mynd i'r afael â thir halogedig, diraddiedig, segur, llygredig ac ansefydlog.

# Crynodeb sylfaenol

## Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol (ACTC)

11.4 Diffinnir ACTC ar raddfa dirwedd fras ar draws Cymru. Mae'r proffiliau disgrifiadol ar gyfer y 48 ardal gymeriad unigol yn tynnu sylw at yr hyn sy'n gwahaniaethu rhwng y naill dirwedd a'r llall, gan gyfeirio at eu nodweddion naturiol, diwylliannol a chanfyddiadol sy'n nodedig yn rhanbarthol.[171]

11.5 Mae llawer o heriau gwydnwch a chynllunio amgylcheddol yn cael eu hystyried orau ar 'raddfa dirwedd'. Gall disgrifiadau polisi-niwtral yr ACTC gyfrannu at ddatblygu polisïau, strategaethau neu ganllawiau cenedlaethol a rhanbarthol.

11.6 Mae'r Fro o fewn ACTC 36 – Bro Morgannwg (gweler **Ffigur 11.1** drosodd).

11.7 Dyma'r disgrifiad cryno ar gyfer yr ACTC:[172]

*"Mae'r Fro yn dirwedd iseldir fwyn nodweddiadol, sydd wedi'i ffurfio'n bennaf o lwyfandir calchfaen donnog. Mae rhewglai'n cyfrannu at ei dopograffeg donnog. Mae amrywiaeth o ddefnyddiau tir gwledig yn nodweddu'r ardal, a atgyfnerthir gan wrychoedd trwchus, coetiroedd bychain mynych a choed sydd oll yn creu ymdeimlad o glydwch ac amgáu. Mae hyn er gwaethaf ei hagosrwydd i drefi mawr fel Caerdydd fwyaf, y Barri a Phen-y-bont ar Ogwr, a nifer o nodweddion mawr adeiledig yn y Fro.*

*Mae'r dirwedd yn dod i ben yn sydyn ar yr arfordir treftadaeth gyda chlogwyni fertigol. Ceir ychydig o draethau tywodlyd, yn ogystal â cherrig mân, ond mae llawer o ddelweddau'n dangos daeareg agored yr ardal rhynglanwol, gan gynnwys gwelyo a phalmentydd. Ceir golygfeydd pen clogwyn pell tuag at Wlad yr Haf. Nodwedd amlwg sy'n effeithio ar ran o'r arfordir yw Gorsaf Bŵer fawr, fodern a swnllyd Aberddawan.*

*Yng nghanol y Fro, mae aneddiadau cryno a hanesyddol yn atgyfnerthu ymdeimlad arbennig yr ardal o le, ond gyda datblygiad modern cyfyngedig. Ac eto mae'r ardal wedi denu nifer o weithwyr proffesiynol, sy'n cymudo i Gaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr, gan ychwanegu at gymeriad mwy llewyrchus lleoedd fel y Bont-faen a Llanfleiddan.*

*Lluniwyd cymeriad hanesyddol yr ardal gan ddylanwadau Eingl-Normanaidd. Mae cestyll Normanaidd a phentrefi canoloesol wedi'u hadeiladu o amgylch eglwysi yn rhai o'r prif nodweddion. Mae tirwedd gofrestredig Llancarfan yn syfrdanol o hardd yn ogystal â bod yn drysor cymharol ddigyffwrdd o ddatblygiad hanesyddol. A'r cyfan er gwaetha'r agosrwydd cymharol agos at drefi mawr cyfagos."*

11.8 Mae'r nodweddion allweddol canlynol wedi'u nodi ar gyfer yr ACTC[173]:

- Llwyfandir iseldir calchfaen tonnog gyda rhewglai.
- Clogwyni arfordirol – yn nodi ymyl sydyn i'r dirwedd. Ar ben y clogwyni ceir glaswelltiroedd calchaidd, niwtral ac arforol sy'n llawn rhywogaethau. Mae haenau o ddaeareg yn nodweddu eu hochrau a'u llwyfannau rhynglanwol.

[171] Cyfoeth Naturiol Cymru (2021): 'Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol (ACTC)', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[172] Ibid
[173] Ibid

Golygfeydd eang dros Fôr Hafren. Mae llawer yn rhan o'r Arfordir Treftadaeth.

- Defnyddiau tir amaethyddol cymysg - gyda chymeriad gwledig yn bennaf.
- Coetiroedd bach – yn y dwyrain yn bennaf. Ychydig o goedydd mawr.
- Patrymau a meintiau caeau cymysg - gyda gwrychoedd a chloddiau gwrychoedd, coed gwrychoedd yn aml. Mae waliau calchfaen yn diffinio tir uwchben y clogwyni yn y gorllewin.
- Cestyll Normanaidd a phentrefi canoloesol wedi'u hadeiladu o amgylch eglwysi.
- Mae'r rhan fwyaf yn wledig o hyd - gydag ymdeimlad cryf o gael ei hamgáu gan ffiniau caeau hanesyddol.
- Nifer o ddatblygiadau mawr adeiledig - gan gynnwys Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a Gorsaf Bŵer Aberddawan. Rhai ardaloedd gyda sŵn traffig, e.e. yng nghoridor yr M4.
- Aneddiadau cymudwyr - tai maestrefol modern yn ymestyn ond yn cyferbynnu â'r cymeriad anheddu hanesyddol.

11.9 O ran y proffil gweledol a synhwyraidd, mae'r ardal yn dirwedd llwyfandir arbennig, y torrir trwyddi gan sawl afon gan gynnwys Elái, Ddawan a Waycock. Mae'n dal i ysgogi ymdeimlad gwledig cryf o le gyda chlytwaith o gaeau, gwrychoedd, coetiroedd a choed, a thir amaeth agored, iseldir helaeth.

11.10 Y ddelwedd fwyaf eiconig yw o Arfordir Treftadaeth Morgannwg (gweler **Pennod 10** uchod am fanylion pellach), lle daw'r dirwedd sy'n fwyn fel arall i ymyl sydyn a thrawiadol iawn, gyda chlogwyni sydd bron yn fertigol mewn mannau, traethau cerrig mân neu balmentydd carreg, ac ambell fae tywodlyd yn y gorllewin. O'r fan hon ceir golygfeydd hir ar draws Môr Hafren i Wlad yr Haf ac Exmoor. Mae'r gefnwlad arfordirol yn cael ei nodweddu gan lystyfiant wedi'i chwythu gan y gwynt o ganlyniad i fod yn agored i'r gwyntoedd mynychaf o'r de-orllewin.


11.11 Ymhellach i'r tir, mae crib Tresimwn yn ffurfio elfen dirwedd gref sy'n rhedeg ar draws canol y Fro, a adlewyrchir mewn golygfeydd tua'r de ar draws y Fro a thua'r gogledd ac i Gymoedd De Cymru.[174]

## Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Lleol (ACTLl)


11.12 Mae **Ffigur 11.2** drosodd yn dangos y 27 Ardal Cymeriad Tirwedd Lleol (ACTLl) ym Mro Morgannwg.

[174] Ibid

## Ffigur 11.1 Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol



## Ffigur 11.2 Ardaloedd cymeriad tirwedd lleol



## Ardaloedd Cymeriad Morol (ACM)

11.13 Mae morweddau, fel tirweddau, yn adlewyrchu'r berthynas rhwng pobl a lle a'r rhan y mae'n ei chwarae wrth ffurfio'r lleoliad i'n bywydau pob dydd.

11.14 Mae Ardaloedd Cymeriad Morol yn tynnu sylw at y dylanwadau naturiol, diwylliannol a chanfyddiadol allweddol sy'n gwneud cymeriad pob morwedd yn wahanol ac unigryw. Comisiynwyd CNC ar ran Llywodraeth Cymru er mwyn nodi cymeriad morweddau Cymru ar raddfa eang. Gwnaethant rannu dyfroedd glannau Cymru yn 29 Ardal Cymeriad Morol.[175]

11.15 Mae Bro Morgannwg yn ymestyn ar draws dwy ACM: ACM Aber Afon Hafren sydd i'r dwyrain o'r fwrdeistref sirol, ac ACM Dyfroedd Arfordirol Morgannwg a Nash Sands sydd yn y de / de-orllewin.

11.16 Mae ACM 29 Aber Afon Hafren yn cynnwys rhan Cymru o Aber Afon Hafren, gan ymestyn o'r ffin genedlaethol â Lloegr i gyrion gorllewinol y Barri.

11.17 Mae'r ardal forol yn cyd-fynd â'r rhan fwyaf o ACA Aber Afon Hafren (Cymru) ac ardal gyfan y cynllun morol. Mae ei ffin dde-orllewinol yn dilyn bathymetreg yn fras, gyda'r nod o eithrio rhannau dyfnaf y sianel gyda'r lan.

11.18 Mae'r AMC hefyd yn cynnwys holl safleoedd AGA, Ramsar a SoDdGA Aber Afon Hafren, o fewn yr ardaloedd gyda'r lan a'r rhai rhynglanwol. Mae'n cwrdd â'r arfordir yn y gorllewin i gyd-fynd ag ACTC 35: Casnewydd, Caerdydd a'r Barri (arfordir wedi'i ddatblygu sy'n ymledu allan o Fae Caerdydd).

11.19 Mae'r AMC hefyd yn gyson â sut mae'r Aber yn cael ei ddiffinio'n ofodol at ddibenion llywio arfordirol (e.e., Imray, 2008). Mae'r AMC yn eithrio rhan fach o ddyfroedd 'Cymreig' ar hyd Afon Gwy ac wrth ei genau, sy'n cael ei chynnwys fel rhan o ardal gyfagos y cynllun morol Seisnig.

11.20 Mae nodweddion allweddol yn cynnwys:[176]

- Saif Aber Afon Hafren, sydd ar ffurf twmffat helaeth, wrth enau pedair afon fawr (yr afonydd Hafren, Gwy, Wysg ac Avon).
- Mae amrediad llanw aruthrol yr aber yn ail yn unig i Fae Fundy yng Nghanada.
- Mae gan statws y llanw berthnasedd sylweddol i'r cymeriad canfyddedig.
- Mae creigiau Triasig a Jwrasig meddal yn agored ar hyd y lan, gan greu ardal rynglanwol greigiog eang. Mewn mannau eraill mae'r lan yn cael ei diffinio gan fflatiau llanw helaeth,
- gwaddodion llaid, tywod a graean a ddyddodwyd yn y cyfnod Holosen gan gynhyrchu gwely môr amrywiol o fflatiau a thraethellau, gyda dyfroedd bas cysylltiedig a nifer o ddyfroedd bas sy'n creu peryglon i fordwyo.
- Mae Ynys Echni (SoDdGA a GNL) yn ffurfio nodwedd borth yn y gorllewin – brigiad o galchfaen caletach sy'n codi o'r gwaddodion cyfagos. Mae Ynys Rhonech yn ffurfio nodwedd 'efaill' debyg yn nyfroedd Lloegr i'r de.

[175] Cyfoeth Naturiol Cymru (2015): 'ACM 27', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[176] Cyfoeth Naturiol Cymru (2015): 'AMC 29', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

- Mae'r aber yn bwysig er mwyn dehongli dynameg a thirffurfiau arfordirol, a newidiadau yn lefel y môr, cyflenwad gwaddodion, hinsawdd a llif yr afonydd yn y gorffennol.
- Ffrydiau llanw cryf a thyrfedd sy'n cynhyrchu cymunedau biolegol sy'n nodweddiadol o amodau ffisegol eithafol llaid hylifol a thywod a chreigiau a ysgubir gan y llanw.
- Mae'r fflatiau llanw, y morfeydd heli a'r glaswelltiroedd gwlyb helaeth o bwys rhyngwladol ar gyfer adar dŵr sy'n gaeafu ac adar mudol.
- Ceir rhai o'r poblogaethau cyfoethocaf a mwyaf amrywiol o bysgod nad ydynt yn cael eu hecsbloetio yn y DU – ystyrir bod y poblogaethau o lampreiod y môr a gwangod yn fwy nag mewn unrhyw aber arall.
- Mae pobl wedi manteisio ar adnoddau naturiol cyfoethog yr AMC ers milenia, gyda thystiolaeth yn dyddio'n ôl i'r helwyr-gasglwyr cynharaf yn crwydro'r hyn a oedd gynt yn wastadedd arfordirol llawer mwy (cyn i lefel y môr godi tua 6,000 CC).
- Roedd pwysigrwydd strategol hirsefydlog ar gyfer masnach ryngwladol a mordwyo morol, yn enwedig wrth i borthladdoedd ar ddwy ochr Môr Hafren ehangu o'r cyfnod canoloesol ymlaen. Mae porthladdoedd gweithredol gan Gaerdydd, Casnewydd a'r Barri o hyd.
- Cafwyd nifer o longddrylliadau ar lawr y môr, yn enwedig yn y gorllewin – gan gynnwys enghreifftiau o rai a suddwyd gan ffrwydon yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
- Mae llongau bysgota lleol yn dal lledod coch, torbytiaid, gwyniaid môr a morgathod o draethellau yr AMC.
- Mae hwylio cychod siarter hamdden a physgota ar y traeth yn weithgareddau economaidd pwysig.
- Mae eogiaid, llysywod a brithyllod yn cael eu pysgota at ddiben masnachol a hamdden yn yr afonydd sy'n bwydo'r aber, gan gynnwys trwy'r dull traddodiadol o bysgota 'putcher' (gosodir maglau pysgod rhynglanwol yn Allteuryn, West Pill a Chil-y-coed).
- Arfordir gwastad gyda Llwybr Arfordir Cymru wrth ei gefn, sy'n rhoi golygfeydd hir dros Fôr Hafren.
- Mae siâp twndis clasurol yr aber a'i chyfeiriadedd de-orllewinol yn ei gwneud yn agored i amodau tywydd eithafol (gan gynnwys ymchwyddiadau storm) sy'n ysgubo i mewn o ddwyrain yr Iwerydd.

11.21 Mae AMC Dyfroedd Arfordirol Morgannwg a Nash Sands yn gorchuddio'r dyfroedd arfordirol yn union i'r de o Fro Morgannwg, ger yr arfordir prin ei boblogaeth tua'r de o Ferthyr Mawr yn y gorllewin i gyrion allanol y Barri yn y dwyrain.

11.22 Mae'r ardal tua'r tir yn cwmpasu holl Arfordir Treftadaeth Morgannwg (mae'r ffin gorllewinol tua'r tir yn dilyn llinell y dynodiad). Ar wahân i Ferthyr Mawr yn y gorllewin (o fewn dynodiad yr Arfordir Treftadaeth), mae'r ardal tua'r tir yn cydweddu â'r Ardal Cymeriad Tirwedd ranbarthol gyfagos, rhif 36: Bro Morgannwg (trafodir uchod).

11.23 Ar y môr – yn y gorllewin, mae'r AMC yn cwmpasu'r holl ardal o Nash Sands i Orllewin yr As. Mae hefyd yn cynnwys Tusker Rock - nodwedd ym mae Merthyr Mawr. Caiff y ffin allanol â Môr Hafren (AMC 28) ei nodi gan y newid i ddŵr dyfnach a gwaddodion tywod a graean llinellol mawr sy'n gysylltiedig â Môr Hafren.

11.24 Nodweddion allweddol yr AMC hon:[177]

- Arfordir dramatig sy'n fythol newid o gerrig llaid a chalchfaen Jwrasig a Thriasig, gyda chlogwyni sydd bron yn fertigol, traethau cerrig mân neu balmentydd carreg ac ambell fae tywodlyd.
- Yn wynebu'r de a'r de-orllewin gyda dyfroedd sy'n mynd i waered yn raddol, gan gyrraedd dyfnder o 18 metr ar y pwynt isaf.
- Mae'r gwely môr carreg laid wedi'u gorchuddio gan fandiau o dywod a graean yn y gorllewin, gan ffurfio'r Nash Sands llinellol nodweddiadol gyda dyfroedd bas a geirwyau môr cysylltiedig.
- Mae Tusker Rock, riff helaeth, yn ffurfio nodwedd allweddol o'r forwedd yn y gorllewin. Mae'n dod i'r amlwg pan fo'r llanw ar drai ac yn cael ei hamgylchynu gan ddyfroedd bas.
- Mae ffrydiau llanw cryf, hinsawdd tonnau uchel a bod yn agored i wyntoedd sy'n rhuthro i fyny Môr Hafren yn creu rhagor o beryglon i fordwyo.
- Roedd rhannau o'r arfordir â dynodiad SoDdGA o werth cenedlaethol am eu glaswelltir niwtral, calchaidd ac arforol llawn rhywogaethau. Mae ACA Bae Dwnrhefn yn gartref i'r planhigyn prin, tafol y twyni.
- Cynefinoedd o bwys rhyngwladol ar Gwningar Methyr Mawr gan gynnwys cynefinoedd twyni tywod a llaciau, morfeydd heli, glaswelltiroedd calchfaen a gwernydd.
- Treillio masnachol a physgota gwialen a lein, gyda'r traethellau yn y gorllewin yn doreithiog o ledod coch, torbytiaid, gwyniaid môr a morgathod
- Hanes hir o feddiannaeth ddynol, gyda thystiolaeth Neolithig o dan Ferthyr Mawr, bryngaerau Oes yr Haearn ar ben y clogwyni ac olion cestyll canoloesol, porthladdoedd a safleoedd eglwysig.
- Adeiladodd goleudy eiconig Trwyn yr As o'r 19eg ganrif o galchfaen o'r traeth islaw. Mae'n tywys llongau heibio Traeth yr As ac yn symbol o dreftadaeth forwrol yr ardal (y goleudy olaf yng Nghymru â gofalwr).
- Llongddrylliadau hanesyddol a oedd yn gysylltiedig â'r drwg-enwog Drwyn yr As a Nash Sands, gan gynnwys cytars peilot o'r 19eg ganrif a oedd yn aros i dywys llongau i Gaerdydd neu Gasnewydd.
- Arfordir Treftadaeth boblogaidd, gyda Chanolfan Arfordir Treftadaeth a Chanolfan Seawatch yn denu ymwelwyr i ddysgu am dreftadaeth naturiol, ddiwylliannol a morol yr ardal.
- Yn aml, aflonyddir ar rinweddau gwyllt yr ardal yn y dwyrain gan draffig awyr sy'n gysylltiedig â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a ffurf flaenllaw Gorsaf Bŵer Aberddawan.

[177] Ibid

- Modd gweld arfordir Gwlad yr Haf yn glir, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Exmoor ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE) y Quantocks.
- Golygfeydd i'r gorllewin ar hyd yr arfordir o Drwyn yr As, gan gynnwys hyd at AoHNE Gŵyr.
- Gwerthfawrogir golygfeydd helaeth yr ardal gan ddefnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru sy'n rhedeg ar ben y clogwyni.

11.25 Fel y dangosir yn **Ffigur 9.1** (ym **Mhennod 9** uchod), mae AMC, AGA, Safle Ramsar ac ACA Aber Afon Hafren i'w gweld ym mhen dwyreiniol y Fro ac mae o bwys rhyngwladol i adar sy'n gaeafu yno.

11.26 Mae AMC Dyfroedd Arfordirol Morgannwg a Thraethell yr As yn cynnwys dyfroedd arfordirol Morgannwg, sy'n ymestyn o system twyni tywod helaeth Merthyr Mawr yn y gorllewin i gyrion datblygiadau yn y Barri yn y dwyrain. Arfordir Treftadaeth o fri yw'r arfordir sy'n wynebu'r de a'r de-orllewin (gweler **Pennod 10** uchod). Mae'r arfordir yn gartref i adar amrywiol, gan gynnwys brain coesgoch, adar drycin y graig, rhostogion coch a hebogiaid tramor.

11.27 Mae Cwm yr As yn dangos dilyniant o ddyddodiadau daearegol sy'n 12,000 o flynyddoedd oed o ddyddodiadau daearegol ac yn cynnwys llu o falwod ffosil – gan ganiatáu am ail-greu'r newid yn yr hinsawdd o'r cyfnod rhewlifol diwethaf hyd heddiw.

## Tirluniau Cofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig yng Nghymru


11.28 Mae tirweddau Cymru wedi'u ffurfio gan brosesau naturiol ac wedi'u llunio gan weithgaredd dynol. Mae'r gweithgaredd dynol hwn yn amrywio o'r cyfnodau cynhanesyddol hyd at yr oes fodern. I gydnabod gwerth tirweddau hanesyddol, ac i godi ymwybyddiaeth o'u pwysigrwydd, mae Cadw, mewn partneriaeth â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (sydd bellach yn cael ei alw'n Cyfoeth Naturiol Cymru) a'r Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd (ICOMOS UK) wedi llunio Cofrestr anstatudol o 58 tirwedd o ddiddordeb hanesyddol eithriadol neu arbennig yng Nghymru.[178]

11.29 Mae Cofrestr Tirweddau Hanesyddol yn gofrestr ymgynghorol, anstatudol. Ei phrif nod yw darparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth am ddetholiad cychwynnol o'r ardaloedd tirwedd hanesyddol pwysicaf a mwyaf arwyddocaol yng Nghymru er mwyn cynorthwyo eu gwarchodaeth a'u cadwraeth.

11.30 O'r 58 tirwedd gofrestredig, mae dwy yn y Fro neu'n rhannol yn y Fro. Mae Llancarfan yng nghanol y Fro, ac mae Merthy Mawr yn rhan ogledd-ddwyreiniol y Fro, ar hyd ffin ddiwygiedig ardal y CDLl, sy'n ymestyn i Ben-y-bont ar Ogwr (gweler **Ffigur 11.3** drosodd).

[178] Lle - Geo-borth i Gymru (2022): 'Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig yng Nghymru', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon

## Ffigur 11.3 Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig



## Arfordir Treftadaeth Morgannwg

11.31 Fel y nodir ym **Mhennod 9** uchod, mae’r arfordiroedd treftadaeth, er eu bod yn cael eu cydnabod yn genedlaethol, yn cael eu 'diffinio' yn hytrach na'u dynodi. Mae arfordiroedd treftadaeth yn cael eu gwarchod trwy reolaeth datblygu o fewn y system gynllunio.

11.32 Mae Arfordir Treftadaeth Morgannwg (gweler **Ffigur 11.1** a **Ffigur 11.4**) yn cael ei chydnabod am ei bwysigrwydd cenedlaethol fel ardal o arfordir deniadol sydd heb ei ddatblygu, sy’n ymestyn am 14 milltir, o Aberddawan i Borthcawl. Mae'r arfordir rhwng Aberogwr ac Aberddawan yn olygfaol iawn, gydag ymdeimlad cryf o le. Mae clogwyni calchfaen agored yn cynnig golygfeydd helaeth dros Fôr Hafren tuag at Wlad yr Haf ac Exmoor. Mae caerau a goleudai hanesyddol yn nodweddion uwchben y traethau tywodlyd a'r llwyfannau creigiog. Mae'r forwedd sy’n aml yn wyllt ac yn agored, y glannau creigiog a’r clogwyni yn teimlo’n unig mewn mannau.

11.33 Mae’r forwedd yn wynebu tua’r de yn gyffredinol, ac mae’n agored i’r gwyntoedd mynychaf gyda dyfroedd sy’n mynd i waered yn raddol. Mae hyn yn cyfuno ag amrediad llanw uchel Aber Afon Hafren, gyda thraethell nodweddiadol Traethell yr As a dyfroedd bas cysylltiedig.[179]

11.34 Ffermio yw'r gweithgaredd mwyaf blaenllaw o fewn ardal yr Arfordir Treftadaeth, gan helpu i gynnal cymeriad y dirwedd a chwarae rhan bwysig wrth gefnogi'r economi wledig. Mae mân aneddiadau gwledig Aberogwr a Southerndown yn perthyn i'r dynodiad, ac maent yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu rhinweddau arbennig Arfordir Treftadaeth Morgannwg.[180]

Mae Arfordir Treftadaeth Morgannwg hefyd yn gyrchfan pwysig i ymwelwyr ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer hamddena anffurfiol, twristiaeth effaith isel a mynediad arfordirol, gan gefnogi cerddwyr a beicwyr (gweler **Pennod 4**).

[179] Cyfoeth Naturiol Cymru (dim dyddiad): 'Tirwedd Canol De Cymru', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[180] Bro Morgannwg (2017): 'Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig', ar gael [ar-lein] i’w weld trwy’r ddolen hon



**Ffigur 11.4 Arfordir Treftadaeth Morgannwg[181]**

## Ardaloedd Tirwedd Arbennig

11.35 Dynodiad anstatudol yw Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) a roddir gan yr awdurdod cynllunio lleol i ddiffinio ardaloedd o bwysigrwydd tirwedd uchel o fewn ei ffin weinyddol. Mae ATA ym Mro Morgannwg wedi'u dynodi i warchod ardaloedd sy'n bwysig oherwydd eu harwyddocâd daearegol, naturiol, gweledol, hanesyddol neu ddiwylliannol.[182]


11.36 Yn wreiddiol, dynodwyd ATA o fewn y Fro ar sail astudiaeth Tirweddau sy'n Gweithio i Gymru ym 1999. Nododd adolygiad o'r dynodiadau ATA, a gynhaliwyd yn 2008 gan TACP Consultants, chwe ardal a oedd yn deilwng o ddynodiad ATA. Roedden nhw'n dilyn yn agos yr ATA dynodedig blaenorol, gydag ardaloedd ychwanegol yn cael eu cynnwys a rhai wedi'u dileu, gan adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf oedd ar gael. Dyfeisiwyd y fethodoleg ddiwygiedig hon gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar y cyd â chonsortiwm o awdurdodau lleol yn Ne-ddwyrain Cymru, gan ddefnyddio data LANDMAP.

11.37 Rhestrir yr ATA isod, a ddangosir yn **Ffigur 11.5**, gyda rhagor o fanylion hefyd yn cael eu darparu yn **Nhabl 11.2** drosodd:[183]

- ATA 1 Castell Alun.
- ATA 2 Dyffryn Ddawan Uchaf ac Isaf.
- ATA 3 Dyffryn Elái a Llethrau'r Grib.
- ATA 4 Nant Llancarfan.
- ATA 5 Basn Dyffryn a Llethrau'r Grib; ac
- ATA 6 Basn Cwrt-yr-Ala.

[181] Cyfoeth Naturiol Cymru (2021): 'Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol (ACTC)', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[182] TACP (2008): 'Bro Morgannwg - Dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig', ar gael [ar-lein] trwy y ddolen hon
[183] Ibid.

## Ffigur 11.5 Ardaloedd Tirwedd Arbennig[184]




[184] Ibid

| CLG | Angen | Rhinweddau/nodweddion tirwedd gynradd | Materion polisi a rheoli allweddol perthnasol | Gwerthuso gweledol/synhwyraidd (isel, cymedrol, uchel, eithriadol) |
|---|---|---|---|---|
| **Castell Alun** | Mae gan yr ardal ymdeimlad cryf iawn o le, sy’n gysylltiedig yn gryf â hunaniaeth ddiwylliannol. Mae ardaloedd arfordirol a dyffrynnoedd afonydd o ansawdd eithriadol mewn sawl agwedd ac yn cynnwys cynefinoedd i sawl rhywogaeth brin. Mae natur agored y dirwedd hon yn ei gwneud yn sensitif i ddatblygu. | Ar gyrion gorllewinol y Fro ac yn ffinio â ffin Arfordir Treftadaeth, mae ardaloedd mawr o'r dynodiad hwn o werth eithriadol o ran yr agweddau gweledol, cynefin, daearegol a synhwyraidd. Nodweddir gan lwyfandiroedd eang, bryniau sy’n ymdonni’n raddol a dyffrynnoedd yr afonydd Ewenni ac Alun.<br>Mae Twyn yr Hen Gastell (SoDdGA) yn ardal rostir ddeniadol a nodedig, yn brin yn y Fro ac sy’n cynnal rhywogaethau pwysig.<br>Mae Afon Ogwr yn creu tirwedd cyrs a system twyni tywod benodol o bwys rhyngwladol. | Dylid cynnal y rhostir, ei wella a'i ehangu.<br>Cyflwyno blociau o goetir llydanddail i integreiddio datblygiad aneddiadau / ffermydd ac i ddyffrynnoedd nentydd.<br>Cyfyngu ar ddatblygu mewn ardaloedd sy'n weladwy yn eang a gwella manylion dulliau ffyrdd ac aneddiadau i adlewyrchu cymeriad ardal.<br>Atgyfnerthu sgrinio i guddio datblygiad. | Cymedrol i eithriadol. |
| **Dyffryn Ddawan Uchaf ac Isaf** | Mae Dyffryn Ddawan o werth uchel yn weledol ac yn ddiwylliannol. Mae ganddo nodweddion daearegol eithriadol ac mae'n cynnwys rhai ardaloedd o werth cynefinoedd uchel. Mae datblygiad maestrefol yn difetha'r cymeriad, ynghyd ag arferion amaethyddol dwys a gosod ffensys yn lle gwrychoedd. | Mae'r ATA yn cael ei thorri yn ei hanner gan Ddyffryn Afon Ddawan. Yn gyffredinol, mae gan y dirwedd agored welededd helaeth o sawl man ac mae’n edrych dros Ben-y-bont ar Ogwr, gan ffinio â'r M4, a dylanwadu ar ganfyddiad yr ardal.<br>Mae gan y dyffryn trawiadol lethrau coediog serth nodweddiadol ac ymdeimlad cryf o le ac mae’n gymharol anghyffredin.<br>Mae gan y dirwedd iseldir donnog olygfeydd dros yr arfordir. | Cynnal gorchudd gwrychoedd a choed.<br>Gwella datblygiad i sicrhau manylion a chymeriad gwledig<br>Ymgorffori cynlluniau amaeth-amgylcheddol<br>Cyfyngu ar ddatblygiad mewn ardaloedd â gwelededd eang a chyflwyno blociau o goetir llydanddail i integreiddio aneddiadau / datblygiadau sy’n ymwneud â Ford. | Cymedrol i uchel |
| **Dyffryn Eláі a Llethrau’r Grib** | Mae'r ardal yn amgylchynu Dyffryn Elái a'r cyswllt rheilffordd pwysig cyfagos. Ystyrir | Tirwedd iseldir donnog yw’r ardal yn bennaf gyda dyffryn Afon Elái’n ymestyn trwyddi o’r gogledd i’r de-ddwyrain. Mae'r rhan fwyaf o lawr y dyffryn iseldir yn orlifdir, gydag ymdeimlad o fod yn agored sy'n | Creu cysylltiadau rhwng coetir tameidiog trwy blannu coridorau gwyrdd newydd | Cymedrol i uchel |

| CLG | Angen | Rhinweddau/nodweddion tirwedd gynradd | Materion polisi a rheoli allweddol perthnasol | Gwerthuso gweledol/synhwyraidd (isel, cymedrol, uchel, eithriadol) |
|---|---|---|---|---|
| | bod ardaloedd yn dirywio (peilonau, yr M4, yr A4232 a datblygiadau ar hyd yr A48, ac ati), felly byddai dynodiad o fudd i ddatblygiad y dyfodol. | cyferbynnu ag ochrau uchel y dyffryn. Tua'r dwyrain, gan amgáu gorlifdir Elái, mae gan y dirwedd batrwm caeau bugeiliol cyfan a phatrwm anheddu traddodiadol.<br>Mae'r M4 a'r A4232 yn amharu'n sylweddol ar y cymeriad ond ar y cyfan mae'n gyson gydag ychydig ardaloedd yn unig yn dioddef effaith ymylon trefol a diwydiant. Mae peilonau yn Nyffryn Elái i'r gogledd yn amharu ar olygfeydd sydd fel arall yn ddeniadol yn yr ardal hon a'r tu allan iddi.<br>Mae datblygiadau amhriodol lle mae ffermydd wedi'u haddasu'n anheddau ac arferion rheoli tir gwael yn bygwth cyfanrwydd y cymeriad yma.<br>I'r gogledd-orllewin mae'r dirwedd yn cael ei nodweddu gan ddyffrynnoedd a bryniau iseldir. Mae'n dirwedd sy'n cael ei chynnal yn dda gydag ymdeimlad heddychlon. Gyda gorchudd helaeth o wrychoedd a choetir, mae ganddi werth golygfaol uchel ond gwerth cynefinoedd isel.<br>Mae'r ffin ddeheuol yn cynnwys crib gefnen, sy'n amlwg yn y dirwedd ac yn rhoi golygfeydd ar draws y Fro. Mae'r A48 yn torri ar draws y grib hon ac aneddiadau llinellol sydd fwyaf cyffredin yma.<br>Mae Coedwig Hensol i'r gorllewin yn creu tirwedd o amrywiaeth unffurf gyda naws gysgodlyd, heddychlon a diogel. Mae'r ardal yn boblogaidd ar gyfer hamdden. | Gwella Coedwig Hensol fel ffocws ar gyfer hamddena a chynyddu lliw llydanddail<br>Cadw cydlyniad patrwm caeau a gwella arferion rheoli tir<br>Rheoli cynefinoedd â blaenoriaeth<br>Rheoli datblygiadau tai ac addasiadau ffermydd<br>Cyfyngu ar ddatblygu fel nad yw'n amharu ar linell y gefnen ac yn creu datblygiad llinellol ar hyd yr A48 | |
| **Nant Llancarfan** | Nodwyd bod dyffryn Nant Llancarfan yn nodwedd uchel ac eithriadol. Mae dyffryn iseldir cul ac amgaeëdig nant Waycock, gyda llawer o | Mae'r rhan fwyaf o'r ardal yn dir iseldir tonnog, gyda dyffryn Nant Llancarfan yn torri ar ei thraws. Mae'r ardal ganolog hon yn ddyffryn iseldir cul ag ochrau serth, ac mae'n cynnwys tirwedd dawel a hanesyddol o nentydd, coetiroedd llydanddail lled-naturiol, coetir conwydd wedi'u plannu a ffermydd bach. | Gwella ffyrdd gwledig a chyfyngu datblygiadau i sicrhau manylion a chymeriad gwledig<br>Tynnu llinellau pŵer yn Nyffryn Waycock lle bo modd | Cymedrol i uchel |

| CLG | Angen | Rhinweddau/nodweddion tirwedd gynradd | Materion polisi a rheoli allweddol perthnasol | Gwerthuso gweledol/synhwyraidd (isel, cymedrol, uchel, eithriadol) |
|---|---|---|---|---|
| | bentrefi wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth, yn llenwi rhan ddeheuol yr ATA hon. Mae datblygiadau i'r de-ddwyrain a phresenoldeb Maes Awyr Caerdydd yn ymledu i’r ardal hon. | Saif anheddiad hynafol pentref Llancarfan o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol ac mae'n cynnwys Ardal Gadwraeth.<br>Mae'r dirwedd wledig o ffermydd wasgaredig o werth eithriadol fel tirwedd ddeniadol ac er mwyn cadw cymunedau hanesyddol.<br>Yn y de, ar lwyfandir yr arfordir mae awyrendy Maes Awyr Caerdydd yn amharu ar y golygfeydd. Mae'r ardal hon yn ffinio â llethrau serthach y dyffryn ac ymylon coediog Dyffryn Waycock, gyda Phen-marc yn bentref arbennig o hardd. | Cadw a gwella’r cymeriad cynhenid trwy reoli coetir a gwrychoedd a chyfyngiadau datblygu.<br>Cynnal y gorchudd coed ar y grib i'r gogledd er mwyn integreiddio datblygiad. | |
| **Basn Dyffryn a Llethrau'r Grib** | Mae datblygiadau, gan gynnwys Gwenfô yn y dwyrain a'r Barri yn y de, yn amharu ar hunaniaeth a chyfanrwydd yr ardal wledig sydd fel arall yn weddol gryf. | Mae'r rhan fwyaf o'r ardal wedi’i ffurfio o ddyffrynnoedd deniadol, Nant Brân ac Afon Waycock. Ceir golygfeydd eang, braf i gefn gwlad a reolir yn dda sy'n cadw patrwm caeau mawr cydlynol a choetiroedd. Mae'n dirwedd wledig hanesyddol gymharol ddigyffwrdd ac mae'r ardal yn cynnwys sawl CGB. Mae aneddiadau wedi'u hintegreiddio'n dda â'r dirwedd a'r llystyfiant o'u cwmpas. Mae'r cyfuniad o ffordd, nant/ffos ddraenio, wal gerrig/ardd neu annedd yn nodweddiadol ac yn gynrychioliadol o'r Fro yn yr ardal yma.<br>Mae Gerddi Dyffryn, sydd yng nghanol yr ATA, wedi'u hamgáu er preifatrwydd gan goetiroedd. Mae’n safle Gradd 1 ar y Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru.<br>Y pwynt uchaf yn y dwyrain yw llechwedd dyffryn ger chwarel Gwenfô. Mae ardal Gwenfô yn enghraifft wych o sut mae tirweddau wedi datblygu dros y milenia.<br>I'r gogledd, mae'r ardal yn gweithredu fel ymyl llethrog amlwg i ddyffrynnoedd Elái a Gwenfô.<br>Mae gan yr ardal ymdeimlad unigryw o le. | Atgyfnerthu cymeriad gwledig a lleihau effaith datblygiadau newydd, gan gyfyngu ar ddatblygiadau ar y llethrau yn benodol.<br>Datblygu gorchudd coetir a gwrychoedd i integreiddio aneddiadau’n well<br>Gwella coridor y ffordd a datblygiad cysylltiedig, gan gynnwys manylion.<br>Nodi a gweithredu atebion ar gyfer gwella seilwaith yng Ngerddi Dyffryn | Cymedrol i uchel |

| CLG | Angen | Rhinweddau/nodweddion tirwedd gynradd | Materion polisi a rheoli allweddol perthnasol | Gwerthuso gweledol/synhwyraidd (isel, cymedrol, uchel, eithriadol) |
|---|---|---|---|---|
| Basn Cwrt-yr-Ala | Mae’r ATA hon yn cael ei hamgylchynu ar dair ochr gan gytrefi mawr sy'n fygythiad sylweddol oherwydd datblygiadau tai a seilwaith. Mae ei hagosrwydd at boblogaeth hefyd yn cyfrif am gyfran fawr o laswelltir amwynder. | Mae'r rhan fwyaf o dirwedd yr ATA yn seiliedig ar ddyffryn Cwrt-yr-Ala, sy’n ffurfio blaenddyfroedd Dyffryn Tregatwg. Ceir ymdeimlad cryf o le gyda nentydd, pyllau argaeëdig, llethrau coediog y dyffryn ac anheddiad dymunol yng ngwaelod y dyffryn. Mae arwyddion o bwysau trefol ar lonydd er bod y tir amaeth mewn cyflwr da ar y cyfan.<br>I'r gogledd a'r dwyrain mae llethr sgarp yn gweithredu fel ymyl gorllewinol i fasn Caerdydd. Mae'r dirwedd naturiol wedi cael ei newid yn sylweddol trwy ehangu trefol.<br>Mae ardal helaeth o barciau presennol a hen barciau sy’n gysylltiedig â Phlas Cwrt-yr-Ala.<br>Mae'r ATA yn cynnwys y glustogfa agored rhwng Penarth a Dinas Powys, a dylid ei chynnal ar gyfer cymeriad Dinas Powys fel un o ychydig bentrefi mawr o'r fath yn Ne-ddwyrain Cymru.<br>Y ffin de-ddwyreiniol yw Penarth a oedd yn darparu tai i weithwyr y dociau yn y 19eg ganrif. | Rheoli coetir i gynnal gorchudd coed parhaus, yn enwedig ar y nenlin.<br>Cynnal gwrychoedd i fod yn fframwaith gweledol cryf yn ogystal â rhinweddau gwledig a natur llawn llystyfiant y dyffryn.<br>Cynnal a chadw’r lletem las rhwng Dinas Powys a Phenarth. Gwella rheolaeth ar ffiniau a gwella adeileddau. | Isel i uchel |

## Llinell sylfaen y dyfodol

11.38 O ystyried maint y tirweddau o safon uchel a gwerth uchel yn y Fro, bydd angen i ddatblygiadau newydd o fewn lleoliad yr ardaloedd hyn o safon uchel (yn arbennig yr ardaloedd hynny sydd wedi'u dynodi / cydnabod yn lleol neu'n genedlaethol), sicrhau bod ystyriaeth ofalus yn cael ei roi i elfennau dyluniad y cynnig. Mae hyn yn cynnwys y lleoliad, y cyfeiriadedd, y cynllun a'r gwaith tirlunio, er mwyn sicrhau bod y rhinweddau a'r nodweddion arbennig y mae ardaloedd tirwedd wedi eu dynodi ar eu cyfer yn cael eu diogelu.

11.39 Heb y CDLlN, byddai datblygiadau hapfasnachol yn parhau i fynd rhagddynt gyda'r potensial i amharu ar y dirwedd.

## Prif faterion

11.40 Roedd yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth sylfaenol yn llywio'r broses o nodi sawl mater allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Mae gan y Fro dirwedd amrywiol o ansawdd uchel, ac mae llawer ohoni wedi'i dynodi/chydnabod yn genedlaethol am ei rhinweddau a'i chymeriad arbennig, gan gynnwys treftadaeth a morol.
- Mae'r CLGau yn gwneud cyfraniad pwysig at gyd-destun gweledol a lleoliad aneddiadau ac mae ganddynt werth hamdden, tra bod gan dirweddau cofrestredig o ddiddordeb arbennig arwyddocâd hanesyddol yn ogystal â nodweddion tirwedd.  Mae ardaloedd arfordirol y Fro o werth sylweddol, gan gynnal morwedd unigryw.  Bydd yn bwysig i'r CDLlN sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u gwella yn y tymor hir.

## Amcanion ACI

11.41 O ystyried y materion allweddol a drafodir uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau gwrthrychol ac asesu canlynol:

| Amcan ACI | Cwestiynau asesu - a fydd y cynllun/polisi yn helpu i: |
|---|---|
| Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirwedd, morwedd a threfluniau Bro Morgannwg. | • Sicrhau bod tirweddau, trefluniau a morweddau mwyaf gwerthfawr Bro Morgannwg yn cael eu diogelu a'u gwella?<br>• Defnyddio nodweddion tirwedd naturiol newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli i liniaru unrhyw effeithiau posibl o ran dehongliadau cyfagos ac o bell ar ei thirweddau?<br>• Darparu cyfleoedd i gysylltu coetiroedd tameidiog presennol, cyflwyno coetiroedd newydd, a gwella'r broses o reoli coetiroedd a gwrychoedd<br>• Gwarchod a gwella diddordeb, cymeriad a golwg arbennig Arfordir Treftadaeth Morgannwg a'i leoliad? |

# 12. Y camau nesaf

## Camau dilynol ar gyfer y broses ACI

12.1 Cwmpasu (y cam presennol) yw'r cam cyntaf mewn proses ACI pum cam:

- Cwmpasu.
- Arfarnu dewisiadau amgen rhesymol, gyda'r bwriad o lywio'r gwaith o baratoi'r cynllun Cyn-Adneuo/Strategaeth a Ffefrir, ac asesiad dilynol o'r cynllun Cyn-Adneuo/Strategaeth a Ffefrir;
- Paratoi Adroddiad yr ACI gyda'r bwriad o lywio'r ymgynghoriad.
- Ymgynghoriad ar Adroddiad yr ACI.
- Cyhoeddi 'datganiad' ar adeg mabwysiadu'r cynllun er mwyn 'adrodd hanes' creu cynllun/ACI (a chyflwyno 'mesurau a bennwyd ynghylch monitro').

12.2 Yn unol â hynny, bydd y cam nesaf ar ôl cwmpasu felly'n cynnwys datblygu ac asesu dewisiadau amgen rhesymol. Mae hyn yn cynnwys Safleoedd Ymgeisiol ac opsiynau strategol ar gyfer lefel gyffredinol a dosbarthiad twf.

## Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu hwn

12.3 Mae cynnwys y cyhoedd trwy ymgynghori yn elfen allweddol o'r broses ACI. Yn ystod y cam cwmpasu hwn, mae'r Rheoliadau AAS yn gofyn am ymgynghori â chyrff ymgynghori statudol ond nid ymgynghori'n llawn â'r cyhoedd. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Cadw yw'r cyrff ymgynghori statudol.

12.4 Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adroddiad cwmpasu am bum wythnos o **24/08/22** i **29/09/22**.

# Appendix A Fframwaith ACI

Mae’r atodiad hwn yn cyflwyno'r pynciau, yr amcanion a’r cwestiynau asesu cynaliadwyedd sy'n ffurfio fframwaith yr ACI.

Mae'r fframwaith ACI yn dwyn ynghyd amcanion yr ACI a nodwyd o dan bob thema drwy gwmpasu, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd ar gyfer pob thema. Gyda'i gilydd, mae amcanion yr ACI yn ffurfio fframwaith methodolegol sy'n llywio'r asesiad dilynol.

### Tabl A.1: Amcanion ACI ar gyfer y CDLIN

| Thema | Amcan ACI | Cwestiynau asesu - a fydd y cynllun/polisi yn helpu i: | Nodau lles perthnasol |
|---|---|---|---|
| **Economi a chyflogaeth** | Cefnogi economi gref, amrywiol, gynaliadwy a gwydn, gydag ymatebion arloesol i amodau newidiol a chymorth i weithlu cryf yn y dyfodol. | • Ddarparu digon o dir i fusnesau dyfu a sicrhau cydweddiad â thai / seilwaith?<br>• Cefnogi'r gwaith o greu swyddi newydd hygyrch a hwyluso gweithio o gartref a gweithio o bell?<br>• Cefnogi Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan, gan adlewyrchu ei phwysigrwydd rhanbarthol o ran denu mewnfuddsoddiad?<br>• Sicrhau bod canol trefi yn cael eu hystyried yn gyntaf ar gyfer cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd?<br>• Sicrhau bod cyfleusterau addysgol yn gyson â thwf y boblogaeth?<br>• Gwella bywiogrwydd a gwydnwch canol trefi a chanolfannau manwerthu, gan gefnogi arallgyfeirio yn unol ag anghenion sy'n newid?<br>• Diogelu ardaloedd cyflogaeth presennol?<br>• Creu cyrchfan ddeniadol i dwristiaid? | • Cymru Lewyrchus<br>• Cymru Wydn<br>• Cymru Fwy Cyfartal<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>• Cymru sy’n Gyfrifol yn Fyd-eang |

| Thema | Amcan ACI | Cwestiynau asesu - a fydd y cynllun/polisi yn helpu i: | Nodau lles perthnasol |
|---|---|---|---|
| | | • Annog datblygu cynaliadwy a chyfleusterau o safon i gyfoethogi'r profiad i ymwelwyr a thrigolion?<br>• Hyrwyddo economi werdd a datgarboneiddio?<br>• Sicrhau bod yr economi'n tyfu mewn modd cynaliadwy?<br>• Hyrwyddo Cymru lewyrchus? | |
| **Poblogaeth a chymunedau** | Darparu digon o dai marchnad a thai fforddiadwy o ansawdd da, a seilwaith cymunedol, mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion a nodwyd? | • Diwallu'r anghenion tai a nodwyd, gan gynnwys anghenion tai fforddiadwy, pobl hŷn ac anghenion llety'r gymuned sipsiwn/teithwyr?<br>• Sicrhau cymysgedd priodol o feintiau, mathau a deiliadaethau anheddau i ddiwallu anghenion pob sector o'r gymuned, yn benodol y boblogaeth hŷn sy'n prysur cynyddu?<br>• Darparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n galluogi mynediad hawdd i amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau lleol?<br>• Hyrwyddo datblygiad sy'n canolbwyntio ar dramwyo fel y gymdogaeth 20 munud?<br>• Hyrwyddo datblygiad amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol hygyrch o ansawdd uchel, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol? | • Cymru Wydn<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru Fwy Cyfartal<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>• Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu |
| | Gwella ansawdd dylunio er mwyn creu lleoedd prydferth naturiol i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaeth cymuned ac anheddiad. | • Gwella cysylltedd rhwng cymunedau a hwyluso rhyngweithio cymdeithasol?<br>• Hyrwyddo datblygiad amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol hygyrch o ansawdd uchel, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol?<br>• Diogelu a gwella hunaniaeth gymunedol a natur unigryw a chefnogi cyfleoedd ar gyfer hamdden a thwristiaeth?<br>• Atal aneddiadau rhag ymdoddi i'w gilydd a chadw natur agored tir, seilwaith gwyrdd a chysylltedd cynefinoedd? | • Cymru Lewyrchus<br>• Cymru Wydn<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>• Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu |

| Thema | Amcan ACI | Cwestiynau asesu - a fydd y cynllun/polisi yn helpu i: | Nodau lles perthnasol |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a lles** | Gwella iechyd a lles trigolion Bro Morgannwg, trwy hyrwyddo lleoedd iach a chynaliadwy. | • Annog ffyrdd iach o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd trwy ddarparu mannau agored, mannau chwarae a mannau tyfu bwyd a chymunedol?<br>• Hyrwyddo mynediad da i gyfleusterau gofal iechyd, cymdeithasol a hamdden ar gyfer pob sector o'r gymuned?<br>• Gwella cysylltedd a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd amlswyddogaeth ledled ardal y cynllun?<br>• Darparu a gwella'r ddarpariaeth o ran mynediad cymunedol i fannau gwyrdd?<br>• Gwella mynediad i fannau agored, cefn gwlad a chyfleusterau hamdden?<br>• Cefnogi amgylcheddau iach/actif a chynhwysol?<br>• Cefnogi'r gwaith o greu cymunedau cydlynus, cysylltiedig?<br>• Darparu mannau chwarae ffurfiol ac anffurfiol a naturiol i blant sy'n ddiogel ac yn hawdd cael mynediad iddynt?<br>• Lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws y sir?<br>• Cefnogi teithio llesol a gwelliannau i ansawdd aer? | • Cymru Wydn<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru Fwy Cyfartal<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>• Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae’r Gymraeg yn Ffynnu |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** | Leihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol | • Lleihau anghydraddoldebau ac amddifadedd ar draws Bro Morgannwg, yn enwedig yn y wardiau â‘r amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd o amddifadedd cudd?<br>• Gwella cyfle cyfartal ymhlith y grwpiau cymdeithasol hynny sydd â’r angen mwyaf?<br>• Cyfrannu at leihad mewn troseddu, anhrefn gymdeithasol ac ofn troseddu, gan hyrwyddo cymdogaethau mwy diogel?<br>• Hyrwyddo, cryfhau a gwella creu lleoedd? | • Cymru Lewyrchus<br>• Cymru Wydn<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru Fwy Cyfartal<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>• Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae’r Gymraeg yn Ffynnu |

| Thema | Amcan ACI | Cwestiynau asesu - a fydd y cynllun/polisi yn helpu i: | Nodau lles perthnasol |
|---|---|---|---|
| | | • Diogelu a darparu gwell cyfleusterau lleol, cymdeithasol a hamdden a mynediad i'r amgylchedd naturiol ar gyfer pob sector o'r gymuned, a gwella mynediad iddynt er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol a lles cymdeithasol?<br>• Sicrhau cymysgedd priodol o feintiau, mathau a deiliadaethau anheddau i ddiwallu anghenion pob sector o'r gymuned?<br>• Darparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n galluogi mynediad hawdd i amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau lleol?<br>• Hyrwyddo gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog y Fro a chynyddu datblygiad a defnydd o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg?<br>• Cefnogi'r boblogaeth sy'n heneiddio i sicrhau nad yw pobl hŷn yn cael eu hallgáu'n gymdeithasol? | • Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |
| **Newid yn yr hinsawdd** | Cefnogi gwydnwch Bro Morgannwg i effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys llifogydd o ffynonellau afonol, arfordirol a dŵr wyneb. | • Osgoi datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, gan ystyried effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol?<br>• Cynyddu gwydnwch yr amgylchedd adeiledig a naturiol i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, yn enwedig mewn ardaloedd lle nodir llifogydd arfordirol ac afonol?<br>• Sicrhau bod y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn cael eu hystyried mewn datblygiadau newydd yn ardal y cynllun?<br>• Diogelu, gwella ac estyn rhwydweithiau seilwaith gwyrdd yn ardal y cynllun i gefnogi addasu i'r newid yn yr hinsawdd? | • Cymru Wydn<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru Fwy Cyfartal<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>• Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |

| Thema | Amcan ACI | Cwestiynau asesu - a fydd y cynllun/polisi yn helpu i: | Nodau lles perthnasol |
|---|---|---|---|
| | | • Defnyddio seilwaith gwyrdd i reoli dŵr ffo yn gynaliadwy, gan leihau dŵr ffo a dŵr wyneb, wrth greu cyfleoedd i sefydlu cynefinoedd, plannu coed a chreu mannau agored?<br>• Lleihau'r perygl o lifogydd i seilwaith allweddol, megis trafnidiaeth a phŵer? | |
| | Lleihau cyfraniad Bro Morgannwg at y newid yn yr hinsawdd yn sgil gweithgareddau sy'n arwain at allyriadau nwyon tŷ gwydr a chyfrannu at ddiwallu targed sero net y Cyngor. | • Cynyddu nifer y datblygiadau newydd sy'n bodloni neu'n rhagori ar feini prawf dylunio cynaliadwy?<br>• Lleihau'r defnydd o ynni o ffynonellau anadnewyddadwy?<br>• Cynhyrchu ynni o ffynonellau carbon isel neu ddi-garbon?<br>• Lleihau'r angen i deithio neu nifer y teithiau a wneir?<br>• Blaenoriaethu moddau trafnidiaeth cynaliadwy drwy annog defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, beicio a cherdded?<br>• Sicrhau nad yw datblygu gwledig yn cyfrannu at gynnydd pellach yn y defnydd uchel o ynni a theithio anghynaladwy? | • Cymru Lewyrchus<br>• Cymru Wydn<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru Fwy Cyfartal<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>• Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |
| **Trafnidiaeth a symud** | Cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio. | • Lleihau'r angen i deithio a hynny drwy batrymau cynaliadwy o ddefnyddio a datblygu tir?<br>• Creu cyfleoedd i wella amlder ac argaeledd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig ar gyfer cymunedau gwledig?<br>• Annog newid moddol i ddulliau teithio mwy cynaliadwy a llesol, fel cerdded a beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus?<br>• Cefnogi cyfleoedd ar gyfer newid moddol fel y nodir ym Mhrosiect Metro De Cymru? | • Cymru Lewyrchus<br>• Cymru Wydn<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru Fwy Cyfartal<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>• Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |

| Thema | Amcan ACI | Cwestiynau asesu - a fydd y cynllun/polisi yn helpu i: | Nodau lles perthnasol |
|---|---|---|---|
| | | • Blaenoriaethu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy o ran defnyddio ceir lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys darparu digon o opsiynau parcio a storio beiciau?<br>• Galluogi gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth?<br>• Darparu rhwydweithiau teithio llesol a'u gwella lle bo angen?<br>• Cefnogi'r defnydd o drafnidiaeth carbon isel fel e-feiciau a bysus trydan?<br>• Cyfrannu at y rhwydwaith gwefru cerbydau trydan?<br>• Hwyluso gweithio gartref a gweithio o bell?<br>• Darparu gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd presennol a/neu leihau tagfeydd ar y priffyrdd?<br>• Cyfrannu at rwydweithiau seilwaith gwyrdd? | |
| **Adnoddau naturiol** | Nodi a mynd ar drywydd unrhyw gyfleoedd i leihau cysylltiad y boblogaeth â llygredd aer cymaint â phosib. | • Lleihau'r angen i deithio?<br>• Annog teithiau i gael eu gwneud trwy ddulliau cynaliadwy (teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus)?<br>• Osgoi unrhyw effeithiau andwyol ar ansawdd aer ac ar gyfer pobl sy'n agored i ansawdd aer gwael?<br>• Gwella ansawdd aer mewn meysydd a nodwyd fel rhai sy'n peri pryder?<br>• Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o gerbydau trydan?<br>• Hyrwyddo dylunio da er mwyn osgoi effeithiau ar ansawdd aer a lleihau sŵn a diogelu, ymgorffori a gwella rhwydweithiau seilwaith gwyrdd er mwyn hwyluso mwy o amsugno a gwasgaru NA2 a llygryddion eraill? | • Cymru Wydn<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru Fwy Cyfartal<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>• Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |
| | Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd | • Lleihau colli tir amaethyddol o safon uchel bosibl i ddatblygiadau? | • Cymru Wydn |

| Thema | Amcan ACI | Cwestiynau asesu - a fydd y cynllun/polisi yn helpu i: | Nodau lles perthnasol |
|---|---|---|---|
| | o'r blaen ac adeiladau sy'n bodoli eisoes i leihau'r pwysau ar gyfer datblygu meysydd glas a diogelu tir amaethyddol gradd uwch, lle y bo'n bosibl. | • Diogelu a lleihau colli'r adnodd pridd ac annog rheolaeth briodol i wella ei swyddogaethau storio carbon a rheoli dŵr?<br>• Annog y defnydd o dir a ddatblygwyd o'r blaen?<br>• Annog gwaith adfer sy'n gysylltiedig â datblygu a allai leihau presenoldeb tir halogedig ym Mro Morgannwg? | • Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>• Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |
| | Diogelu adnoddau mwynau a chefnogi'r gwaith o reoli gwastraff. | • Mynd i'r afael â gwastraff trwy leihau gwastraff fel blaenoriaeth?<br>• Rheoli gwastraff yn unol â'r hierarchaeth gwastraff ac yng nghyd-destun 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'?<br>• Osgoi sterileiddio adnoddau mwynau lle bo hynny'n bosibl? | • Cymru Wydn<br>• Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |
| | Gwarchod, diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr, ansawdd y dŵr ac adnoddau dŵr. | • Lleihau'r defnydd o ddŵr?<br>• Sicrhau y gellir darparu cyflenwad digonol o ddŵr i gynnal y datblygiad gan ystyried amcanestyniadau presennol ac yn y dyfodol o argaeledd dŵr a defnydd dŵr?<br>• Lleihau'r potensial ar gyfer halogi cyrff dŵr a chyrsiau dŵr?<br>• Lleihau'r potensial i arferion amaethyddol gyfrannu at lygru sy'n seiliedig ar nitradau ar grynofeydd a chyrsiau dŵr ? | • Cymru Wydn<br>• Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |

| Thema | Amcan ACI | Cwestiynau asesu - a fydd y cynllun/polisi yn helpu i: | Nodau lles perthnasol |
|---|---|---|---|
| **Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth** | Diogelu a gwella bioamrywiaeth o fewn Bro Morgannwg a'r cyffiniau. | • Lleihau'r effeithiau ar fioamrywiaeth ddynodedig a phwysig a darparu buddion net lle bo hynny'n bosibl?<br>• Diogelu a gwella rhwydweithiau ecolegol, gan gynnwys y rhai sy'n croesi ffiniau gweinyddol?<br>• Cefnogi cyfleoedd ar gyfer seilwaith gwyrdd, sydd â buddion canlyniadol i fywyd gwyllt, gan gysylltu cynefinoedd ac osgoi darnio cynefinoedd? | • Cymru Wydn<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru Fwy Cyfartal<br>• Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |
| **Amgylchedd hanesyddol:** | Cadw a gwella adnodd treftadaeth Bro Morgannwg, gan gynnwys ei hamgylchedd hanesyddol a'i hasedau archeolegol. | • Gwarchod a gwella arwyddocâd adeiladau ac adeileddau o ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol, y rhai dynodedig a heb eu dynodi fel ei gilydd, a'u lleoliad?<br>• Gwarchod a gwella diddordeb, cymeriad a golwg arbennig ardaloedd cadwraeth a'u lleoliadau? | • Cymru Lewyrchus<br>• Cymru Wydn<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>• Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br>• Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |
| | Hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Bro Morgannwg. | • Gwarchod a gwella olion archeolegol, ac ardaloedd sy'n sensitif yn archeolegol, a chefnogi'r gwaith o gynnal ymchwiliadau archeolegol a, lle y bo'n briodol, argymell strategaethau lliniaru?<br>• Cefnogi mynediad i'r amgylchedd hanesyddol a diwylliannol, ei ddehongli a'i ddeall, gan gynnwys y Gymraeg? | • Cymru Wydn<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru Fwy Cyfartal<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>• Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br>• Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |

| Thema | Amcan ACI | Cwestiynau asesu - a fydd y cynllun/polisi yn helpu i: | Nodau lles perthnasol |
|---|---|---|---|
| **Y Dirwedd** | Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirwedd, morwedd a threflun Bro Morgannwg. | • Sicrhau bod tirweddau, trefluniau a morweddau mwyaf gwerthfawr Bro Morgannwg yn cael eu diogelu a'u gwella?<br>• Defnyddio nodweddion tirwedd naturiol newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli i liniaru unrhyw effeithiau posibl o ran dehongliadau cyfagos ac o bell ar ei thirweddau?<br>• Darparu cyfleoedd i gysylltu coetiroedd tameidiog presennol, cyflwyno coetiroedd newydd, a gwella'r broses o reoli coetiroedd a gwrychoedd<br>• Gwarchod a gwella diddordeb, cymeriad a golwg arbennig Arfordir Treftadaeth Morgannwg a'i leoliad? | • Cymru Lewyrchus<br>• Cymru Wydn<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru Fwy Cyfartal<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>• Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br>• Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |

aecom.com

aecom.com